

# Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2023–2024

Cyhoeddwyd 29 Tachwedd 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........................................ 3
2. Trawsnewid gwasanaethau'r BBC ar gyfer cynulleidfaoedd y DU ........................................ 8
3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus ........................................ 23
4. Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau ........................................ 57
5. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ........................................ 69
6. Safonau cynnwys ........................................ 77

# 1. Trosolwg

Mae'r BBC yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd drwy ei Genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu. Mae hefyd yn ofynnol iddo gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus ac, fel y nodir o dan y Siarter Frenhinol, rhaid i Fwrdd y BBC bennu strategaeth, cyllidebau a chylch gwaith creadigol y BBC. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd wedi'u nodi yn ein Fframwaith Gweithredu. Rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd: goruchwylio perfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a rheoleiddio safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol gan Siarter a Chytundeb y BBC, rydym yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn y tri maes yma, a sut aethom ati i gyflawni ein rôl.

Dyma ein seithfed Adroddiad Blynyddol ar y BBC, a'r asesiad llawn cyntaf o dan y Drwydded Weithredu newydd a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2023 i foderneiddio ein gwaith o reoleiddio'r BBC. Yn y prif adroddiad hwn, rydym yn crynhoi perfformiad y BBC ar draws ein meysydd gwaith rheoleiddio ym mlwyddyn ariannol 2023/24, wrth archwilio newidiadau mwy diweddar i wasanaethau'r BBC hefyd.

Mae'r BBC wedi parhau i gyflawni ei gylch gwaith eleni. Rydym yn seilio ein hasesiad ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys y gwaith ymchwil helaeth ymysg defnyddwyr a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhelir gan Ofcom drwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol ac yn Atodiad 1, sy'n cynnwys ein hasesiad o gydymffurfiad y BBC â'r gofynion rheoleiddio penodol o dan Drwydded Weithredu'r BBC.

### Mae'r BBC yn dal i wynebu heriau o ran cyrraedd cynulleidfaoedd iau, er ei fod yn dal i gael ei ddefnyddio'n eang a'i werthfawrogi'n gyffredinol

Er ei fod yn wynebu mwy o gystadleuaeth gan lwyfannau cyfryngau a ffrydwyr, y BBC yw'r brand cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio amlaf yn y DU ar y teledu, ar y radio ac ar-lein. Mae gan 61% o oedolion farn gadarnhaol am y BBC, sy'n debyg i'r gyfran pan wnaethom ddechrau adrodd yn 2017/18.

Fodd bynnag, mae heriau amlwg yn deillio o gystadleuaeth ar-lein a phwysau ariannol. Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y BBC, yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cysylltu â chynulleidfaoedd sy'n symud i fod ar-lein. Gan edrych ar bobl 16-24 oed yn benodol, dim ond 13% o gyfanswm yr amser y maent yn ei dreulio'n gwylio fideos yn y cartref a dreulir yn gwylio gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, a 5% yn gwylio'r BBC – o'i gymharu â'r rhai dros 35 oed, sy'n treulio 50% o'r un amser yn gwylio gwasanaethau darlledu cyhoeddus, a 23% yn gwylio'r BBC.[1] Mae hyn yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac mae'n sbardun allweddol i'r BBC drawsnewid ei hun a chynyddu ei fuddsoddiad mewn gwasanaethau ar-lein. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r BBC hefyd sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys y lleiafrif sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi, a'r rhai nad oes ganddynt fynediad o gwbl.

[1] Barb fel y gwyliwyd 2023

## Mae’r BBC yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddynt

Mae’r BBC yn ffynhonnell bwysig a dibynadwy o newyddion sy’n ddigon cywir a diduedd. Ers cenedlaethau, mae wedi cyfrannu at gymdeithas y DU, gan roi gwybodaeth i ddinasyddion a chefnogi trafodaethau democrataidd. Heddiw, mae ei allbwn newyddion yn dal i gael ei ddefnyddio’n helaeth, ac mae lefelau uchel o ymddiriedaeth ynddo ymysg cynulleidfaoedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd mwy a mwy o wrthdaro rhyngwladol a sawl etholiad cenedlaethol yn cael eu cynnal ym mhedwar ban byd. Rydym hefyd wedi gweld arferion cynulleidfaoedd yn newid yn gyflym, gyda chynulleidfaoedd iau yn enwedig yn troi at gyfryngau cymdeithasol i gael newyddion. Ar yr un pryd, rydym wedi gweld cynnydd cyflym mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein, sydd wedi golygu bod cynulleidfaoedd yn gallu ei chael hi’n anodd gwybod beth i ymddiried ynddo. Mae hyn wedi cael ei waethygu ymhellach gan bryderon am y defnydd posibl o ddeallusrwydd artiffisial, a’r ras i wneud defnydd effeithiol o’r cyfleoedd mae’n eu cynnig.

Mae’r heriau hyn yn amlygu pwysigrwydd rôl y BBC a’r angen iddo ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd, ble bynnag y maent, a chadw eu hymddiriedaeth. Mae’r BBC wedi gwneud ymdrechion clir i arloesi yn y maes hwn. Mae’n buddsoddi yn ei wasanaethau ar-lein, yn datblygu ei adnodd gwirio ffeithiau a thryloywder newydd – *BBC Verify*, yn cynhyrchu cynnwys ffurf fer wedi’i deilwra ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok, ac yn gwella swyddogaeth ei ap newyddion. Mae wedi datgan ei ymrwymiad i gefnogi ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o’r cyfryngau, ac rydym yn awyddus i weld sut gall y gwaith hwn ddatblygu yn unol â’i Genhadaeth i hysbysu ac addysgu.[2]

Mae bron i naw o bob deg oedolyn yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio’r BBC bob wythnos, a gall newidiadau i’w wasanaethau gael effaith fawr ar gynulleidfaoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi mynd ati i ailstrwythuro timau newyddion a materion cyfoes ar sawl achlysur, yn rhannol i fynd i’r afael â heriau cyllido, ond hefyd i gynyddu buddsoddiad yn ei wasanaethau ar-lein. Er ein bod yn deall rhesymeg y BBC, byddai gennym bryderon difrifol petai lleihau costau yn y pen draw yn cyfyngu ar allu’r BBC i ddarparu newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddynt. Byddwn yn parhau i fonitro’r gwasanaethau hyn i sicrhau bod y BBC yn dal ati i gyflawni ei rôl hollbwysig o ran darparu newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd. Mae ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn ystyried yr effaith y mae newidiadau yn yr ecosystem newyddion yn ei chael ar gynulleidfaoedd a bydd yn ystyried beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod newyddion dibynadwy a chywir ar gael i gynulleidfaoedd, lle bynnag maen nhw’n dymuno ei gael.

## Mae’r BBC yn datblygu ei wasanaethau i gyrraedd pob cynulleidfa yn well, ond nid yw wedi egluro ei strategaeth gyffredinol ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd DE.

Wrth gyflawni ei gylch gwaith, mae’r BBC bob amser wedi’i chael yn haws cyrraedd a bodloni rhai grwpiau yn fwy nag eraill ymysg ei gynulleidfaoedd. Rydym yn parhau i fonitro bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn rheolaidd, gan nodi’r defnyddwyr sy’n llai bodlon neu’n

[2] Ymateb y BBC i ymgynghoriad Ofcom ar ei Strategaeth Tair Blynedd ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau, Mehefin 2024

defnyddio llai ar wasanaethau'r BBC. Mae cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd DE[3] yn llai tebygol o ymgysylltu â'r BBC, gyda 78% o bobl 16-34 oed a 79% o gynulleidfaoedd DE yn defnyddio o leiaf un gwasanaeth y BBC bob wythnos o'i gymharu ag 86% o oedolion yn gyffredinol. Hefyd, mae 44% o gynulleidfaoedd DE yn llai tebygol o fod â barn gadarnhaol tuag at y BBC o ran 'adlewyrchu bywydau pobl fel fi', o'i gymharu â 50% ar gyfer holl oedolion y DU.[4] Mae'n hanfodol bod y BBC, fel sefydliad sy'n cael arian cyhoeddus ac sydd wrth galon y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn dod o hyd i ffyrdd o apelio at gynulleidfaoedd ar hyd a lled y DU a chysylltu â nhw, er gwaethaf natur fwyfwy darniog eu harferion wrth ddefnyddio'r cyfryngau. Mae hyn yn amlwg yn bwysig i gynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol, ond mae hefyd yn hollbwysig bod y BBC yn parhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod y BBC yn rhoi cynlluniau unigol ar waith er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd DE yn well, ac mae'n cymryd amser i ddylanwadu ar lefelau bodlonrwydd cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn broblem i'r BBC ers tro byd, ac nid yw wedi bod yn glir beth yw ei gynlluniau cyffredinol ar gyfer gwella bodlonrwydd y grŵp hwn. Yn fwy cyffredinol, rydym yn credu y gallai'r BBC egluro'n well a yw ei gynlluniau wedi cael effaith gadarnhaol, a sut mae'n asesu beth sy'n gweithio/ddim yn gweithio i gynulleidfaoedd.

### Mae'r BBC wedi bodloni ei ofynion ar gyfer diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol a chydymffurfio â safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC

Mae fframwaith rheoleiddio sylfaenol y BBC hefyd yn cael ei ddiwygio, drwy newidiadau i'r Cytundeb Fframwaith. Disgwyliwn y bydd y rhain yn adlewyrchu argymhellion y Llywodraeth yn ei Hadolygiad Canol Tymor o'r BBC, ac y byddant yn canolbwyntio ar gystadleuaeth a'r gwaith o reoleiddio safonau cynnwys y BBC. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'n canllawiau ar gystadleuaeth ac ar ddrafft o God Deunydd Ar-lein y BBC fel rhan o'r newidiadau hyn ar ôl i'r Llywodraeth gyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

Fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor o'r BBC, roedd y Llywodraeth yn argymell ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth. Heddiw, rydym wedi cyhoeddi Rhan 2 o'n hadolygiad o gyfryngau lleol yn y DU sy'n rhoi sylw manwl i'r argymhellion hyn. Rydym hefyd wedi nodi ein hasesiad o newidiadau diweddar y BBC i newyddion lleol ar-lein yn Lloegr a'u heffaith ar ddarparwyr newyddion lleol masnachol. Rydym hefyd yn dwyn ynghyd safbwyntiau ar amrywiaeth o syniadau posibl a gyflwynwyd i ni, a allai gefnogi cynaliadwyedd darpariaeth newyddion lleol ar draws y sector yn y dyfodol.

Mae angen i'r BBC barhau i ystyried ei effaith ar ei gystadleuaeth wrth iddo wneud newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o ddarparwyr cyfryngau yn y DU yn wynebu heriau tebyg i'r BBC, ac felly mae angen iddo sicrhau ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng darparu ar gyfer cynulleidfaoedd a sicrhau nad yw'n cyfyngu ar eu dewis o ddarparwyr cyfryngau yn y DU. Mae'r BBC wedi gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â

[3] Cyfeirir yn aml at bobl o grwpiau D ac E fel pobl sydd â statws economaidd-gymdeithasol is, sy'n dod o aelwydydd incwm is neu o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith neu mewn gwaith heb sicrwydd, gydag anabledd, neu wedi ymddeol â phensiwn y wladwriaeth yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y Deyrnas Unedig.

[4] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

rhanddeiliaid ynghylch newidiadau i'w wasanaethau eleni, ac rydym wedi gweld hyn ar draws yr asesiadau a gynhaliwyd gennym yn 2023/24.

O ran safonau cynnwys, mae'r BBC wedi gweld cynnydd mewn cwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy dros y flwyddyn ddiwethaf, a sbardunwyd yn rhannol gan y gwrthdaro rhwng Israel a Gaza. O'r cwynion roeddem wedi'u hasesu, nid oeddem yn credu bod unrhyw un o'r cwynion hyn yn codi materion i gyfiawnhau ymchwiliad o dan ein Cod. Fodd bynnag, roeddem wedi cadarnhau dwy gŵyn yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd.

Heddiw, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ymchwil siopwr dirgel i sut mae'r BBC yn delio â chwynion drwy'r broses BBC yn Gyntaf. Mae hyn yn dilyn ein hadolygiad cyfnodol yn 2022 ar sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, lle roeddem wedi dweud wrth y BBC bod angen iddo wella'r broses BBC yn Gyntaf ar frys a gwneud cyfres o argymhellion i symleiddio'r broses. Rydym yn falch o weld bod y BBC wedi rhoi newidiadau ar waith yn dilyn ein hargymhellion, a bod yr ymchwil diweddaraf hwn yn dangos bod BBC yn Gyntaf yn cyflawni'n dda ar gyfer cynulleidfaoedd o ganlyniad i'n gwaith rheoleiddio.

## Y camau nesaf

Ym mis Mai daeth Deddf Cyfryngau 2024 yn gyfraith, ac mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio i ddiogelu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac i feithrin arloesedd. Ochr yn ochr â'n gwaith o weithredu gwahanol fesurau'r Ddeddf ar draws y diwydiant, rydym yn cyfrannu at drafodaethau rhwng y Llywodraeth a'r BBC ynghylch unrhyw newidiadau angenrheidiol i Gytundeb Fframwaith y BBC i adlewyrchu hyn.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn hefyd yn cynnal adolygiad cyfnodol i asesu i ba raddau mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a bydd hyn yn cyfrannu at Adolygiad y Llywodraeth o'r Siarter.

## Ein dull gweithredu a phwrpas y ddogfen hon

Fel y nodwyd uchod, dyma'r flwyddyn gyntaf rydym wedi asesu'r BBC yn llawn o dan y Drwydded Weithredu newydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd hyn yn cynyddu ein goruchwyliaeth o wasanaethau ar-lein y BBC ac yn cynyddu'r gofynion tryloywder ar y BBC, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd iddo ymateb i newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd. Mae'r BBC bellach wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am ei allbwn a'r hyn mae'n ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn ei adroddiadau rheoleiddio, gan ddarparu mwy o dryloywder i Ofcom ac i randdeiliaid.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn un rhan o sut rydym yn ei ddal i gyfrif o dan y Drwydded Weithredu newydd, gan roi cipolwg ar yr ystod eang o wybodaeth rydym yn ei hadolygu'n barhaus ac asesiad o sut mae'r BBC wedi cyflawni yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar gyfer 2023/24. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau pwysig yn yr adroddiadau blynyddol hyn, hyd yn oed os yw'r newidiadau hyn yn dal i gael eu rhoi ar waith neu wedi digwydd ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd.

Fel rhan o'n rhaglen fonitro barhaus, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, ac â'r BBC a'i dimau arbenigol, drwy gydol y flwyddyn i ddeall sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd a'r economi greadigol. Hefyd, rydym yn craffu ar unrhyw newidiadau perthnasol y mae'n bwriadu eu gwneud i'n galluogi i ymyrryd yn gyflym os bydd angen.

Mae strwythur penodau'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- **Trawsnewid gwasanaethau'r BBC ar gyfer cynulleidfaoedd y DU** – Yn trafod sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa, a'r newidiadau penodol y mae'r BBC wedi'u gwneud yn ddiweddar neu'n bwriadu eu gwneud i'w wasanaethau.
- **Perfformiad yn erbyn y Dibenion Cyhoeddus** – Yn cynnwys ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan y Dibenion Cyhoeddus yn erbyn y fframwaith mesur perfformiad.
- **Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau** – Yn rhoi enghreifftiau sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad, yn ogystal â phwyntiau data allweddol ar berfformiad y BBC.
- **Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol** – Yn egluro sut rydym wedi rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth.
- **Safonau cynnwys** – Yn nodi perfformiad y BBC o dan system BBC yn Gyntaf, ein goruchwyliaeth o'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys, a'n paratoadau ar gyfer dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â safonau golygyddol y BBC.

# 2. Trawsnewid gwasanaethau'r BBC ar gyfer cynulleidfaoedd y DU

Cenhadaeth y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa yn y DU drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i gyrraedd ac ymgysylltu â phob cynulleidfa ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r BBC yn wynebu heriau parhaus, o gynulleidfaoedd o bob oed yn symud fwyfwy oddi wrth wasanaethau darlledu i gael gafael ar fwy o gynnwys o amrywiaeth o wasanaethau ar-lein, ond hefyd o ganlyniad i'r pwysau ariannol a achoswyd gan y chwyddiant diweddar a rhewi ffi'r drwydded.

Yn yr adran hon rydym ni'n rhoi trosolwg o sut mae'r BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa ac yna'n trafod newidiadau penodol mae'r BBC wedi'u gwneud yn ddiweddar neu'n bwriadu eu gwneud i'w wasanaethau.

## Ein barn ar ddarpariaeth y BBC ar gyfer pob cynulleidfa

### Mae'r BBC yn parhau i fod yn boblogaidd ac yn cael ei ddefnyddio gan y mwyafrif o bobl yn y DU

Er gwaethaf y gystadleuaeth gynyddol gan gynnwys sydd ar gael ar wasanaethau eraill, mae'r BBC yn parhau i ddenu cyfran fawr o boblogaeth y DU, ac yn ôl ein data, roedd 86% o oedolion[5] a 69% o blant 3-16 oed yn defnyddio'r BBC bob wythnos yn ystod 2023/24.[6] Mae dros ddwy ran o dair (69%) o oedolion yn gwylio cynnwys teledu'r BBC bob wythnos,[7] ac mae bron i hanner (47%) yn gwrando ar wasanaethau sain y BBC.[8]

Mae cyrhaeddiad y BBC yn uchel ymysg y rheini sy'n 55 oed a hŷn gyda naw o bob deg (92%) yn dweud eu bod yn defnyddio ei wasanaethau bob wythnos, ac mae'r un peth yn wir am gynulleidfaoedd mewn aelwydydd AB (91%). Mae'r defnydd wythnosol cyffredinol ar draws y pedair gwlad hefyd yn uchel, yn amrywio o 83% yn yr Alban i 87% yng Nghymru.[9]

Mae cynulleidfaoedd yn dal i fod â chanfyddiad cadarnhaol o'r BBC, gyda 61% o oedolion y DU yn dweud hyn, ac y byddent yn gweld ei golli pe na bai ar gael (59%).[10] O'i gymharu â sianeli a

[5] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[6] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.
[7] Barb 2023/24. Ar draws rhaglenni byw, wedi'u recordio, BBC iPlayer ar y teledu a dyfeisiau eraill (dros 3 munud o gyrhaeddiad, pawb dros 16 oed).
[8] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[9] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[10] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer yn perfformio'n dda, o ran ffafriaeth.[11]

## Fodd bynnag, mae rhai grwpiau cynulleidfa yn dal i fod yn ddefnyddwyr llai bodlon neu ysgafnach o wasanaethau'r BBC

Er bod cyrhaeddiad cyffredinol y BBC yn parhau'n uchel ac yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall a bod canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, mae'r BBC wedi nodi rhai grwpiau cynulleidfa sy'n ei ddefnyddio llai neu sy'n llai bodlon. Mae'r rhain yn cynnwys cynulleidfaoedd iau (16-34 oed), cynulleidfaoedd yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E,[12] cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a chynulleidfaoedd anabl.[13]

Mae'r defnydd o'r cyfryngau yn amrywio ar draws demograffeg a gwasanaethau, er enghraifft, mae cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd DE yn llai tebygol o ymgysylltu â'r BBC, gyda 78% o bobl 16-34 oed a 79% o gynulleidfaoedd DE yn defnyddio o leiaf un gwasanaeth y BBC bob wythnos o'i gymharu ag 86% o oedolion yn gyffredinol.[14] Mae dadansoddiadau wedi dangos yn rheolaidd bod agweddau at gynrychiolaeth a phortreadu ar y BBC hefyd yn is ymysg rhai cynulleidfaoedd. Er enghraifft, ymysg cynulleidfaoedd DE mae gan 44% farn gadarnhaol am y BBC o ran *'adlewyrchu bywydau pobl fel fi'* o'i gymharu â 50% ar gyfer holl oedolion y DU.[15]

Er nad yw'r her o geisio gwasanaethu cynulleidfaoedd iau yn unigryw i'r BBC, mae wedi ac mae'n dal i wynebu anawsterau o ran cyrraedd y cynulleidfaoedd hyn.[16] Fe wnaethom nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar y BBC yn 2018 bod angen iddo wneud mwy i wasanaethu'r grŵp hwn ac ers hynny, mae mwy o gynulleidfaoedd iau yn defnyddio gwasanaethau cynnwys ar-lein gan dreulio mwy o amser ar lwyfannau rhannu fideos (VSPs) a chyfryngau cymdeithasol.[17] Er bod y BBC yn darparu cynnwys ar y llwyfannau hyn, cynnwys wedi'i addasu a'i fyrhau a ddefnyddir yn bennaf i geisio denu cynulleidfaoedd yn ôl at ei wasanaethau, yn unol â'i strategaeth bresennol. Ymysg pobl 16-34 oed, mae'r amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio gyda'r BBC bob dydd wedi gostwng o 75 munud yn 2017 i 46 munud yn 2023 - gostyngiad mwy o'i gymharu â phob oedolyn.[18]

Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC a oedd yn ystyried y ffactorau a allai ysgogi lefelau bodlonrwydd is ymysg cynulleidfaoedd DE. Fe wnaethom ganfod er bod cynulleidfaoedd DE yn grŵp amrywiol,[19] eu bod yn gwylio cyfran gymharol uchel o deledu'r BBC, gan wylio 53 munud bob dydd ar gyfartaledd yn 2023 o'i gymharu â'r rheini o aelwydydd AB a oedd yn

---

[11] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr *'Ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu anffafriol dros ben a 10 yn golygu ffafriol dros ben, beth yw eich argraff gyffredinol o [y gwasanaeth] ...*?'.

[12] Mae dosbarthiad economaidd-gymdeithasol fel arfer yn seiliedig ar alwedigaeth ac yn cynnwys categorïau: A, B, C1, C2, D ac E.

[13] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.148.

[14] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

[15] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

[16] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.45. Y llynedd, methodd y BBC gyflawni ei dargedau cyrhaeddiad a pherthnasedd personol roedd wedi'u gosod ar gyfer pobl 16-34 oed.

[17] Barb, ar adeg gwylio. Roedd cynulleidfaoedd 16-34 oed yn treulio 34% o'u hamser gwylio fideos dyddiol yn y cartref ar VSPs.

[18] Modelu Ofcom o ddata BBC Compass, Barb a RAJAR

[19] Mae cynulleidfoaedd DE yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith, gydag anabledd, neu wedi ymddeol â phensiwn y wladwriaeth yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU.

gwylio 42 munud ar gyfartaledd.[20] Serch hynny, roeddent yn dweud bod gan y BBC enw da am fod yn "sych" ac yn ddifrifol o'i gymharu â darlledwyr a gwasanaethau eraill ac roeddent am i'r BBC arbrofi drwy gynhyrchu cynnwys mwy "mentrus". Ar y cyfan, roeddent yn teimlo, er bod y BBC yn dal i gynhyrchu rhywfaint o raglenni o safon, nad oedd yn sefyll allan mewn marchnad orlawn mwyach.

Er nad yw ein data monitro ein hunain yn dangos gwahaniaethau sylweddol ar hyn o bryd ar gyfer cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig, mae'r BBC yn adrodd am ganfyddiadau mwy negyddol ymysg y grwpiau hyn. Er enghraifft, mae 45% o gynulleidfaoedd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cytuno bod y BBC yn effeithiol o ran darparu *'rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n berthnasol iddyn nhw'*, o'i gymharu â 56% o gynulleidfaoedd gwyn a 54% o holl oedolion y DU.[21] Ar gyfer cynulleidfaoedd anabl, er eu bod yn treulio mwy o amser bob dydd yn gwylio cynnwys teledu'r BBC na chynulleidfaoedd nad ydynt yn anabl,[22] maent yn llai tebygol o fod yn gadarnhaol am sut mae'r BBC yn *'adlewyrchu bywydau pobl fel fi'* ac *'yn cynnwys pobl fel fi'* na'r rheini sydd heb anabledd.[23]

## Mae'r BBC wedi bod yn cymryd camau i ddiwallu anghenion y cynulleidfaoedd amrywiol hyn yn well

O ystyried arferion cyfryngau sy'n newid, mae'n rhaid i'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd sy'n gwylio ac yn gwrando fwyfwy ar-lein, gan ddarparu ar yr un pryd ar gyfer y rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fwy traddodiadol, fel nad oes unrhyw gynulleidfaoedd yn cael eu gadael ar ôl. Mae ganddo strategaethau a mentrau sy'n ceisio gwella gwasanaethau'r BBC i bawb,[24] yn ogystal â chynlluniau wedi'u targedu'n well i wella cyrhaeddiad a bodlonrwydd defnyddwyr llai bodlon neu ysgafnach o wasanaethau'r BBC. Er enghraifft, mae'r BBC wedi datblygu ei gynhyrchion digidol drwy wella ymarferoldeb ei wasanaethau ar-lein, cynyddu ymwybyddiaeth o'i allbwn drwy fentrau fel marchnata ar lwyfannau trydydd parti, a thrwy strategaethau penodol i gynnwys fel ei ffocws ar gefnogi straeon a chynnwys Prydeinig.[25]

Mae'r BBC yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau digidol ar gyfer cynulleidfaoedd iau (16-34) i'w gwneud yn ddewis cyntaf i ddefnyddwyr. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o frand a denu cynulleidfaoedd yn ôl at wasanaethau'r BBC, mae wedi ehangu'r cyfresi cyfan sydd ar gael ar BBC iPlayer ac wedi dechrau datblygu cynnwys wedi'i deilwra ar gyfer llwyfannau trydydd parti. Roedd hefyd yn amlinellu llwyddiant rhaglenni wedi'u targedu fel *Gossip Girl,* sydd wedi denu cynulleidfaoedd iau at BBC iPlayer ac wedi eu harwain at gynnwys arall y BBC.[26] Mae'r BBC hefyd wedi ceisio denu cynulleidfaoedd iau drwy gomisiynu cynnwys effaith uchel sy'n perfformio'n dda gyda'r grŵp oedran hwn, fel *The Traitors*.[27] Er gwaethaf y gostyngiad yn y cyrhaeddiad cyffredinol i gynulleidfaoedd iau, mae cynnydd wedi bod yn nifer cyfartalog y cyfrifon gweithredol wythnosol dan

---

[20] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig.
[21] Dadansoddiad a ddarparwyd gan y BBC, a gynhaliwyd gan Ipsos UK ar gyfer y BBC.
[22] Barb.
[23] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[24] Mae'r rhain yn cynnwys Value for All, Across the UK, canolbwyntio ar gynnwys effaith uchel, Creative Diversity Commitments a'i Impartiality Plan. (Saesneg yn unig)
[25] Fel y nodir yn ei ddull gweithredu Digital-first BBC a'i gynllun BBC for the Future
[26]BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2024, t.38.
[27] Mae'r BBC yn nodi mai *The Traitors* yw'r brand adloniant newydd mwyaf o hyd yn y farchnad ar gyfer pobl 16-34 oed. Mae ein dadansoddiad o ddata Barb yn dangos bod y gyfres wedi bod yn boblogaidd ymysg pobl 16-34 oed, gyda chynulleidfa gyfartalog o 1.9 miliwn o bobl 16-34 oed fesul pennod ar draws teledu sy'n cael ei ddarlledu a BBC iPlayer, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.

35 oed sy'n defnyddio BBC iPlayer (4.1 miliwn), a oedd yn cyrraedd targed y BBC.[28] Mae cynulleidfaoedd iau hefyd yn fwy tebygol na chynulleidfaoedd hŷn o gytuno bod BBC iPlayer yn *'darparu rhaglenni sy'n wahanol i'r hyn rydw i'n ei wylio fel arfer'* yn dda.[29]

Er mwyn denu cynulleidfaoedd DE, mae gan y BBC gynlluniau cynnwys penodol ac mae wedi dweud y bydd yn parhau i ddarparu cyfresi llwyddiannus allai ddychwelyd yn y tymor hir sy'n boblogaidd ymysg y grŵp hwn, er enghraifft *Sort Your Life Out*,[30] a chreu mwy o gynnwys Prydeinig effaith uchel sydd fel arfer yn apelio at y cynulleidfaoedd hyn, fel *Gladiators*.[31] Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023/2024, dywedodd y BBC y byddai ei gynlluniau marchnata a'i gynnwys sy'n cael ei brynu yn helpu i ddenu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.[32]

Mae'r BBC yn gweithio i wella sut mae'n cynrychioli ac yn portreadu'n ddilys gynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig ac anabl ar draws ei allbwn mewn ffyrdd tebyg. Mae'n canolbwyntio ar greu cynnwys effaith uchel sy'n apelio at y cynulleidfaoedd hyn ac sydd â chynrychiolaeth amrywiol o gast a chyfranwyr, fel *Strictly Come Dancing*[33] a rhaglenni fel *Black Ops* a *Man like Mobeen*.[34] Mae hefyd wedi bod yn datblygu ei wasanaethau hygyrchedd, er enghraifft, dechrau treial isdeitlo ar BBC Sounds a nodwedd newydd ar BBC iPlayer sy'n gwneud cynnwys 'Disgrifiadau Sain' ac 'Iaith Arwyddion' yn haws dod o hyd iddo.[35] Rydym yn trafod ymrwymiadau amrywiaeth greadigol y BBC a chynlluniau eraill ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn ymhellach o dan Ddiben Cyhoeddus 4 yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

Nid yw'r grwpiau cynulleidfa hyn yn arwahanol nac yn homogenaidd ac mae gorgyffwrdd rhyngddynt. Er enghraifft mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig ym mhoblogaeth y DU yn tueddu i fod â phroffil oedran iau ac mae cynulleidfaoedd anabl yn fwy tebygol o gynnwys cyfran uwch o aelwydydd DE. Felly, dylai cael grwpiau penodol mewn golwg ar gyfer gwella allbwn arwain yn y pen draw at fwy o gynrychiolaeth ar gyfer ystod ehangach o gynulleidfaoedd oherwydd y gorgyffwrdd hyn.

## Rydym yn disgwyl i'r BBC egluro'n glir sut bydd yn gwerthuso effaith ei newidiadau ar y gynulleidfa

Mae llwyddiant y BBC yn y dyfodol yn dibynnu ar ei allu i ddeall ei gynulleidfaoedd a'u dewisiadau, er mwyn cysylltu â nhw ar draws ei wasanaethau. Dylai cynlluniau'r BBC a nodir yn A BBC for the Future i lansio proses ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr sy'n cyrraedd miliwn o bobl, helpu hyn.[36]

Mae'n amlwg bod y BBC yn ymgymryd â nifer o fentrau unigol i arloesi ac i greu cynnwys sy'n adlewyrchu ac yn apelio at wahanol grwpiau demograffig. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn

[28] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.46.
[29] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023, 16-34, 59% a 55+ oed 47%.
[30]Canfu dadansoddiad Barb Ofcom fod 1.5 miliwn o wylwyr C2DE wedi gwylio Tymor 4 *'Sort Your Life Out"* ar gyfartaledd fesul pennod, ar draws teledu a BBC iPlayer (sy'n cyfrif am dros ddwy ran o bump o'r gynulleidfa).
[31] Roedd gan *Gladiators* gynulleidfa gyfartalog o 2.7 miliwn o wylwyr C2DE fesul pennod ar draws teledu a BBC iPlayer.
[32] BBC, Cynllun Blynyddol 2023/24, t.19 a t.56.
[33] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig. Roedd 21% o unigolion anabl yn gwylio *Strictly Come Dancing* ar gyfartaledd bob wythnos yn 2023/24, o'i gymharu ag 16% o'r holl unigolion.
[34] Barb fel y'i gwelwyd, cynulleidfa ar draws sianeli teledu ac iPlayer. Ar gyfer *Black Ops* a *Man Like Mobeen*, roedd 17% a 30% o'r gynulleidfa yn y drefn honno o gefndir lleiafrifoedd ethnig.
[35] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.28.
[36] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.45.

cymryd amser i roi newid ar waith gydag unrhyw strategaeth neu fenter newydd. Serch hynny, mae'n bwysig bod y BBC yn egluro'n glir sut mae'n gwerthuso perfformiad ei gynlluniau ac ystyried effeithiau ar gynulleidfaoedd. Rydym yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â'r BBC ar hyn dros y flwyddyn nesaf wrth i'w gynlluniau gael eu rhoi ar waith.

Yn unol â gofynion ei Drwydded Weithredu newydd, rydym o'r farn bod y BBC wedi gwella ansawdd ei adroddiadau yn sylweddol yn ei Gynllun Blynyddol a'i adroddiadau blynyddol, er enghraifft yn ei adroddiad Delivering Our Mission and Public Purposes (DoMaPP). Fodd bynnag, er bod y BBC wedi egluro ei gynlluniau i ddenu cynulleidfaoedd iau, mae angen iddo nod'n gliriachi ei ddull cyffredinol o wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ar gyfer grwpiau demograffig eraill, fel cynulleidfaoedd DE.

## Mae'r BBC yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau digidol i sicrhau bod pob cynulleidfa yn gallu dod o hyd i gynnwys pwysig yn hawdd

Yn ein datganiad ar y Drwydded Weithredu a gyhoeddwyd y llynedd, fe wnaethom egluro bod risg na fyddai cynulleidfaoedd ar-lein yn dod i gysylltiad ag ystod eang o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus newydd a phwysig fel yr oeddent yn arfer gwneud ar amserlenni rhaglenni teledu a ddarlledir yn draddodiadol. Yn wir, mae mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn gwylio ar-lein ac erbyn chwarter cyntaf 2024, roedd tua dwy ran o dair (67%) o gartrefi'r DU, gan gynnwys traean o'r rheini dros 74 oed, wedi tanysgrifio i wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD).[37] Ar yr un pryd, mae cyrhaeddiad wythnosol teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi parhau i ostwng.[38] Felly, fe wnaethom gyflwyno amodau newydd i fynnu bod y BBC yn egluro sut mae'n sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys penodol, fel newyddion, ar ei wasanaethau ar-lein.[39]

Mae'r BBC yn ystyried bod trawsnewid digidol yn bwysig ac mae wedi parhau i ddatblygu BBC iPlayer, BBC Sounds, ei wefan a'i apiau, i sicrhau ei fod yn gallu parhau i gyrraedd pob cynulleidfa gydag ystod eang o gynnwys. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi bod yn gwella dyluniad ei ryngwynebau defnyddwyr, ei hafanau, ei reiliau cynnwys[40] a'i dabiau categori,[41] ac yn gwella personoli ar gyfer proffiliau sydd wedi mewngofnodi. Mae hi wedi bod yn braf gweld y datblygiadau hyn a'r wybodaeth mae'r BBC wedi'i chyhoeddi am y tro cyntaf am ei ddull o ymdrin â hwylustod canfod, yn ei adroddiad DoMaPP. O ystyried ei bwysigrwydd, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC wrth iddo ddatblygu ei gynlluniau ymhellach yn y maes hwn. Byddwn yn datblygu ac yn diweddaru ein dull o asesu ei berfformiad i sicrhau ein bod yn dal y BBC i gyfrif, gan ystyried datblygiadau parhaus. Rydym yn edrych ar hyn ymhellach yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

---

[37] Arolwg Sefydliad Barb Ch1 2024 (aelwydydd sydd ag o leiaf un SVoD y telir amdano).
[38] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig.
[39] Mae hyn yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, cynnwys dysgu anffurfiol, cynnwys gwreiddiol o'r DU a chynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.
[40] Rheiliau yw'r rhesi llorweddol o gynnwys ar hafan gwasanaethau ar-lein fel BBC iPlayer sy'n helpu defnyddwyr i lywio drwy gategorïau neu themâu penodol yn y llyfrgell cynnwys.
[41] Mae tabiau categori yn ddewislenni cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd ar wasanaethau ar-lein ac sy'n cael eu trefnu yn ôl genre.

# Newyddion a materion cyfoes

Wrth i gynulleidfaoedd gael mwy o'u newyddion ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC barhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes dibynadwy a chywir ar draws ei wasanaethau. Wrth iddo wneud newidiadau yn y maes pwysig hwn o'i allbwn, rydym yn parhau i fonitro'r effaith ar gynulleidfaoedd yn ofalus.

## Y BBC ydy'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU

Mae'r angen mor bwysig ag erioed i'r BBC gyflawni newyddiaduraeth o safon ddigon cywir, dibynadwy a diduedd â'r hyn a ddisgwylir ohono, a ninnau mewn cyfnod o drafodaethau sy'n gwrthdaro a thrafodaethau gwleidyddol iawn. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun gwrthdaro rhyngwladol a phryderon am ddatblygiadau technolegol gan gynnwys y rheini mewn deallusrwydd artiffisial, darparu ffrydiau newyddion drwy algorithmau a chynnwys ffugiadau dwfn. Mae tri chwarter (75%) oedolion y DU yn dweud ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn darparu *'newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd"*.[42]

Ymysg y nifer fawr o ddarparwyr newyddion sy'n cystadlu â'i gilydd sydd ar gael ar-lein ac ar y teledu a'r radio, y BBC yw'r un sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y DU o hyd. Mae cynulleidfaoedd yn dal yn gadarnhaol am ddarpariaeth gyffredinol y BBC o newyddion a materion cyfoes, gyda saith o bob deg (69%) yn rhoi sgôr gadarnhaol iddo am ddarparu '*newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd'*, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol.[43] Mae cyrhaeddiad newyddion ar draws llwyfannau'r BBC yn dal i gwmpasu cyfran fawr o gynulleidfaoedd y DU (68%), er bod hyn wedi gostwng o 73% yn y flwyddyn flaenorol. BBC One yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf o hyd ar draws pob llwyfan, yn uwch na Facebook ac ITV yn yr ail safle ar y cyd, ac yna BBC iPlayer.[44]

## Mae'r BBC yn arloesi i feithrin ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, mewn amgylchedd newyddion heriol

Fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer ein hadolygiad diweddaraf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gynharach eleni, mae mwy o oedolion yn y DU nawr yn cael gafael ar newyddion ar-lein (71%) nag unrhyw ffordd arall. Mae dros hanner oedolion y DU (52%) nawr yn cael gafael ar newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol.[45] Er bod ymddiriedaeth yn y BBC yn dal yn uchel, mae darparwyr newyddion yn gyffredinol wedi gweld gostyngiad mewn ymddiriedaeth a chanfyddiadau o ddidueddrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar gyfer y BBC, roedd canfyddiadau o ymddiriedaeth ymysg defnyddwyr teledu rheolaidd y BBC yn dal yn gymharol uchel (68% yn 2024), ac roedd 57% o wylwyr rheolaidd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am '*ddarlledu newyddion diduedd*' eleni. Yn yr un modd, gwelwyd lefelau uchel ymysg gwylwyr rheolaidd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

[42] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[43] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[44] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[45] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

eraill, fel ITV (68% yn ddibynadwy, 62% yn ddiduedd) a Channel 4 (72% yn ddibynadwy, 64% yn ddiduedd).[46]




O ystyried yr amgylchedd newyddion heriol, mae'r BBC wedi bod yn arloesi drwy ddatblygu ap BBC News, rhoi mwy o gynnwys newyddion ar gyfryngau cymdeithasol a VSPs ac esblygu ei wasanaethau newyddion ar-lein i wneud cynnig digidol mwy deniadol i gadw a meithrin ymddiriedaeth drwy adroddiadau newyddion tryloyw. Mae nodwedd tryloywder a gwirio ffeithiau newydd y BBC, BBC Verify, yn rhoi mwy o wybodaeth i gynulleidfaoedd am y dull gweithredu hirsefydlog y mae newyddiadurwyr yn ei ddefnyddio i wirio cywirdeb yr wybodaeth maent yn ei chael, a sut mae hyn wedi newid yng nghanol y twf mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein. Eleni, mae BBC Verify wedi rhoi sylw i bynciau anodd a chynhennus fel gwrthdaro yn y Dwyrain Canol ac Wcráin, ac wedi gwirio ffeithiau datganiadau a ffigurau a ddarparwyd gan wleidyddion yn ystod ymgyrch Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024. Lansiwyd nodwedd *Content Credentials* newydd eleni hefyd, sy'n cadarnhau o ble mae delwedd neu fideo wedi dod, a sut cafodd eu dilysrwydd ei ddilysu, er mwyn helpu i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol pan fydd defnyddwyr yn rhannu gwybodaeth y tu allan i lwyfannau'r BBC.[47] Mae ein hymchwil yn dangos mai BBC Verify yw'r wefan gwirio ffeithiau fwyaf tebygol o gael ei defnyddio gan oedolion yn y DU, gydag un o bob pum oedolyn yn y DU sy'n 16 oed a hŷn (21%) yn dweud eu bod wedi'i defnyddio.[48] Mae'r arwyddion cynnar o ddadansoddiad y BBC ei hun hefyd yn awgrymu bod BBC Verify yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau pobl o BBC News a'r BBC yn ehangach, ac ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd ei fod wedi ehangu BBC Verify a'i lansio mewn nifer o wledydd.[49]

Yn unol â'i ofynion hwylustod canfod newydd a drafodir uchod, mae'r BBC wedi bod yn datblygu BBC iPlayer a BBC Sounds i wneud ei gynnwys newyddion a materion cyfoes ar-lein yn haws ei ganfod. Mae hyn wedi cynnwys darparu ffrydiau byw adweithiol ar y ddau wasanaeth, gan gynnwys yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU. Ar BBC Sounds, roedd cynllun peilot y ffrwd newyddion fyw yn dod â

---

[46] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[47]BBC, New technology i ddangos pam mae delweddau a fideos yn lansiadau go iawn ar BBC News, Mawrth 2024. Mae hyn yn adeiladu ar gyfraniad y BBC at sefydlu'r Glymblaid Tarddiad a Dilysrwydd Cynnwys, neu C2PA a greodd y safon dechnegol.
[48] Ofcom Mis and Disinformation – Susceptible Groups, 2024, YouGov. Sail: Oedolion y DU 16 oed a hŷn sy'n cynrychioli safbwyntiau gwleidyddol gwahanol o banel ar-lein YouGov.
[49] BBC, Cynllun Blynyddol 2024/25, t.16.

chynnwys newyddion presennol at ei gilydd o bob rhan o wasanaethau'r BBC, gan gynnwys ffrwd sain o'r BBC News Channel a chyrhaeddodd bron i 135,000 o ddefnyddwyr unigryw dros y cyfnod o dair wythnos cyn yr etholiad.[50] Mae'r ffrwd newyddion bellach wedi cael ei chyflwyno fel nodwedd barhaol ar BBC Sounds gan ddarparu llwybr arall i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys newyddion o bob rhan o'r BBC. Mae'r BBC hefyd wedi ceisio ei gwneud yn haws dod o hyd i newyddion lleol drwy ychwanegu adran bwrpasol ar ap BBC News.[51]

Mae denu cynulleidfaoedd iau yn her benodol i ddarparwyr newyddion traddodiadol. Mae'r BBC wedi bod yn ceisio cynyddu ei gyrhaeddiad newyddion gyda'r cynulleidfaoedd hyn drwy gynnwys fideo ffurf-fer a defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i adeiladu ei frand ar-lein. Mae bron i hanner (45%) defnyddwyr dyddiol cyfartalog cyfrif TikTok BBC News yn 18-24 oed. Mae ei ffigurau gwylio misol cyfartalog treigl wedi cynyddu 113% o 48.7 miliwn yn gwylio ym mis Ebrill 2023 i 103.7 miliwn ym mis Mawrth 2024.[52] Ym mis Tachwedd 2024, roedd gan y BBC 17 miliwn o danysgrifwyr i'w dudalen BBC News ar YouTube.[53]

## Rydym yn monitro newidiadau i wasanaethau newyddion y BBC, gan ganolbwyntio ar ei ymrwymiad i faterion cyfoes ymchwiliol

Mae'r BBC wedi parhau i weithredu newidiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol i'w raglenni newyddion a materion cyfoes ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi rhagor o doriadau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith y flwyddyn nesaf. Ym mis Tachwedd 2023, dywedodd y BBC y byddai'n ailfformatio *Newsnight* fel rhaglen o ddadlau, trafod a chyfweld 30 munud o hyd, ac na fyddai ganddo dîm adrodd penodol mwyach. Roedd y BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy mewn adroddiadau ymchwiliol drwy uned ymchwiliadau ganolog BBC News, gan ddod â thalentau presennol at ei gilydd a chreu rolau adrodd newydd. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai'r ailstrwythuro mewnol hwn o bosibl beri i adroddiadau ymchwiliol y BBC fod yn llai eang eu cwmpas. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad cychwynnol o ffigurau gwylio Newsnight ers i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith ym mis Mai 2024, yn dangos bod lefelau cynulleidfaoedd wedi cynyddu, ar gyfartaledd. Er bod hyn yng nghyd-destun cyfnod etholiad, pan fydd mwy o ddiddordeb mewn materion cyfoes, [54]rydym yn cydnabod bod ceisio ailfformatio a moderneiddio wrth geisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn gallu arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gynulleidfaoedd.

Cyhoeddwyd rhagor o doriadau ym mis Hydref eleni i sicrhau arbedion o £24m mewn newyddion a materion cyfoes. Bwriad hyn yw arwain at ostyngiad net o 155 o rolau a newidiadau amserlennu ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC. Mae'r BBC yn bwriadu cau ei Dîm Asian Network News gan ddarlledu comisiwn newyddion wythnosol gyda'r nos sydd â ffocws Asiaidd Prydeinig a bwletinau *Newsbeat* yn lle'r rhaglen newyddion amser gyrru. Bydd y newidiadau'n effeithio ar allu'r BBC i

---

[50] Data'r BBC.
[51] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.19.
[52] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.19.
[53] BBC News, YouTube [cyrchwyd ddiwethaf 22/11/2024].
[54] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, oedolion 16 oed a hŷn. Cynulleidfa gyfartalog fesul pennod Newsnight ar gyfer y chwe wythnos yn union cyn newi hyd y rhaglen a chwe wythnos yn syth ar ôl y newid. Sylwer: roedd maint cyfartalog y gynulleidfa hefyd yn dal yn uwch yn ystod y chwe wythnos ar ôl canlyniad yr etholiad cyffredinol.

fodloni gofyniad ei Drwydded Weithredu ar gyfer BBC Asian Network a bydd yn gofyn am ostyngiad yn y cwota newyddion a materion cyfoes i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig mewn allbwn.[55]

Ym mis Awst eleni, fe wnaethom gymeradwyo cais y BBC i newid y Drwydded Weithredu i leihau nifer yr oriau o newyddion y mae'n rhaid iddo eu darlledu ar sianel BBC Scotland yn ystod oriau brig. Mae'n bwriadu lansio rhaglen newyddion rhanbarthol 30 munud newydd i'w darlledu am 7pm, bum diwrnod yr wythnos, yn lle'r rhaglen newyddion awr o hyd bresennol a gaiff ei darlledu bob nos, *The Nine*. Er nad yw'n amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol, mae'r BBC hefyd yn bwriadu cyflwyno podlediad materion cyfoes newydd sy'n canolbwyntio ar yr Alban a gwasanaeth newyddion ar-lein gwell gan BBC Scotland, er bod y BBC wedi dweud wrthym na fydd y cynnwys newydd yn cael ei lansio tan ddechrau 2025. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o gynlluniau ehangach y BBC i addasu ac i foderneiddio ei allbwn newyddion a materion cyfoes yn yr Alban er mwyn diwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd. Rydym yn disgwyl i'r BBC adolygu perfformiad newidiadau i sianel BBC Scotland ac amlinellu'n glir sut mae wedi cyflawni i gynulleidfaoedd yn yr Alban. Byddwn yn adolygu effaith gychwynnol y newidiadau hyn fel rhan o'n gwaith monitro dros y flwyddyn nesaf. Mae allbwn newyddion y BBC yn y gwledydd hefyd yn cael sylw o dan Ddiben Cyhoeddus 4 yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

Er bod y BBC yn ceisio moderneiddio ei allbwn newyddion a materion cyfoes a chyfuno timau gohebu mewn hybiau aml-lwyfan i wneud hyn, mae llawer o'i newidiadau i allbwn materion cyfoes rhwydwaith a gwledydd a rhanbarthau dros y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd mewnol. Bydd angen i'r BBC sicrhau ei fod, gyda'r newidiadau hyn, yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni materion cyfoes ymchwiliol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC ar hyn drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn gofyn iddo egluro sut mae newyddiaduraeth ymchwiliol o ansawdd uchel yn cael ei diogelu, gan roi sylw penodol i newidiadau arfaethedig i wasanaethau, i sicrhau ei bod yn cyflawni i gynulleidfaoedd.

## Darpariaeth radio ac ar-lein leol yn Lloegr

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i foderneiddio ei wasanaethau lleol drwy leihau gwariant ar ei wasanaethau darlledu, drwy rannu mwy o gynnwys ymhlith gorsafoedd radio lleol, er mwyn ailfuddsoddi mewn cynnwys ar-lein. Cafodd hyn gryn feirniadaeth gyhoeddus, ac rydym wedi ymrwymo i fonitro effaith y newidiadau ar y gynulleidfa. Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r newidiadau hyn ar waith a'n barn ar yr effaith ar y gynulleidfa.

### Mae'r BBC bellach wedi cyflwyno ei holl newidiadau i foderneiddio ei wasanaethau lleol yn Lloegr

Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr ar draws ei lwyfannau. Mae ganddo rwymedigaethau penodol i ddarparu newyddion a gwybodaeth ar gyfer rhanbarthau Lloegr ar-lein, ac sy'n berthnasol i ardal a chymunedau pob un o'i orsafoedd radio lleol. Fel y nodwyd yn Rhan 1 ein Hadolygiad o gyfryngau lleol yn y DU, mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn ecoleg y cyfryngau lleol, gan wneud cyfraniad pwysig at gynulleidfaoedd ac at y diwydiant.

[55] Byddwn yn ymgynghori ar y newid arfaethedig i'r Drwydded Weithredu ar ôl i'r BBC gyflwyno ei gais.

Cwblhaodd y BBC y gwaith o gyflwyno newidiadau i radio lleol ym mis Ionawr 2024 ac i'w wasanaethau lleol ar-lein ym mis Mehefin eleni. Erthyglau newyddion yn bennaf oedd y cynnwys ar-lein newydd a gyflwynwyd gyda bwletinau newyddion radio lleol yn aros yr un fath ac ar gael drwy gydol y dydd ar bob gorsaf (ynghyd â rhaglenni chwaraeon), gan adlewyrchu pwysigrwydd diogelu newyddion lleol yn allbwn y BBC.




Mae'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys lleol yn unol â gofynion ei Drwydded Weithredu ac mae wedi darparu enghreifftiau o'i allbwn yn ei adroddiadau ac mewn gwybodaeth a roddwyd i Ofcom mewn astudiaethau achos o orsafoedd radio lleol. Er enghraifft, chwaraeodd BBC Radio Merseyside ran ganolog yn narllediad y BBC o'r *Eurovision Song Contest* a gynhaliwyd yn Lerpwl ym mis Mai 2023, gan ddarparu sylwebaeth amgen gan ddoniau lleol mewn acen 'Scouse'.[56] Ar ben hynny, mae ymgyrch a gwobrau *Make a Difference* y BBC wedi rhoi cyfle i wrandawyr radio lleol gydnabod yn gyhoeddus unigolion sy'n cael effaith yn eu cymunedau lleol. Eleni, derbyniodd yr ymgyrch 14,000 o enwebiadau, cynnydd o 40% o un flwyddyn i'r llall.[57]

Rydym wedi monitro'r gwaith o gyflwyno'r newidiadau i radio lleol yn agos ac wedi cynnal dadansoddiad mewnol o ddata gwrando i asesu eu heffaith, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael hyd yma.[58] Yn ôl RAJAR, yn ystod y deuddeg mis hyd at chwarter cyntaf 2024, roedd radio lleol y BBC yn Lloegr wedi cyrraedd cyfartaledd o 5.1 miliwn o oedolion 15 oed a hŷn bob wythnos, i lawr o 5.2 miliwn yn yr un cyfnod yn 2022/23. Ers i'r BBC gwblhau'r broses o gyflwyno'r newidiadau ym mis Ionawr 2024, mae cyrhaeddiad y gorsafoedd hyn wedi parhau i ostwng, yn unol â'r duedd cyn y newidiadau. Nid yw'r gostyngiad yn niferoedd y gynulleidfa ar gyfer slotiau rhaglenni a rennir yn fwy na'r gostyngiad yng nghynulleidfa'r rhaglenni lleol a ddiogelir (rhwng 9am a 2pm yn ystod yr wythnos). Ond, fel oedd yn wir cyn y newidiadau, y slotiau rhaglenni a rennir yw'r rhai sy'n parhau i fod â'r niferoedd cynulleidfa is yn ystod y dydd.[59]

[56] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.91.
[57] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.87.
[58] Er mwyn sicrhau bod digon o samplau ar yr arolwg RAJAR, gall gorsafoedd llai ofyn am werth chwe neu hyd yn oed 12 mis o ddyddiaduron felly nid yw'r rhain i gyd ar gael ar hyn o bryd.
[59] RAJAR Ch3 2024.

Mae cyflwyno newidiadau i radio lleol wedi arwain at ychydig iawn o newid ym mhroffil cynulleidfa radio lleol y BBC yn Lloegr. Gwrandawyr hŷn dros 55 oed yw'r gynulleidfa graidd o hyd (55% o'r gynulleidfa gyffredinol), ac er mai cyfran fach o wrandawyr yw hyn, mae cynnydd bach wedi bod yn y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a gwrandawyr anabl ers 2019.[60] Gwyddom o ohebiaeth gan wrandawyr fod rhai gwrandawyr anabl, yn enwedig y rhai sydd yn ddall ac yn gweld yn rhannol, wedi cael eu siomi gan agweddau ar y newidiadau, yn cynnwys y rheini y tu hwnt i'n cylch gwaith fel penderfyniadau golygyddol, gan gynnwys newid cyflwynwyr. Mae'r BBC wedi rhoi gwybodaeth am gwynion sy'n dangos, yn unol â'n nifer gymharol fach, fod cwynion yn uwch pan gafodd y newidiadau eu cyhoeddi a'u bod wedi gostwng yn raddol ers cyflwyno'r rhaglenni a rennir.[61]

Mae newidiadau'r BBC i'w wasanaethau ar-lein lleol hefyd wedi cael eu cwblhau gan arwain at ddiweddaru darpariaeth newyddion ar-lein lleol ar gyfer 43 o wahanol ardaloedd yn Lloegr, gan gynnwys pedwar "mynegai" lleol newydd (is-ranbarthau) a lansiwyd yn Wear, Peterborough, Wolverhampton a Bradford, sydd i gyd ar gael ar wefan ac ap BBC News.[62] Y llynedd, dywedodd y BBC fod traffig ar-lein i straeon lleol y BBC wedi cynyddu dros un rhan o bump o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol[63] a bod nifer y straeon lleol ar-lein wedi cynyddu o 967 ym mis Mehefin 2023 i 1,675 o straeon newyddion ym mis Mawrth 2024.[64] Yn 2023/24, 14.8 miliwn oedd y traffig wythnosol cyfartalog i newyddion lleol y BBC ar-lein yn Lloegr.[65]

Roedd ein hymchwil yn dangos bod gan gynulleidfaoedd agwedd gadarnhaol ar y cyfan tuag at newidiadau i wasanaethau lleol y BBC yn Lloegr, a dim ond ychydig oedd yn ymwybodol o gynlluniau'r BBC i leihau cyllid ar gyfer radio lleol er mwyn buddsoddi mewn gwasanaethau ar-lein. Pan dynnwyd sylw at y newidiadau hyn, roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol gan eu bod yn ymddangos yn rhesymol o ystyried newidiadau cymdeithasol. Nodwn nad yw'r BBC wedi cwblhau adolygiad eto o effaith ei newidiadau ar grwpiau penodol o gynulleidfaoedd fel y mae wedi ymrwymo i'w wneud. Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ynghylch hyn ac yn disgwyl gweld ei adolygiad maes o law.

## Roedd ein hadolygiad o'r cyfryngau lleol yn pwysleisio'r rôl bwysig mae'r BBC yn ei chwarae yn y sector cyfryngau lleol

Y llynedd, fe wnaethom amlinellu ein cynllun i wneud gwaith i ddeall yn well y ddarpariaeth cyfryngau lleol yn y DU. Ym mis Gorffennaf eleni, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad interim a

---

[60] Yn Ch3 2019 roedd gwrandawyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 10% o gynulleidfaoedd gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr, ac roedd 13% yn wrandawyr anabl. Yn Ch3 2024 roedd y ffigurau hyn yn 13% ac 16% yn y drefn honno.

[61] Cyn cyflwyno'r newidiadau (mis Ebrill i fis Awst 2023), cafodd y BBC 595 o gwynion, ac yn ystod y cyflwyno (mis Medi i fis Rhagfyr 2023) cafodd y BBC 479 o gwynion. Ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith (Ionawr - Mawrth 2024), gostyngodd nifer y cwynion i 103.

[62] Mae'r BBC yn darparu newyddion ar-lein ar gyfer pob gwlad, gan gynnwys allbwn Gaeleg yr Alban a Chymraeg. Mae un ardal newyddion neu "mynegai" ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac mae newyddion ar-lein yn cael ei ddarparu ar gyfer chwe ardal mynegai yn yr Alban a phum ardal mynegai yng Nghymru. Mae Lloegr wedi'i rhannu'n naw rhanbarth, pob un wedi'i rannu'n ardaloedd llai o faint sy'n cynnwys cyfanswm o 46 mynegai; ee mae rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr yn cynnwys mynegeion ar gyfer Derby, Caerlŷr, Swydd Northampton a Nottingham.

[63] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes, 2023, t.92. ac Online traffic to BBC Local news stories in England increases by over a fifth, Hydref 2023.

[64] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.92.

[65] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.86.

oedd: yn rhoi cipolwg ar argaeledd cyfryngau lleol, yn enwedig newyddion lleol, ledled y DU; yn rhoi cipolwg ar sut mae pobl yn ei ddefnyddio, gan gynnwys canfyddiadau o'n hymchwil ansoddol newydd ymysg defnyddwyr i agweddau cynulleidfaoedd at gyfryngau lleol yn y DU; ac yn rhoi sylw i themâu allweddol trafodaethau â rhanddeiliaid. Nododd yr adroddiad fod cynnwys newyddion ar-lein lleol y BBC yn faes dadleuol, gyda rhai cyhoeddwyr rhanbarthol o'r farn bod y BBC yn dyblygu allbwn masnachol, er bod eraill yn teimlo bod y BBC yn cyfrannu at luosogrwydd y dirwedd newyddion lleol ac yn helpu i diwallu anghenion cynulleidfaoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud mwy a mwy ar-lein.

Mae ail ran ein hadolygiad yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn ac mae'n rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan y Llywodraeth yn ei Hadolygiad Canol Tymor. Dywedodd y dylem gyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sector newyddion lleol, a nod ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol ar gystadleuaeth. Mae ein hadroddiad terfynol hefyd yn edrych yn ehangach ar y dirwedd cyfryngau lleol yn y DU ac yn casglu safbwyntiau ar nifer o ffyrdd posibl y gellid cefnogi'r sector newyddion lleol, ar draws teledu, radio, print ac ar-lein. Yn fwy cyffredinol, gan fod modd gweld llawer o'r heriau sy'n effeithio ar y sector newyddion lleol hefyd yn y dirwedd newyddion ehangach, bydd adolygiad Ofcom o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ystyried llawer o'r materion rydym wedi tynnu sylw atynt yn ein hadolygiad o'r cyfryngau lleol.

# Comisiynu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'r BBC yn parhau i roi'r newidiadau ar waith a nodir yn ei gynlluniau 'Across the UK' (ATUK) ac mewn perthynas â'i gynlluniau i fuddsoddi mewn mwy o gynnwys effaith uchel unigryw. Mae'r adran hon yn ystyried effeithiau'r newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w ddull comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae gwaith dadansoddi pellach ar berfformiad y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'i nodi o dan Ddiben Cyhoeddus 4 yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

## Mae'r BBC yn parhau i weithredu ei gynlluniau Across the UK

Y llynedd, fe wnaethom nodi ein safbwyntiau cychwynnol ar yr effeithiau ar gynulleidfaoedd a'r economi greadigol o ganlyniad i gynlluniau ATUK[66] ac fe wnaethom ymrwymo i fonitro hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gan y BBC ofynion gwariant ac allbwn rhwydwaith teledu ar gyfer pob gwlad ac mae hefyd wedi gwneud ymrwymiadau gwariant yn ei gynlluniau ATUK. Er gwaethaf heriau ariannol ehangach, dyrannodd 60% o'i wariant cymwys ar deledu rhwydwaith y tu allan i Lundain (cynnydd o 54% yn 2021 a 58% yn 2022)[67], ac mae'n dweud ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei darged ATUK o "dros 60% yn gynaliadwy erbyn 2026".[68] Dywedodd hefyd ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged

[66] Lansiwyd cynllun Across the UK y BBC yn 2021 ac mae'n bwriadu symud cyfran fwy o'i weithgareddau creadigol a newyddiadurol o Lundain rhwng 2021/22 a 2027/28. Nod y cynllun yw cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant yn ogystal â gwella cynrychiolaeth a phortreadu ar y sgrin/radio yn ogystal â chynhyrchu.
[67] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC
[68] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.22.

radio a cherddoriaeth o 50% erbyn 2027/28, sy'n 44% ar hyn o bryd.[69] Rydym wedi adolygu dosbarthiad y cynnydd mewn gwariant o un flwyddyn i'r llall ac, yn wahanol i 2022, a gafodd ei sbarduno'n bennaf gan wariant yn rhanbarthau Lloegr, yn 2023 roedd cynnydd bach yng nghyfran y gwariant ym mhob gwlad.[70]

Yn unol â'r newidiadau mewn gwariant, mae'r BBC wedi parhau i symud cynyrchiadau a swyddi y tu allan i Lundain. Mae wedi symud nifer o raglenni radio rhwydwaith i Gaerdydd, Glasgow a Belfast, yn ogystal ag ehangu canolfan cerddoriaeth glasurol BBC Radio 3 yn Salford dros y flwyddyn ddiwethaf.[71] Mae wedi parhau i greu partneriaethau a chanolbwyntio ar gynhyrchu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr. Er enghraifft, mae wedi dechrau gweithredu cynlluniau i adleoli'r gwaith o gynhyrchu *Masterchef* a *Silent Witness* i Birmingham a chefnogi tri chynhyrchydd dan hyfforddiant i weithio ar *Charlotte in Sunderland*. Mae hefyd yn parhau i weithio ar ailgydbwyso penderfyniadau comisiynu rhwydwaith ledled y DU drwy gynyddu nifer y comisiynwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, gyda 41 yn 2023/24,[72] cynnydd o 30 yn 2022/23 a 24 yn 2021/22.

Rydym yn olrhain nifer o fetrigau cynulleidfaoedd drwy gydol y flwyddyn gan eu bod yn rhan bwysig o asesu perfformiad y BBC. Gan fod y BBC yn esblygu'n barhaus ac yn gwneud newidiadau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well, nid yw bob amser yn hawdd priodoli newidiadau mewn agweddau cynulleidfaoedd i fenter benodol y BBC fel rhain. Gallant hefyd gymryd amser i gyfrannu er mwyn cael effaith ar farn y gynulleidfa. Serch hynny, rydym wedi bod yn monitro hyn ac wedi gweld bod ffigurau agwedd cynulleidfaoedd wedi aros yn sefydlog; mae hyn yn cael ei drafod ymhellach yn Adran 3 o dan Ddiben Cyhoeddus 4.



Cyhoeddodd y BBC ddau adroddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn nodi bod ei fuddsoddiad y tu allan i Lundain wedi cael effaith gadarnhaol ar yr economi greadigol. Yn gyntaf, cyhoeddodd adroddiad ar gyfraniad economaidd Cyfresi 1 i 13 y cynhyrchiad *Doctor Who* yng Nghaerdydd. Amcangyfrifodd y BBC ei fod, ers 2005, wedi cynhyrchu dros £134m o werth ychwanegol gros yng Nghymru ac wedi cyfrannu at gyflogi tua 170 o rolau criw fesul cyfres, gyda 67% wedi'u lleoli yng Nghymru. Cyhoeddodd adroddiad economaidd hefyd ar ei Uned Hanes Naturiol ym Mryste.

[69] BBC Commissioning Supply Report 2023/24, t.22.
[70] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[71]BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.83-84.
[72] BBC Commissioning Supply Report 2023/2024, t.22.

Eglurodd fod yr uned wedi bod o fudd i ddatblygu'r gweithlu a doniau yn rhanbarth Bryste, yn ogystal â denu buddsoddiad rhyngwladol a chael ei chydnabod yn fyd-eang fel y canolbwynt ar gyfer cynhyrchu hanes naturiol.

Roedd adroddiad arall a gyhoeddwyd gan Sefydliad Economeg Llafur IZA ym mis Medi 2024 yn dweud bod adleoli'r BBC yn rhannol o Lundain i Salford yn 2011 wedi cael effaith gadarnhaol ar swyddi creadigol yn y rhanbarth, gyda phob un o swyddi'r BBC yn creu 0.55 o swyddi ychwanegol, ar gyfartaledd, yn y diwydiannau creadigol erbyn 2017. Mae'r BBC hefyd yn gwneud cynnydd o ran meithrin ffocws cynhyrchu yng Ngogledd Ddwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr ac mae wedi dechrau adeiladu ei bencadlys newydd yn Birmingham. Mae'n dweud y bydd hyn yn gatalydd ar gyfer adfywio ehangach yn Digbeth, ac y bydd yn cefnogi adleoli prif elfennau rhaglenni fel *Masterchef*.[73] [74]Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y BBC adroddiad yn rhagweld y bydd ei ymrwymiad i Orllewin Canolbarth Lloegr yn cynhyrchu £282m mewn gwerth gros a fydd yn cael ei ychwanegu at y rhanbarth erbyn 2031.

## Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys effaith uchel i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'r BBC yn parhau i weithredu ei strategaeth effaith uchel, sydd ar gyfer y gwledydd yn cynnwys lleihau rhaglenni ar wasanaethau optio allan[75] i ariannu comisiynu llai o raglenni mwy o faint, mwy uchelgeisiol ac effaith uchel sydd, yn ei farn ef, ag ymdeimlad cryf o ardal leol ond sydd hefyd â mwy o apêl y tu hwnt i'r wlad neu'r rhanbarth a'u comisiynodd. Er enghraifft, mae'r rhaglen *Blue Lights* wedi gweld llwyddiant ar draws y rhwydwaith ac yn ei sylfaen gynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon – roedd yn un o'r 10 cyfres ddrama newydd orau yn 2023 ar draws yr holl ddarlledwyr a ffrydwyr a dyma oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf ar deledu yng Ngogledd Iwerddon, ar draws pob sianel a phob genre yn 2023.[76]

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys darparu cynnwys effaith uchel drwy gyd-gomisiynu rhwng ei rwydwaith ar draws y DU a thimau sy'n benodol i'r gwledydd. Eleni, roedd hyn yn cynnwys 48 o gyd-gomisiynau (18 yng Nghymru, 19 yn yr Alban ac 11 yng Ngogledd Iwerddon) ac ymhlith y teitlau roedd *Highland Cops, Paranormal* a *Once Upon a Time in Northern Ireland*.[77]

Y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon cynhyrchwyr y gallai mwy o wariant ar gyd-gomisiynu effeithio, o ran genre, ar ledaeniad comisiynau a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[78] Yn fwy diweddar, mae rhanddeiliaid yn y gwledydd wedi cwestiynu a yw'r broses o wneud penderfyniadau wedi'i chydbwyso'n ddigonol rhwng y rhwydwaith a thimau'r gwledydd ac wedi cwestiynu'r gwariant a ddyrennir ar draws y gwledydd.

O ran cyfran y comisiynau yn ôl genre, rydym wedi canfod bod buddsoddiad, fel yn 2022, wedi cael ei wasgaru'n dda ar draws genres o safbwynt oriau a gwariant. Mae comisiynwyr rhwydwaith y BBC wedi dweud wrthym eu bod yn ymdrechu i sicrhau cynrychiolaeth a phortreadu cadarnhaol sy'n

---

[73] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.23.
[74] Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.41.
[75] Gwasanaeth optio allan yw amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).
[76] BARB.
[77] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.26-30.
[78] Ofcom, Adroddiad Blynyddol ar y BBC 2022/23, t.17.

apelio at gynulleidfaoedd ledled y DU gyda chyfuniad o ddulliau cynnwys, gan gynnwys straeon cyffredinol wedi'u lleoli'n amlwg mewn lleoliad penodol, fel *Shetland*, a straeon penodol sy'n unigryw i ardaloedd penodol, fel *Sherwood*. Maent hefyd wedi egluro'r broses gyd-gomisiynu gyda'r gwledydd, gan gynnwys sut maent yn cysoni cyfleoedd datblygu ac yn cymeradwyo comisiynau ar y cyd. Mae rhanddeiliaid yn y gwledydd hefyd wedi dweud wrthym y gall cyd-gomisiynu fod yn gam defnyddiol at ragor o gomisiynau rhwydwaith. Rydym yn parhau i fonitro gwariant yn y gwledydd ac yn nodi, gan fod hyd cylchoedd comisiynu yn aml yn fwy na 12 mis, mae gwariant yn debygol o amrywio. Felly, mae angen ystyried tueddiadau dros gyfnod hirach cyn dod i unrhyw gasgliadau pendant.

## Mae diweddariadau cynnydd yn bwysig, yn ogystal â sicrhau bod pob gwlad yn y DU yn parhau i elwa o'r cynlluniau hyn

Mae'n ymddangos bod cynlluniau'r BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'i ymrwymiadau ac rydym yn croesawu'r wybodaeth mae wedi'i chyhoeddi am ei allbwn a'i ymgysylltiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi holi pam bod y BBC wedi ymrwymo i 15 yn llai o oriau o gynnwys effaith uchel yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond i gynnydd yn rhanbarthau Lloegr yn ei Gynllun Blynyddol 2024/25.[79] Er ein bod yn credu mai dim ond un rhan o'r darlun yw'r oriau allbwn, ac yn deall y bydd yr oriau'n amrywio ar sail syniadau creadigol, rydym yn disgwyl i'r BBC sicrhau bod pob gwlad yn parhau i elwa o'i gynlluniau. Byddwn yn cysylltu â'r BBC i ddeall yn well sut mae'n gwerthuso effaith ei newidiadau ac yn addasu ei gynlluniau os oes angen er mwyn darparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd.


Mae'r BBC hefyd yn parhau i ddarparu rhagor o wybodaeth am ei ddull comisiynu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei adroddiad blynyddol ar y cyflenwad comisiynu. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym ni a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y llynedd, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Ebrill, rydym yn credu y gallai'r BBC wella'r gwaith o olrhain a mesur ei gynlluniau a darparu gwerthusiad cliriach o'i effaith ar gynulleidfaoedd.

[79] BBC, Cynllun Blynyddol 2024/25, t.77-78.

# 3. Perfformiad o ran y Dibenion Cyhoeddus

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein hasesiad o berfformiad y BBC o dan y Dibenion Cyhoeddus o ran y Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'r Fframwaith yn nodi ein dull o fonitro ac asesu perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus a chyflawni ei Genhadaeth. Y pedwar mesur perfformiad sy'n ffurfio'r Fframwaith yw Argaeledd, Defnydd, Effaith a Ffactorau Cyd-destunol.

Yn Atodiad 2 rydym yn rhoi crynodeb o'r ffynonellau data rydym wedi eu defnyddio ar gyfer pob mesur perfformiad yn asesiad a chanllawiau eleni ar sut mae cael gafael ar y data hwn a'i ddefnyddio yn ein hadroddiad rhyngweithiol.




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Barb (cyrhaeddiad wythnosol o 3+ munud); Arolygon Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Oedolion a Phobl Ifanc yn eu Harddegau 2024; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; data Ipsos Iris (wedi newid o ddata Compass yn 2022/23); Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24; BBC DoMaPP; DS: Meta = Facebook + Instagram + Threads + WhatsApp, a Google = Google News + Google + YouTube.

**Crynodeb PP1**

- Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd, a BBC One yw'r un ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio fwyaf yn gyffredinol ac mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r rôl mae'r BBC yn ei chwarae yn y ddarpariaeth newyddion.
- Roedd canfyddiadau am ddidueddrwydd wedi disgyn eleni, o ganlyniad i nifer o ffactorau ac nid yw llawer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC. Mae wedi parhau i weithredu ei argymhellion didueddrwydd yn dilyn adolygiad Serota.
- Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r BBC News Channel wedi aros yn gyson â'r rheini cyn gwneud y newidiadau, ond mae'r cyrhaeddiad wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall gyda'r nifer sy'n cael gafael ar newyddion ar deledu sy'n cael ei ddarlledu yn gostwng yn gyffredinol wrth gymharu â chael gafael ar newyddion ar-lein.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion egnïol a gwybodus.**

Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi cyflawni yng nghyswllt ei rwymedigaeth o ran Diben Cyhoeddus 1 (PP1). Rydym yn amlinellu datblygiadau diweddar ac yna'n rhoi trosolwg lefel uchel o berfformiad y BBC yn ei holl wasanaethau, gan gynnwys safbwyntiau cynulleidfaoedd.

## PP1 eleni: Prif uchafbwyntiau a datblygiadau ar gyfer 2023/24

Fel y nodir yn Adran 2, ym mis Mai 2023 lansiwyd BBC Verify, sy'n ceisio meithrin ymddiriedaeth cynulleidfaoedd i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy wella tryloywder ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC yn gwirio ffynonellau newyddion. Ymhlith y datblygiadau eraill roedd ailddylunio ap BBC News ac ychwanegu rheiliau newyddion newydd ar BBC iPlayer gyda chynnwys wedi'i guradu gan dîm newyddion y BBC er mwyn ei gwneud hi'n haws darganfod newyddion a materion cyfoes.

## Rydym yn ymrwymedig i fonitro'r BBC News Channel

**BBC News Channel**

Y llynedd, gwnaethom archwilio effaith newidiadau i'r BBC News Channel (cyfuno News a World News yn un sianel). Ni ddaeth ein dadansoddiad cychwynnol o hyd i effaith sylweddol ar gynulleidfaoedd dyddiol cyfartalog.

Yn yr ail flwyddyn yn dilyn y newid hwn, mae arolwg diweddar o wylwyr y sianel yn y DU a gynhaliwyd gan y BBC yn dangos bod canfyddiadau'n dal yn gadarnhaol.[80] Mae mwyafrif o'r gwylwyr

[80] Adolygiad o gynulleidfaoedd y BBC News Channel yn y DU (mewnol), Ebrill 2024. Rhoddodd 'canfyddiadau gwylwyr sianel BBC News yn ystod y tri mis diwethaf' (% heb gynnwys atebion 'ddim yn gwybod') sgôr gyffredinol a ph'un a yw'r sianel yn well, yr un fath, neu'n waeth.

yn ystod chwarter cyntaf 2024 wedi rhoi sgôr gyffredinol uchel i'r sianel, gyda chyfran fawr yn dweud bod cynnig y BBC News Channel wedi aros yr un fath.[81] Er bod lefelau gwylio newyddion ar sianeli teledu a ddarlledir yn gostwng yn gyffredinol o gymharu â chael gafael ar newyddion ar-lein, roedd y gostyngiad o un flwyddyn i'r llall ar gyfer y BBC News Channel yn fwy (23%) na'r gostyngiad cyffredinol mewn newyddion teledu (9%). Fel y trafodir yn Adran 2, mae'r gostyngiad hwn yn fwy cyffredin ymysg cynulleidfaoedd iau. [82]

Mae'r BBC News Channel bellach yn rhan o'r tudalennau byw ar wefan newyddion y BBC, ap BBC News a BBC iPlayer. Gallwn weld bod y BBC yn buddsoddi yn ei ddarpariaeth newyddion ar-lein, a byddwn yn edrych ar yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu newyddion o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sydd ar y gweill.

## Mae'r BBC yn dal yn ffynhonnell newyddion bwysig mewn sector sy'n newid

Fel y trafodwyd, mae'r ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion yn adlewyrchu newidiadau ehangach yn y sector oddi wrth lwyfannau traddodiadol, fel papurau newydd print a theledu, tuag at ffynonellau ar-lein. Fodd bynnag, mae'r BBC yn dal yn ffynhonnell newyddion bwysig, gydag ychydig dros ddwy ran o dair (68%) o oedolion yn defnyddio o leiaf un o wasanaethau'r BBC ar gyfer newyddion, er bod y ffigur hwn yn is na'r llynedd (73%).[83] Er gwaethaf y tueddiadau, BBC One yw'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf yn gyffredinol o hyd, gydag ychydig dros ddau o bob pump o oedolion (43%) yn dweud eu bod yn defnyddio'r sianel, o gymharu â 49% y flwyddyn flaenorol. Cyrhaeddodd BBC News Online tua thraean (32%) o oedolion y DU ar gyfartaledd bob wythnos yn 2023/24, sy'n dal yn gyson â blynyddoedd blaenorol.[84]



Y BBC yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion i blant ac mae ganddo'r cyrhaeddiad cyffredinol uchaf ymysg plant 12–15 oed gyda thros draean (36%) yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio i ddilyn newyddion.[85] Mae bron i draean (32%) o blant 3-16 oed yn dweud eu bod yn gwylio *Newsround* ar CBBC neu ar BBC iPlayer o leiaf unwaith yr wythnos, ac mae un o bob 10 (8%) yn

[81] Dadansoddiad y BBC: Arolwg 5minex GfK Pulse, Mawrth 2024.
[82] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig. Oedolion 16 oed a hŷn.
[83] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Ffigur darpariaeth newyddion manwerthu.
[84] Data'r BBC: Compass gan Ipsos.
[85] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2024.

dweud yr un peth am wefan *Newsround*. Plant 8-11 oed yw'r mwyaf tebygol o ddefnyddio'r ddau (41% ac 13% yn y drefn honno). Ymysg plant 8–16 oed sy'n defnyddio gwefan *Newsround* neu sy'n gwylio'r bwletin ar CBBC neu BBC iPlayer, dywedodd 71% fod y ffynhonnell yn ddefnyddiol.[86]

## Teledu'r BBC a BBC iPlayer

Gwnaeth allbwn newyddion a materion cyfoes cyffredinol y rhwydwaith aros yn sefydlog yn 2023. Cynyddodd yr allbwn newyddion 305 awr ond cafodd hyn ei wrthbwyso fymryn gan leihad o 228 awr yn yr allbwn materion cyfoes.[87] Gwnaeth gwariant y BBC ar raglenni teledu rhwydwaith newyddion a materion cyfoes leihau 4% mewn termau nominal yn 2023 ac, fel y nodir yn Adran 2, rydym yn disgwyl y caiff rhagor o arbedion eu gwneud dros y flwyddyn nesaf wrth i'r BBC geisio trawsnewid ei weithrediadau newyddion.

Mae lefelau gwylio newyddion a materion cyfoes ar sianeli teledu a ddarlledir y BBC wedi parhau i ostwng dros amser. Gwnaeth cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog newyddion ar sianeli teledu'r BBC leihau o 52% o oedolion yn 2022 i 46% yn 2023[88] ac, er bod cyfran yr oedolion sy'n gwylio rhaglenni materion cyfoes ar sianeli teledu a ddarlledir y BBC yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall yn 2023 (11% o oedolion ar gyfartaledd bob wythnos), mae wedi gostwng o 20% yn 2019.[89] Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu tueddiadau ehangach yn y sector; er enghraifft, ar y cyfan, mae cyrhaeddiad wythnosol newyddion ar sianeli teledu a ddarlledir gan bob darparwr wedi parhau i leihau, o 61% o oedolion yn 2022 i 55% yn 2023.[90] Fodd bynnag, fel y trafodir yn Adran 2, gwnaeth y BBC newidiadau i'r BBC iPlayer er mwyn gwneud ei newyddion yn fwy amlwg ac mae lefelau gwylio newyddion ar BBC iPlayer ar gyfartaledd yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall.[91] Yn ôl data cyfrifon y BBC, gall *BBC Breakfast a Panorama* ymddangos yn y rhaglenni uchaf sy'n denu llai o wylwyr mynych BBC iPlayer yn ôl i BBC iPlayer, ymysg cynulleidfaoedd yn gyffredinol ac ymysg pobl 16-34 oed.[92]

## BBC Radio a BBC Sounds

Mae gwasanaethau radio'r BBC yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ar gyfer gwrando ar y newyddion diweddaraf. Mae BBC Radio 2, BBC Radio 4 a BBC Radio 1 ymysg y gorsafoedd y gwrandewir arnynt fwyaf yn y DU a nhw yw'r gorsafoedd radio a ddefnyddir fwyaf ar gyfer newyddion o hyd,[93] gyda bwletinau newyddion rheolaidd ac allbwn newyddion a materion cyfoes arall â ffocws penodol. Rhaglen *Today* BBC Radio 4 sydd â'r cyrhaeddiad uchaf o blith holl raglenni newyddion/materion cyfoes penodol gorsafoedd radio'r BBC, gyda chyfartaledd o 5.7m o oedolion yn gwrando bob wythnos yn ystod 2023/24**.**[94] Yn ei Adroddiad Blynyddol mae'r BBC yn dweud y

[86] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.
[87] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[88] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, oedolion 16 oed a hŷn. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol. Genre: newyddion cenedlaethol/rhyngwladol.
[89] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig, oedolion 16 oed a hŷn. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol.
[90] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, oedolion 16+ oed. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol.
[91] Barb fel y gwyliwyd, oedolion 16 oed a hŷn, pob genre newyddion.
[92] Data a roddwyd gan y BBC- data chwarterol ar ysgogiadau cyfrif BBC iPlayer; gelwir y rhain yn 'ysgogiadau' – cyfrifon y BBC nad ydynt wedi defnyddio BBC iPlayer yn ystod y 13 wythnos flaenorol.
[93] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[94] RAJAR Ch1 2024, pwysoliad 12 mis, gan gynnwys rhifynnau dydd Llun i ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

bydd newidiadau arfaethedig i amserlen BBC Radio 4 yn golygu y rhoddir blaenoriaeth i newyddion a materion cyfoes, gydag estyniadau arfaethedig i ddwy o'i raglenni.[95]

Mae un o bob pump (22%) o oedolion yn y DU sy'n defnyddio'r radio ar gyfer newyddion bellach yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Sounds ar gyfer newyddion.[96] Mae *The News Quiz* ar BBC Radio 4 yn ymddangos yn rheolaidd yn rhestr 10 uchaf rhaglenni radio ar-alw y BBC bob chwarter, ac mae *Newscast* yn dal yn bodlediad poblogaidd, gan gynnwys ymysg pobl o dan 35 oed.[97] Mae rhaglen *Jeremy Vine* ar BBC Radio 2 a rhaglen *Today* ar BBC Radio 4 hefyd yn denu defnyddwyr llai mynych ar BBC Sounds yn ôl at BBC Sounds yn rheolaidd, yn ôl data'r BBC.[98]

### Dolenni digonol

Rhaid i'r BBC ddarparu "digon o ddolenni" i ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon ar ei dudalennau ar-lein ac adrodd ar hynny.[99] Dechreuodd y BBC gyhoeddi data ar hyn y llynedd ac rydym yn casglu gwybodaeth ychwanegol gan y BBC fel rhan o'n cais cydymffurfio blynyddol. Eleni, dadansoddodd y BBC sampl o 1,324 o straeon ar BBC News a BBC Sport ar-lein dros bedwar diwrnod ym mis Ionawr a mis Mawrth 2024. O'r rhain, roedd 79% yn cynnwys dolenni i dudalennau allanol, gyda 27% ohonynt yn cynnwys dolenni i sefydliadau cyfryngau eraill a 44% i gyrff y llywodraeth a chyrff rheoleiddio.[100] Er bod hyn yn gynnydd yn nifer y straeon a oedd yn cynnwys dolenni o gymharu â sampl y llynedd (46%), bydd nifer a math y dolenni yn seiliedig ar yr agenda newyddion ar adeg y gwaith samplo, felly nid yw'n briodol dod i unrhyw gasgliadau pendant.

## Mae hyder yn ansawdd allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC yn dal yn uchel

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae cynulleidfaoedd yn dal yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â darpariaeth gyffredinol y BBC o ran newyddion a materion cyfoes.[101] Rhoddir sgôr gymharol dda iddo ar gyfer gwahanol wasanaethau o ran *fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw*; mae mwy na saith o bob 10 o ddefnyddwyr rheolaidd yn dweud hyn ar gyfer sianeli teledu'r BBC (76%) a deunydd ar-lein y BBC (72%), ac mae tua dwy ran o dair yn dweud yr un peth ar gyfer BBC iPlayer (65%), BBC Sounds (68%) a gorsafoedd radio'r BBC (66%).[102] O gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr masnachol eraill, mae'r BBC yn perfformio'n gymharol dda o ran hyn a nodweddion eraill.[103] Ymysg plant a rhieni, mae tua thri o bob pump (55%) yn cytuno bod *newyddion a gwybodaeth gan y BBC yn [fy helpu i/yn helpu fy mhlentyn] i ddeall beth sy'n digwydd*


[95] BBC, Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25, t.57. Caiff *The Media Show* ei hymestyn o 30 munud i awr a chaiff rhaglen newyddion ymchwiliol Radio 4 – *File on 4* – ei hymestyn i 42 munud.
[96] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[97] Data chwarterol BBC Sounds.
[98] Data a ddarparwyd gan y BBC- data chwarterol gweithredu cyfrifon BBC Sounds.
[99] Paragraff 3, Atodlen 2 i'r Cytundeb: Rhaid i Ofcom osod ar y BBC y gofynion y mae Ofcom yn credu sy'n briodol i sicrhau bod digon o ddolenni o BBC Ar-lein sy'n arwain at ddeunyddiau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon.
[100] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.20.
[101] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[102] Nid yw hyn yn cynnwys Radio 4 a Radio 5, sy'n cael eu mesur ar wahân ac sy'n cael sgôr o 79% a 70% yn y drefn honno.
[103] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

*yn y DU a'r byd.*[104] Mae rhagor o wybodaeth am y gosodiadau hyn, gan gynnwys yn ôl grwpiau demograffig, i'w gweld yn ein [hadroddiad perfformiad rhyngweithiol]() cysylltiedig.

## Gwnaeth lefelau canfyddiad o ddidueddrwydd ostwng eleni, wrth i wahaniaethau demograffig barhau

Mae newyddion dibynadwy a chywir yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd yn gyson, fel un o elfennau pwysicaf y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[105] Mae didueddrwydd yn dal yn agwedd bwysig ar berfformiad y BBC, ac rydym yn parhau i fonitro canfyddiadau cynulleidfaoedd o hynny. Caiff hyn ei sbarduno gan nifer o ffactorau, gan gynnwys llawer nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, ac felly mae newid canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC yn broses gymhleth. Mae'n dal i gael ei weld yn llai ffafriol o gymharu â dibynadwyedd a chywirdeb o hyd. Ymysg defnyddwyr rheolaidd, mae 57% yn rhoi sgôr uchel i sianeli teledu'r BBC am ddidueddrwydd, sy'n llai na'r llynedd, ac mae defnyddwyr ITV News yn rhoi 62% i ITV am ddidueddrwydd, a 64% o ddefnyddwyr rheolaidd Sky yn ei sgorio'n uchel. Fodd bynnag, gan ystyried cyfran gwahanol ddarlledwyr o'r gynulleidfa deledu gyfan, mae sianeli teledu'r BBC yn cyrraedd cynulleidfa lawer ehangach, ac felly mae 41% o'r holl gynulleidfaoedd teledu yn rhoi sgôr uchel i sianeli teledu'r BBC am ddidueddrwydd, o gymharu â 24% ar gyfer ITV ac 16% ar gyfer Sky.[106]

**Ffigur 1: Siart yn dangos canfyddiadau o ddidueddrwydd newyddion a ddarlledir ar y teledu ymysg defnyddwyr rheolaidd y sianeli a'r holl oedolion sy'n defnyddio'r teledu i gael newyddion**




[104] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24. Rhieni sy'n ateb ar ran plant 3-7 oed, ac mae plant 8-16 oed yn ateb yn uniongyrchol.

[105] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023; mae 49% yn dewis 'newyddion dibynadwy a chywir ar gyfer y DU' ymysg eu tair elfen bwysicaf y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu i gymdeithas yn gyffredinol. Sylfaen: pob ymatebydd ac eithrio'r rhai a gwblhaodd yr arolwg dros y ffôn.

[106] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024; Cwestiwn: D2a. Gan feddwl yn benodol am y teledu, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? E3. Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <BRAND> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10; Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffynhonnell newyddion o leiaf unwaith yr wythnos: Teledu'r BBC = 2961, ITV =1782, Sianel Sky News = 1014 a Phob un sy'n defnyddio teledu (darlledu neur BVoD) i gael newyddion = 4010. NODER: Dim ond defnyddwyr rheolaidd y gofynnwyd iddynt am ddatganiadau priodoli (sy'n cael eu diffinio fel rhai sy'n defnyddio o leiaf unwaith yr wythnos); ni ofynnwyd i ddefnyddwyr llai aml na'r rheini nad ydynt yn ddefnyddwyr roi sgôr i'r datganiadau hyn

Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, rhoddodd cyfran is o bobl o gynulleidfaoedd DE (50%) sgôr uchel i'r BBC am ddarparu *newyddion a materion cyfoes sy'n ddiduedd*, o gymharu â 56% ar gyfer oedolion yn gyffredinol.[107]

Y llynedd, gwnaethom ddweud ei bod yn rhaid i'r BBC barhau i herio ei hun a gofyn cwestiynau anodd iddo'i hun wrth iddo roi ei argymhellion o ran didueddrwydd ar waith.[108] Mae'r BBC wedi parhau i wneud hyn ac wedi sefydlu fframwaith monitro newydd er mwyn i'w Bwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol allu goruchwylio cynnydd, cerrig milltir sydd i ddod a chanlyniadau ei Adolygiad Serota a'i Gynllun Didueddrwydd.[109] Mae hefyd wedi cyhoeddi ei ail adolygiad thematig annibynnol, sy'n canolbwyntio ar y sylw a roddir i ymfudo, ac mae'n cyflwyno'r argymhellion dros 2024/2025.[110] Ym mis Mai, cyhoeddodd y BBC ei drydydd adolygiad thematig, a fydd yn ystyried pa mor gywir a dilys mae'r BBC yn portreadu ac yn cynrychioli gwahanol grwpiau a chymunedau ar draws y DU.[111] Gwnaeth nifer y cwynion a gafodd Ofcom ynglŷn â didueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC gynyddu o 918 o gwynion y llynedd i 1,785 o gwynion yn ystod 2023/24, a hynny wedi'i sbarduno'n rhannol gan wrthdaro Israel-Gaza, er na ddaeth asesiadau i'r casgliad bod yr un gŵyn yn codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad. Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC o ran didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## Rydym yn croesawu newidiadau y mae'r BBC wedi'u gwneud i'w wasanaethau ar-lein er mwyn ei gwneud hi'n haws darganfod newyddion a materion cyfoes

Mae'r BBC wedi esbonio yn ei DoPaPP sut mae wedi ei gwneud hi'n haws darganfod ei allbwn newyddion a materion cyfoes ar ei wasanaethau ar-lein yn unol ag amodau ei drwydded. Er enghraifft, ar BBC iPlayer, caiff y rheilen 'New and Trending' sy'n ymddangos ar yr hafan ei defnyddio i arddangos rhaglenni newyddion byw, bwletinau newyddion a rhaglenni materion cyfoes fel *BBC Breakfast*, *Sunday with Laura Kuenssberg* a *Panorama*. Mae hefyd wedi cyflwyno rheilen 'News' newydd sydd wedi'i churadu'n olygyddol a gellir darganfod newyddion lleol ar reilen 'Local News' hefyd. Ar BBC Sounds, daw cynulleidfaoedd i gysylltiad â newyddion a materion cyfoes drwy'r rheilen 'Latest News Playlist' a thrwy'r rheilen 'Local to me'. Lansiwyd ap BBC News wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2023 a oedd yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i newyddion lleol ar sail codau post defnyddwyr. Mae'r dudalen 'My News' hefyd yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd ddilyn

[107] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[108] Dywedodd y BBC yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2/23 ei fod wedi rhoi holl argymhellion Adolygiad Serota a'r holl amcanion yn ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol ar waith.
[109] E-bost gan y BBC i Ofcom ar 3 Hydref 2024.
[110] BBC, Independent Thematic Review of the Impartiality of BBC Content on Migration, 2024.
[111] BBC, Thematic Review of Portrayal and Representation Terms of Reference, Mai 2024

nifer o bynciau lleol, ac mae gwledydd y DU mewn lle amlwg yn y rhestr o bynciau a awgrymir sy’n ei gwneud hi’n hawdd dod o hyd i gynnwys lleol.[112] Mae sicrhau ei bod hi’n haws darganfod ei gynnwys newyddion a materion cyfoes yn rhywbeth y mae’r BBC wedi rhoi ffocws clir arno dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn ymgysylltu â’r BBC er mwyn deall ymhellach sut mae cynulleidfaoedd yn ymateb i ddatblygiadau gwasanaeth a sut mae’r rhain yn effeithio ar eu lefelau gwylio a gwrando.

## Cydymffurfio ag amodau’r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â’n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Eleni, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan PP1. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â’r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

[112] BBC, Delivering Our Mission and Public Purposes 2023/24, t.19.

# DIBEN CYHOEDDUS 2

## Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oedran

### DYSGU FFURFIOL I BLANT

**Cyrhaeddiad wythnosol Bitesize a BBC Teach**

BBC BITESIZE
**1.5m** o ymwelwyr
= 1.5m yn 2022/23

BBC TEACH
**145k** o ymwelwyr
▲ 130k yn 2022/23

**Sgoriau BBC Bitesize**


Dywed **88%** o'r defnyddwyr, 4-16 oed:

'Mae BBC Bitesize yn ddefnyddiol'

Mae **66%** o rieni plant dan 16 oed yn canmol y BBC am gefnogi plant iau gyda'u dysgu


Mae **57%** o rieni yn canmol y BBC am gefnogi plant yn eu harddegau gyda'u dysgu

**Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol CBeebies a CBBC**




### DYSGU ANFFURFIOL I OEDOLION

**Maint y cynnwys dysgu anffurfiol sy'n cael ei wylio bob mis ar gyfartaledd gan oedolion ar sianeli'r BBC**




**Graddau cadarnhaol am gynnwys dysgu'r BBC ymysg oedolion y DU**

Rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd

61% CADARNHAOL

Ymdrin â materion a syniadau efallai nad yw pobl wedi dod ar eu traws o'r blaen

53% CADARNHAOL

Ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd

50% CADARNHAOL

**Partneriaethau** **445 o bartneriaethau** ▼ 502 yn 2022/23

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (3+ munud o gyrhaeddiad wythnosol); data a ddarparwyd gan y BBC- Piano Analytics; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24; Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.

**Crynodeb PP2**

- Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr dda i'r BBC am gyflawni Diben Cyhoeddus 2 (PP2) ar gyfer plant ac oedolion.
- Er bod y ffaith bod gwasanaethau ar-lein ac addysgol ar gael yn eang yn cyflwyno heriau cynyddol i'r BBC o ran cyrraedd cynulleidfaoedd iau, mae ei gynnwys dysgu ffurfiol ar BBC Bitesize a'i wasanaeth i athrawon yn dal i gael eu defnyddio'n helaeth.
- Eleni, rydym wedi gweld llwyddiant o ran rhoi strategaeth animeiddio'r BBC ar waith, gyda lefel y cynnwys wedi'i animeiddio a'r nifer sy'n ei wylio yn cynyddu.

**Mae'r *Siarter Frenhinol* yn datgan: Dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.**

## PP2 eleni: Prif uchafbwyntiau a datblygiadau ar gyfer 2023/24

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad o £6m yn BBC Bitesize gan ddefnyddio technoleg newydd i wneud cynnwys dysgu yn fwy personol a pherthnasol i gynulleidfaoedd iau. Gwnaeth hefyd gyflwyno'r ap Little Learners, sef cydweithrediad rhwng CBeebies a BBC Bitesize sy'n darparu gemau sy'n seiliedig ar gwricwlwm Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar er mwyn cyrraedd mwy o blant. Ar gyfer oedolion, mae'r BBC wedi cefnogi dysgu anffurfiol drwy raglenni dogfen newydd ar amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys newid hinsawdd fel rhan o'i gyfres newydd o'r enw *Rare Earth*.

## Rydym wedi bod yn monitro'r ffordd y caiff strategaeth Animeiddio'r BBC ei rhoi ar waith

Y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at strategaeth y BBC ar gyfer apelio'n well at blant 6-12 oed drwy ddangos mwy o raglenni wedi'u hanimeiddio. Er i ni nodi y bu cynnydd mewn allbwn a lefelau gwylio ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u hanimeiddio o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar CBBC yn 2022, gwnaethom ddweud ei bod hi'n rhy gynnar i benderfynu a oedd hyn yn helpu i apelio'n well at y grŵp oedran hwn ac y byddem yn monitro hyn. Rydym wedi canfod bod y cynnwys sydd â'r gyfran uchaf o blant rhwng 4 a 15 oed yn ei gynulleidfa yn cynnwys rhaglenni wedi'u hanimeiddio, fel *Monster Loving Maniacs*, *Grizzy and the Lemmings* a *Transformers: EarthSpark*.[113] Yn unol â thueddiadau dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld bod rhaglenni wedi'u hanimeiddio, fel cyfran o'r lefelau gwylio ar CBBC eleni, wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall nes cyrraedd 46% o'r lefelau gwylio ar sianel CBBC gan blant 6-12 oed yn 2023. Mae munudau gwylio cyfartalog hefyd wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall ac o gymharu â 2019. Mae'r cynnydd hwn yn nodedig o ystyried bod lefelau gwylio sianeli teledu a ddarlledir yn gostwng yn barhaus yn gyffredinol.[114]

[113] Barb, setiau teledu yn unig, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno ar y teitlau mwyaf poblogaidd yn seiliedig ar y proffil uchaf o blant 4-15 oed.
[114] Barb, setiau teledu yn unig, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, plant 6-12 oed.

Cynyddodd nifer y cynnwys wedi'i animeiddio i blant ar draws y BBC o un flwyddyn i'r llall, o 1,778 awr yn 2022 i 2,003 awr yn 2023. Fodd bynnag, bu lleihad bach mewn rhaglenni a brynwyd, o 94 awr i 90 awr, ac mewn oriau o raglenni gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf (o 14 yn 2022 i 9 yn 2023), ac mae'r holl gynnydd mewn allbwn wedi'i briodoli i ailddarllediadau.[115] Er ein bod yn gwybod bod yr amser aros ar gyfer teitlau wedi'u hanimeiddio yn gallu bod yn hir[116] a bod lefelau gwylio wedi cynyddu, o ystyried arwyddocâd gwylwyr iau i gynaliadwyedd y BBC yn y tymor hirach, byddwn yn parhau i fonitro hyn.

## Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cynnwys dysgu ffurfiol y BBC i blant

Mae'r BBC yn gwasanaethu plant o bob oed drwy ddarparu cynnwys i ategu eu dysgu ffurfiol ledled y Deyrnas Unedig drwy BBC Bitesize. Mae hefyd yn cynnig cymorth i athrawon drwy BBC Teach.

Yn ôl data'r BBC, mae'r defnydd wythnosol o BBC Bitesize yn dal yn sefydlog o gymharu â'r llynedd, sef tua 1.5 miliwn o ymwelwyr unigryw o'r DU ar gyfartaledd.[117] Mae tua hanner (47%) plant 4-16 oed yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Bitesize ar gyfer eu gwaith ysgol neu eu gwaith cartref, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain (88%) yn dweud ei fod yn ddefnyddiol iddynt, gyda thri chwarter (73%) yn dweud y byddent yn gweld ei golli pe na bai ar gael mwyach. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau o hyd o ran defnydd yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol, gyda'r rhai ar aelwydydd D ac E yn llai tebygol o'i ddefnyddio na'r rhai ar aelwydydd A a B (38% o gymharu â 57%).[118]

Eleni, lansiodd y BBC bodlediadau BBC Bitesize i helpu myfyrwyr i adolygu ar gyfer eu harholiadau TGAU, gan gynnwys bioleg, cemeg, ffiseg a llenyddiaeth Saesneg. Roedd rhai o'r podlediadau TGAU ymysg y podlediadau gan y BBC a chwaraewyd fwyaf wrth edrych ar ganran y cynulleidfaoedd o dan 35 oed.[119] Gwnaeth y BBC hefyd dynnu sylw at The Other Side of the Story, sef gwasanaeth newydd o fewn BBC Bitesize sydd wedi'i ddylunio i helpu myfyrwyr gydag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a delio â newyddion ffug a thwyllwybodaeth.[120]

Mae wedi bod yn datblygu ei arlwy ar gyfer ysgolion, er enghraifft drwy gyhoeddi casgliadau newydd o fideos ar gyfer yr ystafell ddosbarth a fframweithiau gwasanaethau ar gyfer BBC Teach.[121] Mae'r defnydd o BBC Teach hefyd wedi cynyddu ymysg athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda chynnydd cyffredinol o 11% o un flwyddyn i'r llall mewn traffig, sef y cynnydd uchaf ers 2020/2021.[122] Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu hefyd, gyda 79% o athrawon ysgolion cynradd yn dweud eu bod yn ymwybodol ohono (74% y llynedd), a 71% o athrawon ysgolion uwchradd (67% y llynedd).[123]

---

[115] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[116] Ofcom, Adroddiad Blynyddol ar y BBC 2022/23, t.27.
[117] Data a ddarparwyd gan y BBC - Piano Analytics.
[118] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.
[119] Adroddiadau Chwarterol BBC Sounds.
[120] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.21.
[121] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes, 2024, t.25.
[122] Data a ddarparwyd gan y BBC - Piano Analytics.
[123] Data a ddarparwyd gan y BBC - Traciwr Myfyrwyr ac Athrawon DJS Research (2023/24).

## Mae'r defnydd o ddysgu anffurfiol i blant ac agweddau tuag ato yn weddol gyson â'r llynedd

Caiff cynnwys dysgu anffurfiol y BBC i blant ei ddarparu drwy sianeli teledu'r BBC gan gynnwys CBeebies a CBBC, ar wefan y BBC a'i apiau i blant, ac ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Plant 6 oed ac iau yw cynulleidfa darged cynnwys CBeebies, ac mae CBBC yn targedu plant 6-12 oed. Mae lefelau gwylio CBBC a CBeebies wedi aros yn weddol sefydlog o un flwyddyn i'r llall ymysg eu cynulleidfaoedd targed, sy'n gadarnhaol o gymharu â'r gostyngiadau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod rhaglenni plant o safon uchel a wneir yn y DU gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn bwysig i rieni.[124] Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae rhieni plant sy'n gwylio CBBC neu CBeebies yn parhau i'w sgorio'n gadarnhaol; mae tua thri chwarter yn dweud bod *rhaglenni o safon uchel i blant* yn cael eu darparu'n dda (73%; 78%, yn y drefn honno), a'r un faint yn dweud bod *amrywiaeth eang o gynnwys a wneir yn y DU i blant* (75%; 78%).[125] Ymysg plant sy'n gwylio CBeebies o leiaf unwaith yr wythnos, mae tua pedwar o bob pump yn cytuno bod *llawer o wahanol fathau o raglenni CBeebies* (80%) a bod 'rhaglenni CBeebies yn eu haddysgu am y byd' (78%). Yn yr un modd, mae'r canfyddiad o CBBC yn gadarnhaol iawn, gyda gwylwyr wythnosol 3-16 oed yn rhoi sgôr o 76% a 74% i'r gosodiadau.[126]

Nododd y BBC sawl enghraifft o gynnwys a ddarlledwyd ganddo yn 2023/24 a oedd yn annog ac yn cefnogi dysgu anffurfiol i blant. Roedd hyn yn cynnwys *Horrible Histories* ac *Operation Ouch* ar CBBC a oedd yn cynnwys rhifynnau arbennig ar y GIG ac ar ganser. Ar CBeebies, mae cyfres newydd, sef *I Can Do It You Can Too*, yn defnyddio dysgu gan gymheiriaid er mwyn helpu plant bach i ddatblygu sgiliau, drwy wylio plant yr un oed â nhw yn dangos sut i wneud amrywiaeth o bethau. Mae'r BBC yn bwriadu parhau i fuddsoddi mewn cynnwys dysgu, fel lansio cyfres newydd yn 2024/25 a fydd yn canolbwyntio ar gysyniadau codio ac a gaiff ei chynhyrchu gan yr un cwmni â *Numberblocks.*[127]

Yn unol â'r newidiadau a wnaed i Drwydded Weithredu'r BBC, mae ein hasesiad llawn o raglenni plant bellach i'w weld yn yr adran ar Ddiben Cyhoeddus 3 isod.




[124] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023 - Mae 78% o rieni yn dweud ei bod yn bwysig bod sianeli a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn *'darparu amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel sy'n cael eu gwneud yn y DU i blant'*.
[125] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[126] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.
[127] BBC, [Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25](), t.29.

## Mae agweddau at ddysgu anffurfiol y BBC i oedolion yn dal yn sefydlog, yn yr un modd â'i fuddsoddiad

Mae'r BBC yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu anffurfiol i oedolion ar ei holl lwyfannau, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol mewn amrywiaeth o genres fel y celfyddydau, crefydd, hanes a gwyddoniaeth. Rydym yn ystyried genres eraill a ddarperir gan y BBC yn fanylach o dan Ddiben Cyhoeddus 3 yn yr adran hon.

Mae dysgu anffurfiol ar y BBC yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd, gyda 70% o oedolion yn y DU yn dweud bod *'rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd'* yn bwysig i gymdeithas yn gyffredinol. Mae tri o bob pump (61%) yn rhoi sgôr dda i'r BBC am gyflawni'r diben hwn, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol.[128] Fodd bynnag, ar gyfer sianeli teledu a ddarlledir y BBC, mae lefelau gwylio cynnwys dysgu anffurfiol wedi parhau i ddisgyn o un flwyddyn i'r llall, gyda chyfanswm y munudau sy'n cael eu gwylio fesul oedolyn yn lleihau, ac ar gyfradd uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn gyson ar draws grwpiau oedran ac mae hefyd yn adlewyrchu gostyngiadau cyffredinol mewn lefelau gwylio teledu a ddarlledir.[129]

Cynyddodd allbwn dysgu anffurfiol y BBC i 5,112 awr yn 2023, gyda gwariant hefyd yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall mewn termau nominal. O fewn hyn, gwnaeth allbwn gwreiddiol o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf gynyddu fymryn, o 756 awr yn 2022 i 780 awr yn 2023, er ei fod yn dal yn is o lawer na'r lefelau cyn 2021.[130] Fel cyfran o gyfanswm allbwn teledu'r BBC, roedd cyfanswm yr allbwn dysgu anffurfiol ychydig dros 10%, sydd fymryn yn is na'r hyn a gofnodwyd dros y 10 mlynedd diwethaf.[131]

O ran sain, mae tri o bob pump (60%) o ddefnyddwyr BBC Sounds yn gwrando ar bodlediadau addysgol ar y llwyfan.[132] Mae rhai o'r podlediadau mwyaf poblogaidd eleni wedi cynnwys rhai sy'n ymwneud ag addysg a dysgu, fel *You're Dead to Me*, *Just One Thing with Michael Mosley* ac *Uncharted with Hannah Fry*.[133] Mae rhai podlediadau ffeithiol hefyd wedi denu cynulleidfaoedd yn ôl i BBC Sounds gan gynnwys *Witness History* gan BBC World Service a *Women's Hour* gan BBC Radio 4.[134]

## Mae'r BBC wedi parhau i ddatblygu partneriaethau newydd

Mae'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o wahanol fathau o sefydliadau fel cyrff diwydiant, elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill yn y cyfryngau ac mae'n eu defnyddio er mwyn helpu i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Gall partneriaethau gynnig arbenigedd mewn meysydd penodol, a helpu'r BBC yn aml i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Yn 2023/24, cymerodd y BBC ran mewn 445 o bartneriaethau a chydweithrediadau ledled y DU mewn amrywiaeth o wahanol feysydd.[135] Er enghraifft, cychwynnodd ymgyrch newydd yn ei bartneriaeth barhaus â Micro:bit Educational Foundation i ail-lansio Micro:bit (cyfrifiaduron maint

[128] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[129] Barb, setiau teledu yn unig, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno. Gwnaeth nifer y munudau wythnosol cyfartalog leihau o 19 munud fesul oedolyn yn 2022 i 13 munud yn 2023.
[130] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[131] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[132] Arolwg Podlediadau Ofcom.
[133] Data Chwarterol BBC Sounds.
[134] Data a ddarparwyd gan y BBC- data chwarterol gweithredu cyfrifon Sounds.
[135] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.31.

poced a gynlluniwyd i ysbrydoli plant i feddwl yn greadigol), gan gynnig dyfeisiau ac adnoddau i athrawon yn rhad ac am ddim yn ysgolion cynradd y DU. Dywedodd y BBC eu bod wedi cael eu darparu i 90% o ysgolion cynradd yn y DU.[136]

Y llynedd, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi dechrau bwrw ymlaen â'i waith ar ddatblygu fframwaith i asesu effaith ei bartneriaethau. Nododd hefyd ei fod yn gweithio i greu prosiectau partneriaethau cynnwys creadigol er mwyn gwella ei gyrhaeddiad a'i berthnasedd ymysg chynulleidfaoedd penodol, gan gynnwys pobl o fewn grwpiau economaidd-gymdeithasol DE. Eleni, mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi parhau i wella'r archwilio a'r data y mae'n eu casglu er mwyn deall effaith ei bartneriaethau yn well. Hefyd, yn ei adroddiad DoMaPP, tynnodd sylw at rai o'r partneriaethau newydd y mae wedi ymrwymo iddynt, er enghraifft gydag archfarchnadoedd ASDA lle mae wedi ymestyn y gwaith partneriaeth roedd eisoes yn ei wneud ar 'Tiny Happy People' i gynulleidfaoedd a chymunedau newydd.[137]

## Mae'r BBC wedi cymryd camau i sicrhau ei bod yn hawdd darganfod cynnwys dysgu

O dan y Drwydded Weithredu newydd, mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau ei bod yn hawdd darganfod ei gynnwys dysgu anffurfiol ar-lein. Mae'r BBC yn dweud bod ei dabiau categorïau ar BBC iPlayer yn dangos rhestr o genres yn amlwg, gan gynnwys: y celfyddydau, gwyddoniaeth a natur, hanes a chynnwys o bob cwr o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Ar BBC Sounds, mae wedi dweud ei fod wedi sicrhau ei bod yn hawdd darganfod ei gynnwys a'i fod ar gael yn rhwydd, er enghraifft drwy sicrhau y daw cynulleidfaoedd ar draws podlediadau drwy argymhellion wedi'u personoli ar y rheiliau 'Recommended For You' neu 'Discover'. Fel y trafodwyd yn gynharach, mae asesu perfformiad y BBC yn y maes hwn yn rhywbeth rydym yn bwriadu ei ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig er mwyn deall yr effeithiau ar gynulleidfaoedd yn well.

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Eleni, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan PP2. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1

[136] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.25.
[137] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.25. Mae partneriaid THP yn cynnwys: Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol a'r Swyddfa Anghydraddoldebau a Gwahaniaethau Iechyd (OHID) yn ogystal ag Adran Addysg Llywodraeth y DU.

# DIBEN CYHOEDDUS 3

**Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw**


## GWREIDDIOLDEB

### Oriau a gwariant gwreiddiol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf

**43.8%** awr

**92.8%** gwariant

### Gwariant teledu rhwydwaith y BBC ar raglenni mewn perygl





Roedd **21.9%** o'r gwariant ar deledu rhwydwaith ar genres sydd mewn perygl

Mae'r rhain yn cynnwys Crefydd a Moeseg, Ffeithiol Arbenigol, Cerddoriaeth, y Celfyddydau, Comedi a Phlant

## ARLOESEDD

### Oriau rhaglenni gwreiddiol newydd y BBC a rhaglenni teledu sy'n dychwelyd




### Cwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio gyda'r BBC




## CANFYDDIADAU CYNULLEIDFAOEDD

### Sgoriau cadarnhaol am natur unigryw'r BBC ymysg oedolion

**64% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel

**67% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys sydd wedi'i wneud i gynulleidfaoedd y DU

**50% yn dweud** bod y BBC yn darparu cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill

**64% yn dweud** bod y BBC yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys

### Sgoriau cadarnhaol BVoD...

...am ddarparu amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni

| BBC iPLAYER | Channel 4 | ITVX | My5 |
|---|---|---|---|
| 72% | 63% | 62% | 57% |


...am ddarparu rhaglenni am wyddoniaeth, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd

| BBC iPLAYER | Channel 4 | ITVX | My5 |
|---|---|---|---|
| 62% | 51% | 42% | 45% |

...am ddarparu rhaglenni nad oeddwn i'n gwybod amdanynt o'r blaen

| BBC iPLAYER | Channel 4 | ITVX | My5 |
|---|---|---|---|
| 59% | 55% | 52% | 52% |

### Sgoriau cadarnhaol i BBC Sounds




**57%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds o ran pa mor hawdd yw dod o hyd i gerddoriaeth newydd

**63%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am gynnwys unigryw sydd ond ar gael drwy'r llwyfan hwnnw

**81%** yn rhoi sgôr gadarnhaol i BBC Sounds am amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael

Ffynonellau a ddefnyddiwyd; dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.

**Crynodeb PP3**

- Ar y cyfan, mae'r BBC wedi perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd er mwyn darparu amrywiaeth eang o allbwn a gwasanaethau unigryw i gynulleidfaoedd yn y DU, ond gyda lefel amrywiol o foddhad ymysg grwpiau demograffig gwahanol.
- Mae wedi parhau i ddarparu cymysgedd o gynnwys i gynulleidfaoedd yn unol â'r hyblygrwydd ychwanegol a gafodd drwy'r Drwydded Weithredu newydd a gyhoeddwyd y llynedd. Fodd bynnag, er bod nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf wedi lleihau fymryn, mae cyrhaeddiad a bodlonrwydd cynulleidfaoedd wedi aros yn sefydlog.
- Dangosodd y BBC ei bod yn bwysig ei gwneud hi'n hawdd i gynulleidfaoedd ddarganfod cynnwys arloesol ac unigryw, a dywedodd 59% o wylwyr fod BBC iPlayer wedi perfformio'n dda o ran darparu rhaglenni nad oeddent yn ymwybodol ohonynt o'r blaen.

Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan: **Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydynt i gyd yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.**

Mae natur unigryw yn mesur sut mae'r BBC yn cymharu â darlledwyr eraill, yn ogystal â mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae wrth galon yr hyn rydym yn disgwyl i'r BBC ei wneud. Rydym yn ystyried y ffactorau allweddol a ganlyn (pum colofn natur unigryw) ar sail y fframwaith mesur perfformiad:

- ansawdd allbwn y BBC;
- y cymysgedd o genres ac allbwn;
- faint o allbwn gwreiddiol sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU;
- lefel cymryd risg ac arloesi;
- yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu.

Nid yw natur unigryw yn golygu bod angen i holl raglenni'r BBC fod yn wahanol i'r rhai a geir gan ddarparwyr eraill. Mae ein hasesiad yn ystyried y BBC yn ei gyfanrwydd ac ar draws ei wasanaethau ar sail y colofnau hyn.

## PP3 eleni: prif uchafbwyntiau a datblygiadau ar gyfer 2023/24

Enillodd y BBC 44% o wobrau Teledu a Chrefft Teledu BAFTA a 70% o wobrau teledu'r Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) yn 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys BAFTA am ei ddarllediadau ar gyfer *Eurovision Song Contest 2023* ac am *Celebrity Race Across the World*. Mae'r BBC yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys newydd a gwreiddiol, fel rhaglenni wedi'u hanimeiddio drwy ei gynllun Ignite. Gwnaeth cynnwys sain y BBC hefyd berfformio'n dda, gan ennill 61% o'r categorïau yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio (ARIAS).[138] Cafodd y gallu i ddarganfod arlwy cerddoriaeth ddigidol y BBC ei wella drwy reilen gerddoriaeth newydd wedi'i phersonoli ar BBC Sounds a chyflwynodd y BBC gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig gan gynnwys drwy frand 'BBC Introducing' lle yr ymddangosodd 225 o artistiaid newydd ar 12 o lwyfannau cerddoriaeth allweddol yn 2023. [139]

[138] The Radio Academy, Audio and Radio Industry Awards, 2024.
[139] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.74 a t.65.

## Mae cynulleidfaoedd yn parhau i roi sgôr gadarnhaol i'r BBC am ddarparu cynnwys o safon uchel

Mae cynnwys creadigol o safon uchel yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd; mae tri chwarter (74%) yn dal i ddweud ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn darparu hyn ac, yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae tua dwy ran o dair (64%) o oedolion yn y DU yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu '*cynnwys creadigol o safon uchel*'. Yn unol â'r tueddiadau a drafodwyd yn Adran 2, mae pobl o aelwydydd AB yn fwy tebygol o roi sgôr gadarnhaol i'r BBC ar gyfer hyn na phobl o aelwydydd DE. O ran plant 3-16 oed, mae tua hanner (53%) yn rhoi sgôr uchel iddo ar gyfer '*mae gan y BBC raglenni o safon uchel rwy'n eu mwynhau/mae fy mhlentyn yn eu mwynhau*'.[140]

Ar ôl cyrraedd ei lefel uchaf erioed yn 2022, gwnaeth cyfanswm gwariant y BBC ar raglenni teledu leihau 9% mewn termau nominal i £1.59bn yn 2023, a gwnaeth gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf leihau 11% i £1.28bn. Roedd hyn yn bennaf am fod llawer o chwaraeon yn 2022, gyda digwyddiadau fel Gemau Olympaidd y Gaeaf, Cwpan y Byd FIFA i ddynion a Gemau'r Gymanwlad, ond hefyd am fod gwariant wedi'i chwyddo yn 2022 oherwydd allbwn gohiriedig yn dilyn COVID-19 a chostau cynhyrchu uwch oherwydd protocolau cysylltiedig â COVID-19.[141]



Mae tri o bob pump (62%) o'r bobl sydd wedi gwylio yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud bod sianeli teledu'r BBC wedi cyflawni'n dda o ran *digwyddiadau darlledu sy'n dod â'r genedl ynghyd am brofiad gwylio ar y cyd*, gyda chyfran debyg yn dweud yr un peth ar gyfer BBC iPlayer (65%).[142] Ymhlith y rhaglenni teledu a gafodd eu gwylio fwyaf roedd darllediadau'r BBC o ddigwyddiadau byw fel Coroni'r Brenin Charles III a'r Frenhines Camilla, Eurovision a Chwpan Pêl-droed y Byd i fenywod.[143] Ar ben hynny, gwnaeth y BBC ddarlledu gŵyl Glastonbury ar y teledu, ar y radio, ar BBC iPlayer ac ar BBC Sounds, gan dorri recordiau cynulleidfaoedd digidol blaenorol gyda chynnwys yn cael ei ffrydio 50.3m o weithiau yn ôl ffigurau mis Mehefin 2023.

[140] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[141] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[142] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[143] Barb, setiau teledu yn unig, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, pob unigolyn 4+ oed.

## Ar draws ei wahanol wasanaethau, mae’r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys, gan gynnwys genres sydd mewn perygl

Wrth asesu’r amrywiaeth o allbwn mae’r BBC yn ei gynnig i gynulleidfaoedd, rydym wedi edrych ar wahân ar allbwn clyweledol a sain y BBC.

### Teledu’r BBC a BBC iPlayer

Mae’r BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd eang o gynnwys, gan gynnwys genres sydd mewn perygl.[144] Ymysg gwylwyr dros y chwe mis diwethaf, mae sianeli teledu’r BBC a’r BBC iPlayer yn perfformio’n dda o ran darparu *amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon* (64% a 72% yn y drefn honno).[145] Daw 50% o oriau ar sianeli teledu’r BBC o genres sydd mewn perygl ac mae BBC iPlayer yn cadw cydbwysedd o oriau ar draws gwahanol genres, ac mae’r naill beth a'r llall yn gyson â blynyddoedd blaenorol.[146]

Ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y BBC sy’n cyfrif am y mwyafrif (60%) o oriau gwreiddiol o’r DU a ddarlledir am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl a’r mwyafrif (66%) o’r gwariant cysylltiedig. Yn 2023, roedd gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o’r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl yn sefydlog mewn termau nominal ar £267m (o gymharu â £266m yn 2022). Fodd bynnag, gwnaeth yr oriau leihau o 1,430 yn 2022 i 1,372 yn 2023 (-4%), gan ddychwelyd at y duedd a welwyd cyn 2022.[147] O ystyried bod y lleihad wedi’i wasgaru ar draws nifer o genres, ei fod yn gyson â strategaeth effaith fawr y BBC o ddarparu llai o oriau o gynnwys ond cynnwys o safon uchel, a bod y gwariant yn aros yn sefydlog, nid oes gennym bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â’r lleihad bach.

Er gwaethaf y lleihad, ar y teledu, gwnaeth cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog genres mewn perygl yn gyffredinol aros yn sefydlog o un flwyddyn i’r llall, a gwnaeth amser gwylio wythnosol cyfartalog y pen gynyddu, o 29 i 31 munud rhwng 2022 i 2023, gyda chynnydd yn genres cerddoriaeth, rhaglenni ffeithiol arbenigol a chomedi yn benodol. Gwelwyd patrwm tebyg o ran ymddygiadau gwylio ar BBC iPlayer.[148] Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddarpariaeth mewn genres sydd mewn perygl hefyd yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 57% yn dweud bod sianeli teledu’r BBC yn cyflawni’n dda o ran *rhaglenni am wyddoniaeth, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd*, a 62% yn dweud yr un peth am BBC iPlayer.[149]

Y llynedd, gwnaethom esbonio bod y BBC yn bwriadu dyblu gwariant ar y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol ar BBC Two a gwneud BBC Four yn sianel archif yn bennaf.[150] Nod y newid i BBC Two oedd sicrhau’r cyrhaeddiad mwyaf posibl, gan fod proffil cynulleidfa’r sianel yn fwy ac yn cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd C2DE a chynulleidfaoedd iau. Dywedodd y BBC hefyd y byddai'n

---

[144] Mae’r Cytundeb yn rhestru genres sy’n cyfrannu’n benodol at y Genhadaeth a’r Dibenion Cyhoeddus ac nad ydynt yn cael eu darparu’n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Cyfeiriwn at y genres hyn fel rhai sydd ‘mewn perygl’ ac maent yn cynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd, cynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant.
[145] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[146] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr ac Ampere.
[147] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC.
[148] Barb.
[149] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[150] Ofcom, Moderneiddio Trwydded Weithredu’r BBC, 2023, t.26.

blaenoriaethu cyfresi celfyddydau a cherddoriaeth newydd ar raddfa, a fyddai'n rhoi hwb i lefelau gwylio ar BBC iPlayer.[151]

Roedd cyfanswm cyffredinol allbwn teledu yn y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol yn gymharol sefydlog tan 2022. Fodd bynnag, yn 2023, cyrhaeddodd ei lefel isaf (1,040 awr), gan adlewyrchu strategaeth effaith fawr y BBC. Bu lleihad mewn allbwn ar BBC Two hefyd, o 283 awr yn 2022 (y lefel uchaf ers 2010), i 252 awr yn 2023, ond mae hyn yn dal yn uwch na chyfartaledd y pum mlynedd blaenorol. Yn unol â chynlluniau'r BBC, gwnaeth y gwariant cyffredinol ar y genre hwn gynyddu'n sylweddol rhwng 2021 a 2022 a mwy na dyblu ar BBC Two. Er i wariant ar BBC Two leihau yn 2023, roedd yn dal dros 70% yn uwch na'r lefelau yn 2021. Hefyd, roedd gwariant cyffredinol ar y genre yn 9% yn uwch yn 2023 o gymharu â 2021.[152]

Gwnaeth lefelau gwylio cyffredinol ar gyfer y celfyddydau ar sianeli teledu'r BBC, yn benodol ar BBC Two a BBC Four, ostwng o un flwyddyn i'r llall unwaith eto, er y bu cynnydd mewn lefelau gwylio cynnwys cerddoriaeth, a hynny wedi'i sbarduno'n rhannol gan gynnydd mewn lefelau gwylio ar gyfer digwyddiadau fel Glastonbury a'r Proms. Gwnaeth lefelau gwylio ar gyfer y celfyddydau ar BBC iPlayer aros yn sefydlog.[153] Gydag unrhyw newidiadau, ceir potensial am effeithiau ar gynulleidfaoedd a, chan fod lefelau gwylio ar gyfer rhaglenni celfyddydol wedi gostwng unwaith eto, rydym yn bwriadu mynd ar drywydd hyn gyda'r BBC.

### Astudiaeth achos rhaglenni plant

Yn Niben Cyhoeddus 2, gwnaethom archwilio'r amrywiaeth o raglenni dysgu anffurfiol sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a'u defnydd a'u canfyddiadau o'r gwasanaethau sy'n cynnwys hynny. Yma, tynnwn sylw at yr amrywiaeth o wasanaethau a rhaglenni y mae'r BBC yn eu cynnig i blant ar y teledu, ar y radio ac ar-lein.

Mae'r defnydd cyffredinol o'r BBC yn dal yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda saith o bob 10 (69%) o blant 3-16 oed yn defnyddio unrhyw gynnwys gan y BBC bob wythnos. Ceir rhywfaint o amrywiad yn ôl demograffeg, gyda phobl o aelwydydd AB yn fwy tebygol o'i ddefnyddio na phobl o aelwydydd DE (78% o gymharu â 60%).[154]

Mae dros chwarter plant 4-15 oed yn defnyddio BBC iPlayer o leiaf unwaith yr wythnos (27%), o gymharu â 24% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dal ar ei uchaf ymysg plant 4-6 oed (35%), gyda defnydd wythnosol o 19% ymysg plant 13-15 oed.[155] Mae rhai o'r rhaglenni ar BBC iPlayer gan CBeebies a CBBC y gofynnir amdanynt fwyaf yn cynnwys *Hey Duggee*, *Bluey*, *Bing*, *The Dumping Ground* a *Malory Towers.*[156]

Mae bron i dri o bob pump (57%) o blant yn dweud eu bod yn hoffi'r BBC, ac mae tua hanner (48%) yn dweud y byddent yn gweld ei golli pe na bai yno.[157] Mae mwyafrif o rieni y mae eu plant wedi gwylio CBeebies (78%), CBBC (75%) neu sianeli teledu'r BBC/BBC iPlayer (74%) yn ystod y chwe mis

[151] BBC, BBC Four Licence change request, 2022.
[152] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[153] Barb.
[154] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24.
[155] Barb, ar adeg gwylio.
[156] Data a ddarparwyd gan y BBC - AV Analytics.
[157] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

diwethaf yn dweud eu bod yn darparu *'amrywiaeth eang o gynnwys wedi'i wneud yn y DU i blant'* yn dda.[158]

Gwnaeth cyfanswm yr allbwn teledu ar gyfer plant leihau 1% yn 2023. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 13% mewn rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, er bod y gwariant ar y rhain wedi cynyddu ychydig o'i gymharu â'r llynedd. Roedd hyn yn cyd-fynd â strategaeth y BBC i ganolbwyntio ar raglenni sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf, fel drama newydd i blant, *A Kind of Spark*.[159] Gwnaeth cyfanswm y gwariant ar gynnwys teledu i blant gynyddu fymryn o un flwyddyn i'r llall, gan godi 3% ers 2022.[160]

Mae llwyfannau ar-lein hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyrraedd plant o wahanol oedrannau a grwpiau demograffig. Yn 2023/24, gwnaeth y defnydd o sianel YouTube CBeebies dyfu, gyda gwylio fideos yn y DU yn codi 15%, yn dilyn twf o 12% yn y flwyddyn flaenorol.[161] Y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at ddefnydd y BBC o gemau ac apiau i gyrraedd cynulleidfaoedd penodol. Ers 2022/23, mae'r defnydd o gemau ar-lein CBBC wedi lleihau o ychydig dros 123,000 o ymwelwyr unigryw wythnosol ar gyfartaledd yn y DU (neu borwyr gwe), i ychydig mwy na 101,000, ac mae'r defnydd o gemau ar-lein CBeebies wedi aros yn fwy sefydlog (tua 76,000 i 70,000). Ceir darlun cymysg ar gyfer apiau penodol Cbeebies; er enghraifft gyda *Playtime Island* yn dangos lleihad, *Get Creative* ac yn codi, a *Story Time* yn gyson o un flwyddyn i'r llall.[162]

Mae'r BBC yn gweithio i gysylltu â phlant ac apelio atynt mewn amrywiaeth o genres y tu hwnt i raglenni plant. Er enghraifft, mae'r BBC yn ceisio aros yn berthnasol drwy raglenni adloniant i deuluoedd fel *Gladiators*, a oedd yn un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd ymysg plant 4-15 oed, sef 1.5 miliwn o wylwyr fesul pennod ar gyfer y grŵp oedran hwn ar gyfartaledd.[163] Mae'n ymddangos bod ei strategaeth i gynhyrchu cynnwys effaith uchel sy'n apelio at blant (yn enwedig plant 8-11 oed) yn dangos arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol, gyda chyrhaeddiad ar draws gwasanaethau'r BBC i'r grŵp hwn yn aros yn sefydlog ar 68%.[164]

## BBC Radio a BBC Sounds

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae cynulleidfaoedd yn dal i deimlo'n gadarnhaol ynglŷn â gwasanaethau sain ar-lein a darlledu radio'r BBC, a'r amrywiaeth o gynnwys a ddarperir ganddynt. Rhoddodd tri chwarter (76%) y bobl a oedd wedi gwrando ar orsafoedd radio'r BBC yn ystod y tri mis diwethaf sgôr bodlonrwydd gadarnhaol, a dywedodd cyfran fymryn yn uwch (82%) yr un peth am BBC Sounds.[165] Mae'r ddau'n perfformio'n ffafriol o gymharu â llwyfannau masnachol eraill.

BBC Radio 2 yw'r orsaf y gwrandewir arni fwyaf o hyd, gyda chwarter oedolion 15+ oed yn y DU yn gwrando bob wythnos (25%), gyda BBC Radio 4 a BBC Radio 1 yn ail ac yn drydydd.[166] Mae ein dadansoddiad o allbwn cerddoriaeth newydd yn dangos bod cyfran y gerddoriaeth newydd a gaiff ei chwarae ar BBC Radio 1 a BBC Radio 2 yn dal yn uchel wrth gymharu â gorsafoedd tebyg, ar 61% a 23% yn y drefn honno. Mae'r gyfradd ailddarlledu gyfartalog yn dal yn isel, ac mae nifer y traciau

---

[158] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[159] BBC, Cynllun Blynyddol y BBC 2023/24, t.57.
[160] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[161] Data a ddarparwyd gan y BBC.
[162] Data a ddarparwyd gan y BBC - Piano Analytics.
[163] Barb, ar adeg gwylio, pob dyfais ar gyfer sianeli teledu ac iPlayer.
[164] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24
[165] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[166] RAJAR Ch1 2024; pwysoliad 12 mis.

cerddoriaeth newydd a gaiff eu chwarae yn dal yn gyson o un flwyddyn i'r llall.[167] Y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd cerddoriaeth newydd ar holl orsafoedd y BBC, a nodi rhywfaint o leihad o ran faint o gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac addawol o'r DU a gaiff ei chwarae ar Radio 2, yn ôl yr hyn a gofnodwyd gan y BBC, ac felly gwnaethom ymrwymo i fonitro hyn. Eleni mae'r ffigurau wedi codi ond rydym yn nodi eu bod yn dal yn is nag yn 2021/22. Felly, byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i ni ystyried bod hyn yn arwydd allweddol o natur unigryw.[168]

Mae tua thraean o oedolion yn y DU yn dweud bod gorsafoedd radio'r BBC yn perfformio'n well na gorsafoedd radio eraill o ran darparu allbwn o safon uchel a chymysgedd eang o gynnwys ar y radio.[169] Yn ôl data'r BBC, mae tri chwarter (75%) oedolion yn y DU yn dweud bod rhaglenni radio'r BBC yn gynnwys na fyddent yn ei glywed yn unman arall, o gymharu â dwy ran o dair (65%) sy'n dweud yr un peth am raglenni radio nad ydynt yn rhai gan y BBC.[170] Mae tua thri o bob 10 (28%) o'r farn bod gorsafoedd radio'r BBC *yn well nag eraill am ddarparu cynnwys radio sy'n wahanol i ddarparwyr eraill*; dim ond tuag un o bob 10 (11%) sydd o'r farn eu bod yn waeth nag eraill.[171]

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r BBC i ddeall a mesur yn well yr amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael ar BBC Sounds. Ym mis Ebrill 2024, roedd mwy na 7,900 o deitlau unigryw ar gael ar BBC Sounds – cynnydd o 3% o gymharu â mis Ebrill 2023 – gyda thros 315,000 o benodau ar gael ar-alw mewn 11 o genres lefel uchaf: rhaglenni ffeithiol, cerddoriaeth, adloniant, newyddion, comedi, chwaraeon, drama, crefydd a moeseg, dysgu, rhaglenni plant a'r tywydd.

BBC Sounds yw un o'r gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf yn y DU ar gyfer podlediadau (caiff ei ddefnyddio gan 43% o wrandawyr podlediadau), a'r darparwr podlediadau a ddefnyddir amlaf ond dau.[172] Ymhlith y podlediadau mwyaf poblogaidd ar BBC Sounds eleni mae cyfresi parhaus fel *Things Fell Apart* a *Limelight*. Mae rhaglenni radio fel *The Archers*, *Drama on 4* a *Friday Night Comedy* hefyd yn boblogaidd ac, ymysg pobl o dan 35 oed, mae cynulleidfaoedd yn mwynhau gwrando ar *Radio 1 Anthems*, *In Our Time* a *The Traitors Uncloaked*.[173] Mae podlediadau'r BBC hefyd ar gael ar wasanaethau heblaw rhai'r BBC, fel Spotify, sy'n helpu cynnwys y BBC i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chael ei ddarganfod ganddynt.

Mae BBC Sounds yn dal yn uchel ei barch ymysg defnyddwyr ac mae'n perfformio'n arbennig o dda o ran *amrywiaeth ei gynnwys* (mae 81% o ddefnyddwyr yn dweud ei fod yn dda o ran hyn), *hwylustod llywio* (80%) a *hwylustod defnyddio* (83%), sy'n cael eu hystyried yn rhai o'r nodweddion pwysicaf ar gyfer ffrydio sain ar-lein.[174]

## Gwefan/apiau'r BBC

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau ar-lein, ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae tua phedwar o bob pump (78%) o bobl 16+ oed sydd wedi defnyddio gwefannau neu apiau'r BBC yn ystod y tri mis diwethaf yn dweud eu bod yn fodlon arnynt, sy'n

---

[167] Dadansoddiad Ofcom o ddata RadioMonitor ac Official Chart Company.
[168] Gwnaeth cyfran y gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac addawol o'r DU a gaiff ei chwarae gynyddu o 8% yn 2022 i 12% yn 2023, a gwnaeth cyfran yr ychwanegiadau at restr chwarae BBC Radio 2 gan artistiaid newydd ac addawol o'r DU gynyddu o 14% i 16%.
[169] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[170] BBC Pulse Panel; BBC, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24, t.146.
[171] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[172] Arolwg Podlediadau Ofcom 2024.
[173] Data Chwarterol BBC Sounds.
[174] Arolwg Sain Ofcom 2024.

gyson o un flwyddyn i'r llall. Mae tua thri o bob 10 (32%) yn dweud bod cynnwys ar-lein y BBC o safon uwch nag eraill; mae 36% yn dweud ei fod tua'r un peth; ac mae 9% yn dweud ei fod yn waeth nag eraill. Mae cyfrannau tebyg yn dweud yr un peth ynglŷn â '*darparu cymysgedd eang o gynnwys*' ac '*apelio at amrywiaeth eang o wahanol gynulleidfaoedd ar-lein*'.[175]



## Mae'r BBC yn dal i gael sgôr uchel am ddarparu cynnwys a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU

Mae gwariant y BBC ar raglenni gwreiddiol o'r DU yn ddangosydd pwysig o'i ymrwymiad i gynnig amrywiaeth o ddeunydd ffres i wylwyr ac mae'n cyfrannu'n helaeth at hunaniaeth unigryw'r BBC. Gwnaeth gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf leihau 11% mewn termau nominal o'r uchafbwynt yn 2022 i £1.28bn, ond roedd hyn yn bennaf oherwydd lefelau uwch o wariant ar raglenni chwaraeon y llynedd.[176] Gwnaeth oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf leihau 3% o un flwyddyn i'r llall, o 22,153 yn 2022 i 21,503 yn 2023, ond mae'r lefel hon yn dal yn weddol gyson â blynyddoedd blaenorol.

Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC ar gyfer *rhaglenni a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU*; gyda dwy ran o dair (67%) o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf yn dweud hyn ar gyfer sianeli teledu'r BBC, a mwy na saith o bob 10 (72%) yn dweud hyn ar gyfer BBC iPlayer.[177] Mae tua thraean (34%) o oedolion yn y DU yn dweud bod gorsafoedd radio'r BBC *yn darparu cynnwys radio a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU* yn well na darparwyr eraill.[178]

Mae'r BBC wedi tynnu sylw o'r blaen at ei ddull gweithredu mewn perthynas â chynnwys a brynir, a phwysigrwydd ei ddefnyddio i ddarparu amrywiaeth eang o allbwn ac i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Fel cyfran o gyfanswm oriau, mae cynnwys a brynir wedi aros ar lefel debyg i 2023. Fodd bynnag, gwnaeth gwariant ar gynnwys a brynir gynyddu mymryn o 3.3% o'r cyfanswm i 4.2% yn 2023.[179] Mae'r BBC wedi tynnu sylw at yr amrywiaeth o ffyrdd y gall cynnwys gyfrif fel cynnwys a brynir, o ddarlledu'r celfyddydau perfformio a phrynu ymlaen llaw, i gynnwys o'r DU a gomisiynir gan drydydd partïon. Ymhlith yr enghreifftiau mae rhaglenni newydd fel *Colin from Accounts*, *Snowfall*, *Stanley*

[175] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[176] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
[177] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[178] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[179] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

*Tucci: Searching for Italy* a *Navalny*.[180] Yn Adran 2 gwnaethom hefyd drafod dull y BBC o ddefnyddio rhaglenni a brynir i ddenu cynulleidfaoedd iau.

## Mae'r BBC yn parhau i arbrofi â fformatau newydd, ond mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr is i gymryd risg na meysydd eraill

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae tua hanner oedolion yn y DU yn credu bod y BBC yn perfformio'n dda o ran darparu *'cynnwys sy'n mentro bod yn wahanol'* (49%) a *'chynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill* (50%).[181] Mae ein Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn dangos bod sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer yn perfformio'n weddol debyg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill o ran darparu *rhaglenni sy'n wahanol i ddarparwyr eraill o ran y ffordd y maent yn ymdrin â phethau*.[182] O ystyried bod cymryd risg ac arloesi yn gysyniadau cymhleth sy'n gallu golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, rydym yn ystyried nifer o ffactorau (er enghraifft, cyfresi neu fformatau newydd, cynhyrchwyr gwahanol, neu ddatblygu cynhyrchion newydd) er mwyn deall sut mae cymryd risgiau ac arloesi yn rhan o waith y BBC.

Ar deledu'r BBC, gwnaeth nifer y cyfresi newydd yn 2023 leihau i 201 (311 yn 2022 a 276 yn 2021), yn dilyn cynnydd y llynedd yn sgil ail-lansio sianel BBC Three. Gwnaeth nifer y cyfresi a ddychwelodd gynyddu fymryn yn 2023, i 430. O ran oriau, roedd tua 8% o oriau gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn gyfresi newydd yn 2023, sy'n llai na blynyddoedd blaenorol (1,146 yn 2020 i 626 yn 2023).[183] Er mai dim ond un dangosydd o gymryd risg yw oriau cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf a bydd amrywiadau rhwng blynyddoedd sy'n cael eu sbarduno gan syniadau creadigol a pha mor boblogaidd yw cyfresi newydd, rydym yn bwriadu mynd ar drywydd hyn gyda'r BBC oherwydd y gostyngiad. Yn 2023/2024, dywedodd y BBC ei fod wedi defnyddio 64 o gwmnïau cynhyrchu teledu newydd eleni, o gymharu â 68 yn 2022/23.[184]

Yn Adroddiad Blynyddol y BBC, tynnwyd sylw at *BBC Proms in Gateshead* fel enghraifft o fformat newydd, sef yr ŵyl Proms gyntaf dros benwythnos cyfan y tu allan i Lundain. Dywedodd fod 95% o'r gynulleidfa yn bresennol mewn Prom am y tro cyntaf, sy'n dangos pwysigrwydd fformatau newydd er mwyn denu amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd. Mae'r BBC hefyd wedi bod yn arbrofi ag arloesi technolegol ac eleni amlinellodd ei fwriad i lansio ei gynlluniau peilot cyntaf ar gyfer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, a fydd yn canolbwyntio ar ble y gall deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol gynnig manteision i gynulleidfaoedd a staff. Tynnodd sylw at enghreifftiau o gynlluniau peilot sy'n edrych ar gyfieithu erthyglau newyddion i nifer o ieithoedd, er mwyn darparu ar gyfer mwy o gynulleidfaoedd; datblygu sgwrsfotiau er mwyn helpu i ddysgu ar BBC Bitesize; a symleiddio'r ffordd y caiff cynnwys ei labelu a'i drefnu.

## Mae'r BBC yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth ond ceir gwahaniaethau rhwng rhai grwpiau demograffig

Piler olaf natur unigryw yw'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'r BBC yn eu gwasanaethu. Rydym wedi trafod hyn yn fanwl yn Adran 2. Mae Ffigur 2 isod yn nodi'r amrywiad mewn cyrhaeddiad ar

[180] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.37.
[181] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/34.
[182] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[183] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[184] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.12.

draws gwasanaethau'r BBC a grwpiau demograffig. Mae rhagor o wybodaeth yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol cysylltiedig.

**Ffigur 2: Tabl yn dangos yr amrywiad mewn cyrhaeddiad ar draws gwasanaethau'r BBC a grwpiau demograffig**

| | Oedolion 16+ oed | 16-34 | 35-54 | 55+ oed | Oedolion AB | Oedolion DE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Unrhyw beth gan y BBC** | 86% | 78% | 85% | 92% | 91% | 79% |
| **Sianeli teledu'r BBC** | 55% | 24% | 51% | 81% | 55% | 57% |
| **BBC iPlayer** | 29% | 23% | 33% | 32% | 37% | 21% |
| **Radio'r BBC** | 56% | 42% | 56% | 67% | 66% | 46% |
| **BBC Sounds** | 21% | 20% | 20% | 23% | 25% | 15% |
| **Apiau/Gwefannau** | 71% | 56% | 74% | 80% | 78% | 61% |

Ffynonellau: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC; Barb, ar adeg gwylio, meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer sianeli teledu a BBC iPlayer, 15+ munud yn olynol; RAJAR (oedolion 15+ oed); Arolwg Sain Ofcom 2024; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, cyrhaeddiad misol ym mis Mawrth 2024, defnyddwyr y rhyngrwyd 15+ oed yn y DU, ac eithrio cynnwys wedi'i ddosbarthu, a gwefannau ac apiau BBC iPlayer a BBC Sounds

## Mae cynulleidfaoedd yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â darganfod cynnwys newydd gan y BBC

O dan y Drwydded Weithredu newydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei bod yn hawdd darganfod ei gynnwys gwreiddiol a wneir yn y DU ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Ar y cyfan, mae cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr gadarnhaol i wasanaethau ar-lein y BBC ar gyfer darganfod cynnwys newydd a phwysig. Dywedodd tua thri o bob pump (59%) o wylwyr yn ystod y chwe mis diwethaf fod BBC iPlayer wedi perfformio'n dda o ran darparu *rhaglenni nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt o'r blaen*, a dywedodd cyfran fymryn yn is (53%) yr un peth ynglŷn â *rhaglenni sy'n wahanol i'r rhai y byddaf yn eu gwylio fel arfer*. Mae'r sgoriau hyn i gyd yn weddol debyg i sgoriau gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Ar gyfer y ddau osodiad, mae cynulleidfaoedd iau yn fwy tebygol o roi sgôr dda i BBC iPlayer, o gymharu â chynulleidfaoedd hŷn.[185] Mae tua chwech o bob 10 o ddefnyddwyr BBC Sounds (57%) yn dweud ei fod yn dda ar gyfer darganfod cerddoriaeth newydd.[186] Mae tua hanner (47%) defnyddwyr BBC iPlayer yn rhoi sgôr dda iddo am ei ddewisiadau personoli.[187]

Mae'r BBC wedi nodi bod cynnwys a brynir yn rhan bwysig o'i ddull o ddenu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a'u helpu i ddarganfod cynnwys newydd gan y BBC na fyddent wedi dod ar eu traws fel arall o bosibl. Amlinellodd y BBC y bydd defnyddwyr anfynych BBC iPlayer sy'n defnyddio'r gwasanaeth i wylio rhaglen a brynwyd fel arfer yn mynd yn eu blaen i wylio pedair rhaglen arall, ar gyfartaledd, yn ystod y 13 wythnos nesaf.[188]

---

185 Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023; y gosodiad *'rhaglenni nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt o'r blaen'* 16-34 oed (65%) o gymharu â 55+ oed (55%) a'r gosodiad *'rhaglenni sy'n wahanol i'r rhai y byddaf yn eu gwylio fel arfer'* 16-34 oed (59%) o gymharu â 55+ oed (47%).
186 Arolwg Sain Ofcom 2024.
187 Arolwg Fideo-ar-alw Ofcom 2024.
188 BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.38.


## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Eleni, gwnaeth y BBC fodloni ei holl ofynion o dan PP3. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

# DIBEN CYHOEDDUS 4

**Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol pob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU**

### Lledaeniad gweithlu'r BBC ar draws y DU




### Sgoriau i'r BBC am gyflawni Diben Cyhoeddus 4

Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU
59% CADARNHAOL

Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw
54% CADARNHAOL

Yn adlewyrchu bywydau pobl fel fi
50% CADARNHAOL

Yn darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi
56% CADARNHAOL

### Gwasanaethau mynediad teledu ar y BBC yn 2023

| | Cwota | BBC ONE | BBC TWO |
|---|---|---|---|
| Iaith arwyddion | 5% | 6.2% | 5.5% |
| AD | 10% | 22.5% | 27% |
| Is-deitlau | 100% | 100% | 100% |

### Sgoriau cadarnhaol bod y BBC 'yn cynnwys pobl fel fi'

55% yn gyffredinol


50% o gynulleidfaoedd C2DE

52% o gynulleidfaoedd anabl


50% o gynulleidfaoedd LDH

54% o gynulleidfaoedd 16-34 oed

### Bodlonrwydd â newyddion lleol ar orsafoedd teledu a radio rhanbarthol y BBC




### Cyfran oriau rhwydwaith a gwariant cymwys y BBC a wneir y tu allan i Lundain



Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a ddarparwyd mewn ymateb i arolwg cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / gweithlu gwasanaethau cyhoeddus y DU Ofcom 2024. Data gweithwyr 'gweladwy' cyfanredol ar gyfer 31 Mawrth 2024; Ffurflenni darlledwyr a gyflwynwyd i Ofcom; Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024 *DS Roedd y cwestiwn ar radio lleol yn cyfeirio at 'Fwletinau newyddion ar un o orsafoedd radio lleol y BBC' yn Lloegr, ac fe'i newidiwyd i gyfeirio at BBC Radio Scotland/Ulster/Foyle/Cymru neu Wales.

**Crynodeb PP4**

- Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad cynulleidfaoedd yn dal yn uchel ym mhob un o'r gwledydd ac mae 59% o oedolion y DU yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am adlewyrchu bywyd a diwylliannau cymunedau ledled y DU. Roedd gwariant yn y gwledydd wedi aros yn gyson o un flwyddyn i'r llall.
- Mae'r BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau ar gyfer comisiynu amrywiol ond mae mwy i'w wneud o hyd i gynrychioli pobl anabl a'r rheini o gefndir dosbarth gweithiol yn well oddi ar y sgrin / oddi ar yr awyr. Rydym yn dal i ddisgwyl cael cynllun amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i ddiweddaru ar gyfer y gweithlu dros y blynyddoedd nesaf.
- Mae newidiadau'r BBC wedi ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'w gynnwys lleol a'i gynnwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar ei wasanaethau ar-lein, er enghraifft, ychwanegu gwasanaethau rheilen lleol ar BBC Sounds.

***Mae'r** Siarter Frenhinol **yn datgan: Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, wrth gomisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.***

Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi perfformio o ran Diben Cyhoeddus Pedwar (PP4). Rydym yn amlinellu datblygiadau diweddar ac wedyn yn rhoi trosolwg lefel uchel o berfformiad y BBC o ran ei ofynion ar gyfer amrywiaeth a chynhyrchu a rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau**.**

## PP4 eleni: Prif uchafbwyntiau a datblygiadau ar gyfer 2023/24

Yn unol â'i ymrwymiad i wella cynrychiolaeth a phortreadu a chynyddu amrywiaeth, darparodd y BBC amrywiaeth o raglenni ar draws ei wasanaethau, er enghraifft *Rose Ayling-Ellis: Signs for change* a helpodd gynulleidfaoedd i ddeall pobl sydd ag amhariad ar y clyw, a hyrwyddo diwylliant du Prydain drwy raglenni radio fel *The Carnival Family*. Roedd hefyd yn darparu rhaglenni sy'n helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys Penwythnos Mawr BBC Radio 1 yn Dundee a'r digwyddiadau allgymorth cysylltiedig i bobl ifanc leol,[189] a darllediadau teledu byw o Rownd Derfynol Pêl-droed Dynion Iwerddon, a ddarlledwyd i gynulleidfa rhwydwaith am y tro cyntaf.[190] Mae wedi parhau i ailddosbarthu'r gwaith o gynhyrchu ei raglenni

[189] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.76.
[190] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.93.

rhwydwaith i wahanol rannau o'r DU yn 2023/24. Lansiodd BBC Radio 2 ddwy elfen allweddol yn ystod y dydd yn Birmingham a chafodd blwyddyn gyntaf ei sioe frecwast gynnar newydd ei darlledu o Gaerdydd. Mae canolfan cerddoriaeth glasurol BBC Radio 3 yn Salford wedi ehangu ac mae *The Listening Service* a *Words and Music* wedi symud mwy o allbwn i Salford. Hefyd, mae BBC Asian Network wedi cael ei gyfuno'n un ganolfan yn Birmingham.

# Amrywiaeth

## Mae cynrychiolaeth a phortreadu yn dal yn bwysig i gynulleidfaoedd

Mae gan y BBC ran i'w chwarae o ran adlewyrchu cymdeithas y DU iddi hi ei hun a dod â'r genedl ynghyd. Mae 70% o oedolion yn y DU yn dweud ei bod yn bwysig i gymdeithas bod y BBC yn darparu '*cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU*'.[191] Mae ein dadansoddiad yn dangos bod cysylltiad agos rhwng argraff gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC a darparu cynnwys sy'n berthnasol iddynt, ac sy'n cynnwys pobl fel nhw, sy'n dangos pa mor bwysig yw bod y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd y DU yn ei allbwn. Er bod mwyafrif (59%) o oedolion yn y DU yn credu bod y BBC yn cynrychioli bywydau cymdeithas y DU,[192] mae bodlonrwydd â PP4 yn is nag ar gyfer y Dibenion Cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, o gymharu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae'n ymddangos bod y BBC yn perfformio'n weddol debyg o ran amrywiaeth, ar gyfer sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer.[193]

Mae'n ofynnol i'r BBC fesur ac adrodd ar grwpiau cynulleidfaoedd sy'n llai bodlon ar wasanaethau'r BBC nag eraill[194][195] ac rydym hefyd yn monitro agweddau cynulleidfaoedd at y ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae Ffigur 3 isod yn dangos agweddau tuag at y BBC o ran *'cynnwys sy'n berthnasol i mi'.*[196]

**Ffigur 3: % o bob grŵp cynulleidfa sy'n rhoi sgôr gadarnhaol neu negyddol i'r BBC ar gyfer y gosodiad *darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi***

| | Cyffredinol | 16-34 | 35-54 | 55+ oed | ABC1 | C2DE | Ethnig Leiafrifol | Gwyn | Anabl | Ddim yn anabl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadarnhaol % (7-10) | 56% | 53% | 56% | 60% | **60%** | **52%** | 59% | 56% | 53% | 58% |

[191] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[192] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24, cwestiwn: '*cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU'.*
[193] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023; er enghraifft, y gosodiad *'rhaglenni sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol',* sianeli teledu'r BBC (59%), sianeli teledu ITV (52%), sianeli teledu Channel 4 (55%) a sianeli teledu Channel 5 (44%). Yr un gosodiad ar gyfer BBC iPlayer (63%), ITVX neu ITVX Premium (54%), Channel 4 neu wasanaeth ffrydio Channel 4+ (62%), My5 (56%).
[194] Yn llai bodlon ar y BBC o gymharu â chyfartaledd y DU a/neu grwpiau eraill.
[195] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24, t.148
[196] Dangosir data ychwanegol yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Negyddol % (1-4) | 19% | 18% | 19% | 19% | 17% | 21% | **10%** | 20% | **24%** | **16%** |

*Ffynhonnell: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24. Mae'r sgoriau'n seiliedig ar gynulleidfaoedd yn dewis sgôr rhwng 1 a 10 ar gyfer gosodiad. Mae* **trwm** *yn dangos cryn wahaniaeth i'r ffigur cyffredinol.*

## Mae'r BBC yn cyflawni ei ymrwymiadau ar gyfer comisiynu amrywiol

Mae'r BBC wedi gwneud nifer o ymrwymiadau parhaus yn ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP), gyda'r nod o gynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU mewn ffordd ddilys. Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud ag amrywiaeth ar yr awyr/ar y sgrin a'r timau cynhyrchu sy'n creu'r cynnwys hwnnw. Eleni, mae'n dweud ei fod bellach yn cyflawni ei holl ymrwymiadau[197] a bod cynrychiolaeth pobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ar y sgrin wedi gwella.[198] Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn Adran 2, mae pobl anabl yn benodol yn fwy tebygol na grwpiau eraill o roi





sgôr negyddol i'r BBC. Ar hyn o bryd, nid yw'r ffordd y mae'r BBC yn adrodd ar ddata ar gynrychiolaeth ar y sgrin yn cyfeirio at grwpiau ethnig lleiafrifol penodol – ond rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar sut y gall gynrychioli'r cynulleidfaoedd hyn yn well, yn unol â'i waith ei hun ar hyn.[199]

## Mae'r BBC yn buddsoddi mewn pobl a chynnwys er mwyn hybu amrywiaeth

Rydym yn croesawu'r amrywiaeth eang o fentrau y mae'r BBC wedi ymrwymo iddynt mewn ymdrech i wreiddio amrywiaeth yn wirioneddol yn ei weithlu a'r broses o gomisiynu a chynnwys. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau fel y Gronfa Datblygu Talentau Amrywiol[200], y Prosiect Mynediad Teledu a chynllun *BBC Elevate*.[201] Gwnaethom ddweud y llynedd y bydd angen i'r BBC asesu'n glir pa rai o'i fentrau niferus sy'n cyflawni cynnydd a pha rai nad ydynt yn gweithio, wrth iddo ddatblygu ei

---

[197] Gweler Atodiad 1 yr adroddiad hwn i gael rhagor o fanylion.
[198] Mae'r BBC yn dweud bod data Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol yn dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn cynrychiolaeth wirioneddol ar y sgrin i anabledd (o 8.8% yn 2022/23 i 9.2% yn 23/24) ac ethnigrwydd (o 27.9% yn 22/23 i 29.3% yn 23/24). System ar-lein a gaiff ei defnyddio gan nifer o ddarlledwyr i gasglu data ar amrywiaeth ar gyfer y rhaglenni a gomisiynir ganddynt yw Diamond.
[199] Gweler adroddiad BAME We're Not the Same a'r adolygiad o derminoleg.
[200] Cronfa o £2.3m er mwyn helpu cwmnïau cynhyrchu i ddatblygu tangynrychiolaeth ar y sgrin ac oddi arni, gan gynnwys awduron, actorion, cyflwynwyr a chyfranwyr, drwy fentrau wedi'u targedu.
[201] Cynnig lleoliadau cynhyrchu ar ganol gyrfa i unigolion byddar, anabl a/neu niwrowahanol.

strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant newydd a'i rhoi ar waith. Eleni, mae'r BBC yn cyflwyno rhywfaint o asesiad, er enghraifft nifer y cyfranogwyr sydd wedi cael eu dyrchafu yn ei Raglen Sbarduno. Byddem yn croesawu gwerthusiad mwy cynhwysfawr o'r mentrau hyn y flwyddyn nesaf, yn enwedig ar dangynrychiolaeth barhaus pobl anabl[202] a phobl o gefndir dosbarth gweithiol (gweler data'r gweithlu isod).

Eleni, gwnaeth cyfran uwch o gynyrchiadau (82%) gyrraedd targed y BBC o 20% o dimau cynhyrchu amrywiol (gan gynnwys grwpiau ethnig lleiafrifol, pobl anabl a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel). Cafodd adroddiadau Diwedd Cynhyrchu (EoP), sy'n rhoi manylion am gyflawni ymrwymiadau amrywiaeth, eu cwblhau ar gyfer 97% o gynyrchiadau annibynnol cymwys yn 2023/24, o gymharu â 50% yn 2022/23.[203] Mae'r adroddiadau hyn yn allweddol er mwyn dangos amrywiaeth ei gyflenwyr, ac mae'r BBC wedi nodi'r camau y bydd yn eu cymryd pan na chaiff yr ymrwymiadau eu cyflawni.[204]

Mae'r BBC wedi cwblhau ei ymrwymiad tair blynedd i fuddsoddi £112m mewn cynnwys amrywiol ar y teledu a'r radio ac wedi buddsoddi £243.3m mewn gwirionedd, gan ragori'n sylweddol ar ei gynlluniau.[205] Yn dilyn hynny, comisiynodd Ganolfan Amrywiaeth Cyfryngau Lenny Henry i gynnal adolygiad o effaith yr ymrwymiadau hyn. Gwnaeth yr adolygiad nodi cyfres o argymhellion ar y ffyrdd gorau i'r BBC ddylunio, hyrwyddo, gweithredu a monitro buddsoddiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae'r BBC bellach wedi datblygu ymrwymiadau amrywiaeth greadigol newydd sy'n cynyddu ei ymrwymiad i £80m y flwyddyn ac sy'n codi'r targedau ar gyfer timau cynhyrchu teledu o ran ethnigrwydd, anabledd, ac amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn yr holl rolau cynhyrchu. Mae hefyd wedi cyhoeddi egwyddorion cynhyrchu cynhwysol newydd sydd â'r nod o feithrin diwylliant cynhwysol ym mhob cynhyrchiad. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn ac, yn benodol, y nod o sicrhau cysondeb rhwng adrodd straeon amrywiol ar yr awyr a chynrychiolaeth gryfach oddi ar yr awyr mewn rolau cynhyrchu uwch ac arweinyddiaeth o fewn cwmnïau cynhyrchu.

Yn ei weithlu ei hun, Mae cynrychiolaeth cefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol o fewn y BBC yn sefydlog yn gyffredinol, gyda 27% o'r staff a roddodd wybodaeth yn dod o gefndir dosbarth gweithiol (fymryn yn llai na'r 28% y llynedd), o gymharu â chyfartaledd y boblogaeth sy'n gweithio, sef 39%.[206] Daeth cynllun amrywiaeth a chynhwysiant y BBC i ben yn 2023 ac mae'r cynllun newydd bellach yn hwyr; cawn ar ddeall bod cynllun newydd yn dal i gael ei ddatblygu. Fel yn yr adroddiad y llynedd, rydym yn annog y BBC unwaith eto i osod nodau newydd beiddgar a heriol iddo'i hun er mwyn parhau i sbarduno cynnydd.

# Gwledydd a Rhanbarthau

Gwnaethom dynnu sylw at gynnydd y BBC o ran ei gynlluniau Ledled y DU a'i gynlluniau cynnwys effaith fawr yn Adran 2. Yn yr adran hon, rydym yn adrodd ar y ffordd y mae'r BBC wedi darparu ar

---

[202] Mae'n dal ar 10% o'r bobl a roddodd wybodaeth, o gymharu â 18% o'r boblogaeth oedran gweithio.
[203] Cyflwynwyd adroddiadau EoP ym mis Ebrill 2022.
[204] Er ein bod yn nodi bod y BBC yn dweud nad yw wedi dod ar draws cynhyrchwyr yn diystyru gofynion, nodwn y gall fod problemau y tu hwnt i reolaeth cynhyrchwyr sy'n effeithio ar gyflawni.
[205] Nod Ymrwymiad Amrywiaeth Greadigol y BBC (a lansiwyd ym mis Ebrill 2021 ac a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024) oedd buddsoddi o leiaf £112m o gyllidebau comisiynu presennol mewn cynnwys amrywiol ar y teledu a'r radio.
[206] Nid oes modd cymharu'r ffigurau a ddefnyddiwn yn yr adroddiad hwn i ddisgrifio gweithlu'r BBC yn uniongyrchol â'r rhai yn adroddiadau'r BBC ei hun yn ei Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb ("EIR"). Gweler yr Atodiad cydymffurfio am fanylion.

gyfer cynulleidfaoedd a'r sectorau creadigol mewn perthynas â'i ofynion o dan PP4 ledled y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn yr adran a ganlyn rydym yn nodi mwy am waith y BBC ym mhob un o'r gwledydd unigol.

## Mae'r BBC yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys rhwydwaith ledled y DU

Mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau y caiff cyfran benodol o'i wariant a'i allbwn o ran cynnwys teledu ei gwneud y tu allan i Lundain, a elwir yn gwotâu cynhyrchu rhanbarthol. Yn 2023, gwnaeth y BBC fodloni ei ofynion ym mhob gwlad, a gwnaeth cyfanswm y gwariant y tu allan i Lundain ar gynyrchiadau rhwydwaith cymwys gynyddu o 58% yn 2022 i 60% yn 2023. Roedd cyfran y gwariant rhwydwaith cymwys wedi cynyddu i bob gwlad, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghymru – wedi codi o 5.4% yn 2022 i 7.9% yn 2023, wedi'i sbarduno'n bennaf gan deitlau drama fel *Wolf*. Er bod nifer yr oriau rhwydwaith cymwys a wnaed y tu allan i Lundain wedi disgyn yn 2023 – yn bennaf oherwydd bod 2022 yn flwyddyn drom o ran chwaraeon – roedd hyn yn dal yn agos at ei lefel uchaf mewn termau cyfrannol, sef 69% o oriau rhwydwaith cymwys. Roedd buddsoddiad mewn cynyrchiadau rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi'i wasgaru'n dda rhwng gwahanol genres, o ran oriau a gwariant.[207]

Gwnaeth y BBC hefyd fodloni ei ofynion o ran radio rhwydwaith ar gyfer gwariant y tu allan i'r M25 yn 2023/24, gan gyrraedd 38.5% (39% yn 2022/23).[208] Fel y nodir yn adran 2, mae'r BBC wedi adleoli rhai o'i raglenni radio rhwydwaith i ganolfannau rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys Caerdydd, Birmingham a Salford.[209]

Fel y nodwyd gennym y llynedd, o dan ei gynllun ATUK, ymrwymodd y BBC i ddarparu cyfres ddrama hirsefydlog i'r gwledydd o fewn tair blynedd o fis Mawrth 2021 ymlaen. Mae wedi dweud wrthym ei fod yn debygol o gyhoeddi hyn yn ei Adroddiad Blynyddol 2024/25.

## Roedd y gwariant ar raglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn sefydlog yn 2023, ond bu lleihad mewn allbwn

Roedd y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU a ddarlledwyd am y tro cyntaf ac a gynhyrchwyd ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2023 yn cyd-fynd â 2022, gyda chynnydd bach yng Nghymru a'r Alban yn cael ei wrthbwyso gan leihad yn Lloegr. Yn unol â strategaeth effaith uchel y BBC, mae allbwn gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 4% ers 2022.

---

[207] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[208] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.81.
[209] BBC, Delivering our Mission & Public Purposes 2023/24, t.83.

Yn y pedair gwlad, ar gyfer teledu, gwnaeth gwariant ar newyddion a materion cyfoes gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf leihau 3% a 19% yn y drefn honno.[210] Hefyd, gwnaeth lefel allbwn newyddion a materion cyfoes rhanbarthol y BBC ostwng 4% yn 2023, o 5,414 awr i 5,189 awr. O fewn hyn, gwnaeth oriau newyddion leihau 4% o un flwyddyn i'r llall (o 4,951 i 4,763), a gwnaeth oriau materion cyfoes leihau 8% (o 463 i 426). Roedd y gostyngiad mewn allbwn newyddion yn Lloegr yn cael ei sbarduno'n bennaf gan ddiwedd rhaglenni newyddion rhanbarthol penodol ar y teledu ar gyfer Caergrawnt a Rhydychen wrth i'w bwletinau newyddion gael eu cyfuno â'r rheini mewn ardaloedd cyfagos. Gostyngodd yr allbwn materion cyfoes yn Lloegr o ganlyniad i benderfyniad y BBC i beidio ag adnewyddu'r gyfres materion cyfoes *We Are England*. Yn Adran 2, gwnaethom drafod y newidiadau y mae'r BBC wedi bod yn eu gwneud i newyddiaduraeth ymchwiliol yn rhanbarthau Lloegr, ond mae'n dal yn rhy gynnar i asesu eu heffeithiau. Felly, byddwn yn parhau i fonitro'r effaith ar gynulleidfaoedd dros y flwyddyn nesaf. Roedd cyfanswm allbwn newyddion a materion cyfoes yn y gwledydd eraill yn fwy sefydlog.



Yn 2023/24, y traffig wythnosol cyfartalog i newyddion ar-lein y BBC ar gyfer y gwledydd oedd 18.2 miliwn o ymwelwyr unigryw ledled y DU.[211] Canfu ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion fod 40% o oedolion yn y DU yn defnyddio'r BBC i gael newyddion am eu gwlad; mae hyn ar ei uchaf ymysg oedolion yng Ngogledd Iwerddon (51%), ac yn is ymysg oedolion yn Lloegr (39%), Cymru (41%) a'r Alban (44%).[212] Rydym wedi parhau i fonitro canfyddiadau cynulleidfaoedd o newyddion lleol a rhanbarthol. Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, mae tua hanner (53%) oedolion yn y DU yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r BBC o ran darparu *newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn fy ardal leol*. Mae tua un o bob pump (19%) yn dal yn teimlo'n negyddol ynglŷn â'r BBC o ran hyn, gan godi i chwarter (26%) yng Nghymru.[213] Wrth edrych ar fathau penodol o gynnwys y BBC, mae'r rhan fwyaf o oedolion sy'n dilyn newyddion lleol ar sianeli teledu rhanbarthol y BBC (83%) neu ar ei orsafoedd radio ar gyfer y gwledydd neu ei orsafoedd radio lleol (82%) yn dweud eu bod yn fodlon ar safon y newyddion lleol a ddarperir ganddynt. Mae cyfran debyg yn dweud yr un peth am raglenni materion cyfoes/gwleidyddiaeth ar gyfer eu rhanbarth ar sianeli teledu'r BBC (79%).[214].

Ar gyfer genres nad ydynt yn newyddion / nad ydynt yn faterion cyfoes, gwnaeth gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf gynyddu ychydig ar y cyfan ond gydag amrywiadau

[210] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[211] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes, 2023, t.86.
[212] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.
[213] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/23.
[214] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

rhwng y gwledydd. Fodd bynnag, gwnaeth cyfanswm yr allbwn leihau.[215] Mae'r lleihad hwn yn gyson â'r hyn a nodwyd gan y BBC yn ei gais i wneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu yn 2022.[216] Yn unol â'i strategaeth effaith fawr, esboniodd y byddai allbwn ar wasanaethau ar gyfer ardaloedd penodol yn lleihau fymryn wrth iddo ganolbwyntio ar ddarparu llai o oriau cynrychiolaeth a phortreadu, ond oriau sy'n cael effaith fawr, ar y gwasanaethau ar gyfer ardaloedd penodol a'r rhwydwaith.

Gwnaeth gwariant ar gynnwys radio lleol leihau 2% o un flwyddyn i'r llall, nes cyrraedd cyfanswm o £196m, a hynny wedi'i sbarduno'n bennaf gan newidiadau i orsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr a drafodwyd yn Adran 2. Cynyddodd buddsoddiad cysylltiedig mewn cynnwys ar-lein bron i 4% yn 2023/24 mewn termau nominal, gyda'r twf mwyaf yn yr Alban.[217]

## Er bod cyrhaeddiad cyffredinol ym mhob gwlad yn dal yn uchel, mae rhai agweddau'n amrywio rhyngddynt

Mae cyrhaeddiad ar draws llwyfannau ym mhob gwlad yn dal yn uchel yn gyffredinol, gan amrywio o 83% o oedolion yn defnyddio gwasanaethau'r BBC bob wythnos yn yr Alban i 87% yng Nghymru,[218] er bod amrywiadau ar gyfer gwasanaethau penodol ledled y gwledydd a'r rhanbarthau. Er enghraifft, gorllewin Lloegr sydd â'r cyrhaeddiad wythnosol uchaf ar gyfer sianeli teledu'r BBC (67%), a Llundain sydd â'r cyrhaeddiad isaf (57%);[219] ar gyfer radio, De-ddwyrain Lloegr sydd â'r cyrhaeddiad wythnosol uchaf (68%), a Llundain sydd â'r isaf (49%).[220] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad perfformiad rhyngweithiol.

Mae'n galonogol gweld am y drydedd flwyddyn fod argraffiadau cyffredinol o'r BBC yn dal yn gyson ledled y gwledydd, gyda thua thri o bob pump yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC, ac un o bob chwech yn rhoi sgôr negyddol.[221] Fodd bynnag, ceir amrywiadau rhwng rhanbarthau Lloegr, gyda phobl yng Ngogledd Lloegr yn llai tebygol o deimlo'n gadarnhaol (55%) a phobl yng Nghanolbarth Lloegr yn fwy tebygol o deimlo'n gadarnhaol (70%). Fodd bynnag, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, ceir rhai gwahaniaethau rhwng agweddau penodol ar ddarpariaeth ledled y gwledydd.[222] Er enghraifft, mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn fwy tebygol o roi sgôr negyddol i'r BBC am gael cynnwys sy'n berthnasol iddyn nhw neu sy'n 'cynnwys pobl fel fi', sef rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro yn y dyfodol.[223]

## Mae'r BBC yn helpu cynulleidfaoedd y DU i ddarganfod cynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar-lein

O dan y Drwydded Weithredu newydd, mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau ei bod yn hawdd darganfod newyddion, gwybodaeth a chwaraeon ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau

[215] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[216] Ofcom, Ymgynghoriad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu, 2022.
[217] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[218] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[219] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno. Ardaloedd y BBC. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud.
[220] RAJAR.
[221] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[222] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.
[223] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24.

Lloegr ar wasanaeth ar-lein y BBC. Mae hefyd yn ofynnol iddo sicrhau ei bod yn hawdd darganfod cynnwys Cymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg a Sgoteg Ulster ar wasanaeth ar-lein y BBC.

Gwnaeth y BBC nodi gwybodaeth am ba mor hawdd yw darganfod cynnwys yn ei adroddiad DoMaPP, er enghraifft cyfeiriodd at lansio teitlau dwyieithog ar BBC iPlayer ar gyfer BBC ALBA er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod cynnwys Gaeleg.[224] Mae personoli hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn null y BBC o sicrhau ei bod yn hawdd darganfod cynnwys ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Ar BBC Sounds, caiff cynnwys ei arddangos ar reiliau pwrpasol ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr. Mae'r cynnwys sydd ar gael ar y rheiliau hyn yn dibynnu ar godau post proffiliau mewngofnodi defnyddwyr. Ar wefan ac ap BBC Sport, gall cynulleidfaoedd ddarganfod cynnwys chwaraeon ar gyfer rhanbarthau Lloegr drwy dudalennau byw. Mae bellach yn haws darganfod straeon newyddion ar-lein ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau drwy dagiau chwiliadwy, er enghraifft yn ôl tref ac ardal, er mwyn gwneud cynnwys perthnasol yn fwy hygyrch ac yn fwy perthnasol i gynulleidfaoedd.

## Cydymffurfio ag amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol a nodir yn y Drwydded Weithredu. Eleni, gwnaeth y BBC fodloni pob un ond un o'i ofynion o dan PP4. Ni wnaeth fodloni'r amod i sicrhau bod 1,043 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle gan mai dim ond 743 awr a ddarparwyd. Mae ein hasesiad cyffredinol o gydymffurfiaeth y BBC â'r Drwydded Weithredu i'w weld yn Atodiad 1.

---


[224] Mae'r enghreifftiau'n cynnwys *Fuaim na Fèise / Scotland's Festivals* a *Druthag na Hearadh / A Little Drop of Harris*.

# 4. Y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Ar y tudalennau a ganlyn rydym yn nodi sut mae'r BBC wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob un o'r pedair gwlad yn ogystal â phwyntiau data allweddol ar berfformiad y BBC. Mae hyn yn wahanol i'n hasesiad o berfformiad y BBC o dan Ddiben Cyhoeddus 4.

# GOGLEDD IWERDDON


## Cyrhaeddiad cyfartalog ffynonellau'r BBC yng Ngogledd Iwerddon




Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC | Cyrhaeddiad o 67%


BBC RADIO FOYLE | BBC RADIO ULSTER | Cyrhaeddiad o 30%

## Oriau a gwariant gwreiddiol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yng Ngogledd Iwerddon






## Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon




## Cyfran rhaglenni Cyfres y BBC *Once Upon a Time in Northern Ireland*, yng Ngogledd Iwerddon




## Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yng Ngogledd Iwerddon

'Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU'

65% CADARNHAOL

'Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw'

60% CADARNHAOL

Argraff gyffredinol yng Ngogledd Iwerddon

63% CADARNHAOL

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2024, dewis personol a ddiffinnir gan Ofcom; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2023/24; Traciwr Perfformiad Plant y BBC 2023/24.

## Mae cynulleidfaoedd yn dal i deimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r BBC ac mae ei wariant a'i allbwn o ran teledu rhwydwaith wedi aros yn sefydlog rhwng 2022 a 2023

Mae dwy ran o dair (65%) o gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn gadarnhaol at y BBC am ei ddarpariaeth o *'gynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU'*, gyda chyfran ychydig yn is yn dweud yr un fath am *'gynnwys sy'n cynnwys gwlad/rhanbarth y DU yr wyf yn byw ynddi'*.[225] Yn 2023, roedd 4.2% o wariant cymwys y BBC ar gynyrchiadau rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon (cynnydd o 0.3 pwynt canran ers 2022) a gwnaeth y BBC hefyd gyrraedd ei gwota o 3.0% ar gyfer cynhyrchu oriau rhwydwaith cymwys yng Ngogledd Iwerddon.[226]

## Gwnaeth BBC Northern Ireland gynhyrchu rhaglenni a enillodd wobrau

Eleni, cynhyrchodd BBC Northern Ireland 11 o gyd-gomisiynau (dau yn llai na 2022/23) gan gynnwys y gyfres ddogfen a enillodd BAFTA, *Once Upon a Time in Northern Ireland,* a archwiliodd hanes yr Helyntion drwy ddeunydd archif a straeon dioddefwyr a goroeswyr, gan ddenu cyfran o 24.2% o wylwyr ar y pryd yng Ngogledd Iwerddon, a 5.8% yn y DU.[227] Ar draws y DU, roedd gan y rhaglen gynulleidfa o 3.6 miliwn ar gyfartaledd ar BBC iPlayer ar draws 2023.[228] Cafoedd ei sgrinio mewn ysgolion mewn cydweithrediad rhwng y BBC ac Awdurdod Addysg Gogledd Iwerddon i wella dealltwriaeth plant o orffennol Gogledd Iwerddon.

## Gwnaed newidiadau i BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle, ond gwnaeth y BBC dorri un o amodau ei drwydded


Eleni, cyflwynwyd newidiadau i amserlenni BBC Radio Ulster gyda'r nos ac ar benwythnosau. Yn dilyn newidiadau i raglenni newyddion y bore y llynedd, lansiodd y BBC raglen newyddion frecwast awr o hyd o'r enw *North West Today* ar BBC Radio Foyle ym mis Ionawr. Nod hyn oedd cynyddu newyddion a dadansoddi lleol o ranbarth Gogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Ym mis Mehefin, dywedodd y BBC wrthym ei fod wedi torri'r amod sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle drwy fethu â bodloni'r cwota; ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1. Mae cyrhaeddiad wythnosol y gwasanaethau hyn wedi aros yn sefydlog ar 30% o boblogaeth Gogledd Iwerddon dros y flwyddyn ddiwethaf.[229] Darlledodd 260 awr o raglenni mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol, gan gynnwys Gwyddeleg a Sgoteg Ulster – cynnydd o 12 awr o gymharu â'r llynedd ac 20 awr yn fwy na'r cwota.[230]

## Lansiwyd cynllun 'Hot House' er mwyn helpu i ddatblygu sector cwmnïau annibynnol Gogledd Iwerddon

Bu BBC Northern Ireland yn gweithio gyda Northern Ireland Screen ar fenter Hot House, sef rhaglen ddatblygu sy'n cefnogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol lleol i sicrhau comisiynau rhwydwaith. Cyflwynodd y fenter hon bum rhaglen newydd heb eu sgriptio a gafodd eu cyd-gomisiynu â BBC

[225] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24
[226] Ofcom/BBC.
[227] Barb, ffigurau gwylio 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig.
[228] Barb, ar adeg gwylio, pob dyfais, cynulleidfa gyfartalog gronedig drwy gydol y cyfnod cyfan.
[229] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/24, t.163.
[230] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.124.

Factual a BBC Northern Ireland i'w darlledu ar wasanaethau rhwydwaith y BBC a BBC Northern Ireland i gynulleidfaoedd ledled y DU. Y pum cwmni annibynnol llwyddiannus oedd *Below the Radar*, *DoubleBand Films*, *Stellify Media*, *Alleycats Films* a *Walk On Air Films*.




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2024,

dewis personol a ddiffinnir gan Ofcom; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2023/24; Traciwr Perfformiad Plant y BBC 2023/24

## Gwnaeth dramâu'r BBC o Gymru helpu i roi hwb i wariant ac allbwn teledu rhwydwaith yng Nghymru eleni

Cynyddodd cyfran gwariant rhwydwaith cymwys yng Nghymru i 7.9% yn 2023 (cynnydd o 2.5 pwynt canran ers 2022) a chynyddodd cyfran yr oriau rhwydwaith cymwys yng Nghymru 0.6 pwynt canran i 6.4%.[231] Cynhyrchodd y BBC 18 o gyd-gomisiynau yng Nghymru, o gymharu â 13 yn 2022/23. Cyflwynodd bedair drama fawr o Gymru ar BBC One, gan gynnwys *Steeltown Murders,* sef drama trosedd go iawn wedi'i lleoli ym Mhort Talbot ac a gydgynhyrchwyd gan y cwmni cynhyrchu o Gymru, Severn Screen, ac All3Media International. Denodd y ddrama gyfran o 24.7% o'r ffigurau gwylio yng Nghymru, sef 5.9 pwynt canran yn uwch na'i chyfran gyfartalog ledled gweddill y DU.[232]

Mae ein gwaith ymchwil wedi canfod bod oedolion yng Nghymru yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o roi sgôr negyddol i'r BBC am gael *'cynnwys sy'n cynrychioli bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU'*, (17% o'i gymharu â 12% i'r DU drwyddi draw) ond bod ganddynt farn debyg i holl oedolion y DU ynghylch *'cynnwys y rhanbarth/gwlad yn y DU lle rwy'n byw' (55% yng Nghymru yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am y datganiad hwn a 54% yn y DU drwyddi draw).*[233]

## Gwnaed newidiadau i BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru 2, a symudwyd mwy o raglenni radio i Gaerdydd

Ym mis Mehefin 2023, gwnaeth BBC Radio Wales ail-lansio *Radio Wales Breakfast*, gyda'r rhaglen newydd yn blaenoriaethu newyddion a materion cyfoes o Gymru, y DU a gweddill y byd. Hefyd, cafodd rhaglen frecwast BBC Radio 1 yn ystod yr wythnos ei symud o Lundain i Gaerdydd, gyda chyflwynwyr newydd, sef Sam MacGregor a Danni Diston, fel rhan o gynlluniau ATUK y BBC. Ym mis Ionawr 2024, cymeradwyodd Ofcom gais gan y BBC i gynyddu nifer yr oriau Cymraeg ar BBC Radio Cymru 2,[234] a chafodd y gwasanaeth newydd ei lansio ym mis Mawrth 2024 (mae rhagor o fanylion am ein penderfyniad i'w gweld yn Adran 5 yr adroddiad hwn).

## Cyhoeddodd y BBC Aelod Bwrdd newydd ar gyfer Cymru

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin mai Michael Plaut fyddai'r aelod newydd o Fwrdd y BBC ar gyfer Cymru, ar ôl i dymor y Fonesig Elan Closs Stephens fel aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd Dros Dro ddod i ben ym mis Mawrth 2024.

## Lansiodd BBC Comedy a Cymru Greadigol Gynllun Partneriaeth Rhanbarthol, a Chaerdydd oedd Dinas Gomedi'r BBC yn 2023

Cyhoeddodd BBC Comedy Gynllun Partneriaeth Rhanbarthol gyda Cymru Greadigol sy'n canolbwyntio ar gefnogi doniau comedi lleol ac amrywio'r cyflenwad o gynyrchiadau. Bydd y cyflenwr comedi Expectation yn gweithio gyda chwmni annibynnol o Gymru, sef Sixteen Media, ar gyd-ddatblygu amrywiol brosiectau comedi. Caerdydd oedd Dinas Gomedi'r BBC yn 2023, a chafodd

[231] Data Ofcom/BBC.
[232] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig.
[233] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2023/24
[234] Ofcom, Datganiad: Cynigion y BBC ar gyfer BBC Radio Cymru 2, 2024.

gŵyl gomedi tridiau o hyd ei chynnal gan y BBC ym mis Mai. Denodd yr ŵyl bron i 6,000 o bobl ac roedd yn cynnwys sgyrsiau dan arweiniad talent, paneli, dangosiadau, nosweithiau ffilmiau byrion, comedi byw a recordiad o BBC Radio 4.

# YR ALBAN

## Cyrhaeddiad cyfartalog ffynonellau'r BBC yn yr Alban

| BBC SIANELI TELEDU | BBC iPLAYER | BBC RADIO | BBC AR-LEIN |
|---|---|---|---|
| Cyrhaeddiad o 61% bob wythnos | Cyrhaeddiad o 26% bob wythnos | Cyrhaeddiad o 52% bob mis | Cyrhaeddiad o 71% bob wythnos |

Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC
Cyrhaeddiad o 65%


BBC YR ALBAN
Cyrhaeddiad o 14%

BBC RADIO YR ALBAN
Cyrhaeddiad o 18%

BBC ALBA
Cyrhaeddiad o 46%*

BBC RADIO NAN GÀIDHEAL
Cyrhaeddiad o 52%*

### Oriau a gwariant gwreiddiol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn yr Alban





**1,263** o oriau rhaglenni

**£66.2m** o wariant ar gynnwys




### Oriau a gwariant rhwydwaith cymwys a gynhyrchwyd yn yr Alban




### Cyfran rhaglenni Cyfres y BBC *Highland Cops*, yn yr Alban






### Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yn yr Alban

'Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant ledled y DU'
58% CADARNHAOL

'Yn cynnwys y rhanbarth/wlad yn y DU lle rwy'n byw'
56% CADARNHAOL

Argraff gyffredinol yn yr Alban
60% CADARNHAOL

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2024, dewis personol a ddiffinnir gan Ofcom; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2023/24; Traciwr Perfformiad Plant y

BBC 2023/24; BBC ALBA a BBC nan Gàidheal: *Panel TRP PRAEG yn seiliedig ar y gymuned Aeleg 16+ oed yn yr Alban.

## Gwnaeth gwariant ac oriau teledu rhwydwaith a gynhyrchwyd yn yr Alban gynyddu, yn ogystal â nifer y cyd-gomisiynau

Yn 2023, gwnaeth cyfran y gwariant rhwydwaith cymwys yn yr Alban gynyddu fymryn i 9%, o gymharu ag 8.4% yn 2022,[235] a gwnaeth cyfran yr oriau teledu rhwydwaith cymwys godi 3 phwynt canran, i 17.3%. Yn yr Alban, cynhyrchodd y BBC 19 o gyd-gomisiynau yn 2023/24, sef saith yn fwy nag yn 2022/23, gan gynnwys *Highland Cops*, sef cyd-gomisiwn gan BBC Scotland a BBC Two, a gynhyrchwyd gan Firecrest Films. Ar BBC Two, cafodd gyfran o 10.9% o'r gynulleidfa yn yr Alban, o gymharu â 6.6% yn y DU.[236]

Ymysg oedolion, nid yw canfyddiadau o'r BBC yn wahanol yn yr Alban i weddill y DU. Fodd bynnag, mae plant yn yr Alban yn llai tebygol na'r cyfanswm o deimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r BBC am y datganiad '*mae gan y BBC raglenni sydd â phobl fel fi ynddynt*' (48% o gymharu â 53%).[237]

## Cynhaliwyd *Big Weekend* BBC Radio 1 yn Dundee

Cynhaliwyd *Big Weekend* Radio 1 yn Dundee ym mis Mai 2023, gyda'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Dundee i gynnal y digwyddiad tri diwrnod. Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod wedi denu 33,652 o ymwelwyr unigryw i Dundee, gyda chyfanswm effaith economaidd o £3.7m. Dywedodd hefyd fod 94% o bobl yn fodlon ar y digwyddiad yn gyffredinol. Cyn y digwyddiad, cynhaliodd BBC Radio 1 gyfres o ddigwyddiadau Life Hack yn Dundee a oedd yn cynnwys gweithgareddau allgymorth ynglŷn ag iechyd meddwl wedi'u hanelu at bobl ifanc.

## Dathlodd yr Alban 100 mlynedd o ddarlledu Gaeleg

Cynhaliodd y BBC ddigwyddiadau i ddathlu 100 mlynedd o ddarlledu Gaeleg a chyflwynodd raglenni arbennig ar BBC Radio Nan Gáidheal a BBC ALBA. Hefyd, ymrwymodd i ddarparu rhyngwyneb Gaeleg ar gyfer BBC iPlayer. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd BBC ALBA gomisiwn *An t-Eilean (The Island)*, sef drama drosedd gyffrous wedi'i lleoli yn yr Hebrides Allanol, sy'n cael ei chynhyrchu gan gwmni sydd wedi ennill BAFTA, sef Black Camel Productions, ac sy'n cael ei chefnogi gan Screen Scotland.

## Cyhoeddodd y BBC gyllid ar y cyd ar gyfer teitlau newydd yn yr Alban

Yn unol â strategaeth effaith fawr y BBC, cyhoeddodd BBC Scotland, BBC Content a Screen Scotland ar ddiwedd 2023 eu bod yn bwriadu cydgyllido cyfres adloniant ffeithiol a all ddychwelyd a rhaglenni hanes premiwm sydd wedi'u hanelu at gwmnïau cynhyrchu yn yr Alban.

## Ym mis Awst 2024, gwnaethom gymeradwyo cais y BBC i leihau lefel y newyddion sy'n ofynnol ar sianel BBC Scotland

Mae'r BBC yn lansio rhaglen newyddion rhanbarthol 30 munud newydd am 7pm yn ystod yr wythnos, yn lle'r rhaglen newyddion ddyddiol awr o hyd, *The Nine*. Er mwyn gwneud y newid hwn,

[235] Data Ofcom/BBC.
[236] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig. Darlledwyd *Highland Cops* ar BBC Scotland cyn BBC Two, lle y cafodd gyfran o 9.2% o'r ffigurau gwylio yn yr Alban.
[237] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2023/24

gofynnodd y BBC am amrywiad i'r Drwydded Weithredu, a gymeradwywyd gennym. Ochr yn ochr â hyn, mae'r BBC yn gwneud newidiadau golygyddol, er enghraifft lansio podlediad newydd sy'n canolbwyntio ar faterion cyfoes yn yr Alban.[238] Bydd y newidiadau'n dechrau dod i rym yn gynnar yn 2025 ac rydym yn disgwyl i'r BBC fonitro effaith y newidiadau, gan gynnwys ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig.

[238] Ofcom, Datganiad: Darpariaeth newyddion BBC Scotland*,* 2024*,* t.*3.*

# LLOEGR


## Cyrhaeddiad cyfartalog ffynonellau'r BBC yn Lloegr




Cyrhaeddiad Plant ar draws y BBC | Cyrhaeddiad o 70%


BBC RADIO LLEOL | Cyrhaeddiad o 11%

## Oriau a gwariant gwreiddiol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn Lloegr






## Oriau a gwariant rhwydwaith cynnwys a gynhyrchwyd yn rhanbarthau Lloegr





## Cyfran rhaglenni Cyfres y BBC *Robson Green's Weekend Escapes*






## Argraffiadau cadarnhaol o'r BBC ymysg oedolion yn Lloegr




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Barb (cyrhaeddiad 15+ munud); RAJAR; Ipsos iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, defnyddwyr rhyngrwyd 15 oed a hŷn, Mawrth 2024, dewis personol a ddiffinnir gan Ofcom; Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2023/24; Traciwr Perfformiad Plant y BBC Ofcom 2023/24.

## Gwnaeth gwariant ar deledu rhwydwaith aros yn sefydlog ond mae'r oriau wedi lleihau fymryn rhwng 2022 a 2023

Gwnaeth cyfran y gwariant cymwys yn rhanbarthau Lloegr aros yn sefydlog yn 2023 ar 38.2% (38.0% yn 2022).[239] Fodd bynnag, gwnaeth oriau rhwydwaith cymwys leihau 4.8 pwynt canran i 41.8% er ei fod yn dal gryn dipyn yn uwch na'r cwota o 30%. Yn 2023/24, cyflwynodd y BBC raglenni a oedd yn portreadu gwahanol ranbarthau yn Lloegr, fel *Beyond Paradise* yn Ne-orllewin Lloegr, *This Town* yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a *Boat Story* yn Swydd Efrog a Swydd Lincoln. Un rhaglen boblogaidd oedd ail dymor *Robson Green's Weekend Escapes*, a gafodd gyfran o 15% o'r ffigurau gwylio yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr o gymharu â 9% yn y DU.[240]

## Lansiodd y BBC wasanaethau newyddion ar-lein lleol newydd yn Lloegr

Yn 2022, gwnaeth y BBC amlinellu cynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth newyddion ar-lein leol ar wefan ac ap BBC News mewn 43 o gymunedau ledled Lloegr. Mae bellach wedi gwneud y newidiadau hyn, gan creu tudalennau newyddion ar-lein newydd ar gyfer Wear, Peterborough, Wolverhampton a Bradford, a arweiniodd at gynnydd o 21% mewn traffig ar-lein i straeon newyddion lleol y BBC yn Lloegr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 wrth gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Rydym yn ystyried newidiadau i wasanaethau lleol mewn mwy o fanylder yn Adran 2 yr adroddiad hwn ac yn Rhan dau ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Mae'r BBC wedi symud mwy o raglenni radio allan o Lundain eleni

Lansiodd BBC Radio 1Xtra raglen newydd yn ystod yr wythnos o Birmingham ar ddechrau 2024 ac, erbyn hyn, caiff rhaglenni rhwng 10am a 4pm eu darlledu o'r tu allan i Lundain bob diwrnod o'r wythnos. Yn Salford, comisiynodd BBC Radio 4 raglen newydd o'r enw *Café Hope,* caiff gorsaf BBC 6 Music ei chynhyrchu yno a symudodd rhaglen *Early Breakfast* BBC Radio 1 i Salford ym mis Gorffennaf 2024.

## Darlledodd y BBC Eurovision 2023 o Lerpwl

Ym mis Mai 2023, cynhaliwyd yr *Eurovision Song Contest* yn Lerpwl ar ran Wcráin. Roedd darpariaeth y BBC yn cynnwys rhaglenni byw ar BBC One, BBC iPlayer, BBC Radio 2 a BBC Sounds, ochr yn ochr â phodlediadau cysylltiedig BBC Sounds a sylw arbennig ar BBC Radio Merseyside gan gynnwys sylwebaeth amgen 'Scouse'.[241] Cafodd y digwyddiad ei wylio gan fwy na 10 miliwn o wylwyr teledu[242] ac, yn ei sgil, enillodd y BBC a'r Undeb Darlledu Ewropeaidd wobr Dinas Cerddoriaeth UNESCO ac enillodd y tîm cynhyrchu wobr Digwyddiad Byw BAFTA.

## Ffurfiodd y BBC bartneriaethau newydd yn sector creadigol Lloegr

[239] Data Ofcom/BBC.
[240] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig.
[241] BBC, Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, t.91.
[242] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig.

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cerddorfa Gyngerdd y BBC bartneriaeth â Phrifysgolion Nottingham a Nottingham Trent er mwyn cynnig profiad perfformio, cyfansoddi a chynhyrchu i fyfyrwyr. Gwnaeth y BBC hefyd ffurfio partneriaeth â Create Central a sefydliadau creadigol eraill yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i lansio 'Write Across Birmingham and the Black Country' ym mis Chwefror 2024 er mwyn cefnogi datblygiad hyd at 12 o awduron lleol addawol.

# 5. Diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

**Crynodeb**

- Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gymeradwyo cais BBC Radio Cymru 2 i ymestyn yr oriau sy'n cael eu darlledu yn Gymraeg a dod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn ei rinwedd ei hun.
- Fe wnaethom bennu bod cais y BBC i ymestyn deunydd BBC Radio 2 ar BBC Sounds yn sylweddol ym mis Gorffennaf 2024 gan ddweud wrtho am stopio a chwblhau prawf budd y cyhoedd os oedd am archwilio hyn ymhellach.[243] Fodd bynnag, roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd ei estyniadau arfaethedig i BBC Radio 1 a BBC Radio 3 ar BBC Sounds yn sylweddol, ac y gallai fwrw ymlaen â'r newidiadau. Ym mis Medi 2024, roeddem wedi cytuno â'r BBC nad oedd ei ddatblygiadau Cam 2 arfaethedig i BBC Bitesize yn berthnasol.
- Ar hyn o bryd rydym yn asesu prawf budd y cyhoedd y BBC ar gyfer ei orsafoedd radio DAB+ newydd arfaethedig a'r newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i BBC Radio 5 Sports Extra.
- Rydym yn parhau i fonitro gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC i sicrhau nad ydynt yn cael mantais gystadleuol annheg oherwydd eu perthynas â Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC.

## Cyflwyniad

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi'i nodi yn y Siarter a'r Cytundeb ac mae'n mynnu ein bod yn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU ac yn rhoi rheolau ar waith ar gyfer gweithgareddau masnachol a gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Pan fydd y BBC yn cynnig newid ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus, mae'n gyfrifol am asesu a allai'r newidiadau arfaethedig fod yn 'berthnasol' (asesiad perthnasedd).[244] Disgwylir i rai newidiadau gael eu gwneud i'r Cytundeb Fframwaith o ran perthnasedd a'r prosesau ar gyfer ystyried newidiadau o'r fath. Yn y cyfnod adrodd hwn roedd newid yn sylweddol os oedd y BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Pan oedd newid yn berthnasol, roedd yn rhaid i'r BBC gynnal prawf budd y cyhoedd ac roedd yn rhaid i Ofcom ei adolygu. Yna, roedd yn rhaid i Ofcom gynnal Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach, i asesu a oedd gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym wedi gosod canllawiau ar y gweithdrefnau, yr amserlenni a'r dull gweithredu sy'n berthnasol wrth asesu effaith newidiadau perthnasol.

[243] Adolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o'r ffrydiau cerddoriaeth newydd arfaethedig ar BBC Sounds Ofcom 2024.
[244] Cymal 7(7) y Cytundeb. Mae newid yn berthnasol os yw'r BBC yn lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Os bydd y BBC yn cynnig newidiadau i'w weithgareddau masnachol, efallai y byddwn yn ystyried cynigion i asesu a fyddai ei berthynas â gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn fantais gystadleuol annheg, fel y nodir yn y canllawiau rydym wedi'u cyhoeddi.

Yn y bennod hon rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith diweddar a wnaed o dan ein rhaglen monitro cystadleuaeth y BBC a'r Adolygiad o Gyfryngau Lleol, yn darparu ein hasesiad diweddaraf o'r marchnadoedd clyweledol a sain ac yn adrodd ar weithgareddau'r BBC yn y cyfnod adrodd 2023-24.

# Rhaglen monitro cystadleuaeth y BBC

Cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei Hadolygiad Canol Tymor o Siarter y BBC ym mis Ionawr 2024 ac mae'n disgwyl cyhoeddi Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r Adolygiad Canol Tymor. Rydym yn disgwyl y bydd diweddariadau'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys y canlynol:

1) Dylai Ofcom gael penderfynu a ddylid cynnal asesiad cystadleuaeth y BBC neu asesiad byrrach yn dilyn prawf budd y cyhoedd y BBC.
2) Dylai Ofcom gael y pŵer i ddefnyddio asesiad byrrach i gymeradwyo newid i'r BBC gydag amodau.
3) Nid yw gwasanaethau newydd y BBC yn cael eu hystyried yn newidiadau perthnasol yn awtomatig.

Ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith, rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar y canllawiau diweddaraf ar gystadleuaeth a fydd yn nodi sut rydym yn disgwyl cynnal y prosesau perthnasol yng ngoleuni'r newidiadau hyn.

## Mae'r BBC wedi cynnig gwneud newidiadau i BBC Sounds, i Radio 5 Sports Extra ac i lansio gorsafoedd radio DAB+ newydd

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd y BBC ei fod yn bwriadu lansio estyniadau DAB+ newydd ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3, a fydd hefyd ar gael ar BBC Sounds. Dywedodd ei fod hefyd yn bwriadu ymestyn oriau darlledu BBC Radio 5 Sports Extra.

## Fe wnaethom adolygu asesiad perthnasedd y BBC o'r ffrydiau cerddoriaeth newydd arfaethedig ar BBC Sounds

Ym mis Mai, anfonodd y BBC asesiad perthnasedd i ni o'i ffrydiau estyniad newydd arfaethedig i BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3 ar BBC Sounds ac fe wnaethom ni gyhoeddi ein penderfyniad perthnasedd ym mis Gorffennaf. Fe wnaethom ddweud ein bod yn cytuno â'r BBC nad oedd ei gynigion ar gyfer BBC Radio 1 a Radio 3 yn berthnasol, ac y gallai fwrw ymlaen â'i gynlluniau. Lansiodd y BBC BBC Radio 3 Unwind ar 4 Tachwedd a BBC Radio 1 Anthems ar 8 Tachwedd 2024. Roeddem hefyd yn cytuno nad oedd y newidiadau arfaethedig gan y BBC i'w ffrwd Radio 1 Dance yn berthnasol.

Fodd bynnag, roeddem yn anghytuno â'r BBC ar ei asesiad perthnasedd o ffrwd estyniad BBC Radio 2 a chanfu ei fod yn newid perthnasol. Roeddem wedi dweud wrth y BBC i roi'r gorau i weithredu'r cynnig a chynnal prawf budd y cyhoedd petai'n dymuno lansio'r ffrwd.

## Rydym yn ystyried prawf budd y cyhoedd y BBC ar gyfer ei orsafoedd cerddoriaeth DAB+ newydd a newidiadau i oriau darlledu Radio 5 Sports Extra

Yn gynharach eleni, cynhaliodd y BBC brofion budd y cyhoedd ar y gorsafoedd cerddoriaeth arfaethedig a newidiadau i BBC Radio 5 Sports Extra pan oedd yn ystyried a yw gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Roedd y broses hon yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid. Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad bod y cynigion yn bodloni'r prawf budd y cyhoedd.

Cyhoeddodd y BBC ei gynigion yn ei gyflwyniad PIT ar 21 Tachwedd. Fe wnaethom gyhoeddi gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar yr un diwrnod a byddwn yn cwblhau ein hasesiad cychwynnol erbyn 19 Rhagfyr 2024 ar ffurf briodol asesiad cystadleuaeth, gan ystyried unrhyw fewnbwn gan randdeiliaid. Yna, bydd gennym hyd at chwe mis i gwblhau'r asesiad hwn a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar ein safbwynt dros dro cyn dod i benderfyniad terfynol.

## Fe wnaethom gyhoeddi ein barn ar ddatblygiadau BBC Bitesize

Yn dilyn ei newidiadau i gam 1, cynigiodd y BBC ragor o newidiadau i BBC Bitesize, er mwyn cyflwyno swyddogaethau ychwanegol, gan gynnwys:

- integreiddio offer dysgu Deallusrwydd Artiffisial trydydd parti;
- archwilio'r potensial ar gyfer rhyngwyneb bot sgwrsio a swyddogaethau asesu; a
- chysoni ap a llwyfan gwe BBC Bitesize i ddarparu cynnig di-dor i gynulleidfaoedd.

Fe wnaethom adolygu asesiad perthnasedd y BBC o Gam 2 ei ddatblygiadau BBC Bitesize a dod i'r casgliad ym mis Medi 2024 nad oedd y newidiadau'n berthnasol.[245] Wrth lunio ein barn, fe wnaethom nodi ymgysylltiad rhagweithiol y BBC â rhanddeiliaid, a oedd wedi bod yn gefnogol i raddau helaeth.

## Rydym wedi cyhoeddi Rhan 2 ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol

Ym mis Ionawr 2024, argymhellodd y Llywodraeth yn ei Adolygiad Canol Tymor ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sector newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth, fel rydym wedi'i wneud yn y gorffennol ar gyfer y sectorau clyweledol a sain. Rydym wedi mynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn fanwl yn Rhan 2 ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, ochr yn ochr â chanfyddiadau ein gwaith o fonitro'r newidiadau i newyddion ar-lein lleol y BBC ar gystadleuwyr. Mae ein tystiolaeth a'n dadansoddiad ar gael i'w darllen yn llawn yn Atodiad 2 a 3 ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Yn gryno, ar sail cyd-destun y farchnad bresennol, dyma ein safbwyntiau:

a) Ar gyfer radio lleol, yn gyffredinol mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar radio lleol/ gwledydd y BBC am wahanol resymau ac am wahanol gynnwys nag ar gyfer radio masnachol lleol. Felly, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y byddai cynyddu newyddion lleol ar ei wasanaethau radio lleol yn cael effaith sylweddol ar gystadleuwyr.

b) Ar gyfer newyddion teledu rhanbarthol, rydym o'r farn bod mwy o botensial i newid o wylio newyddion rhanbarthol Channel 3 i'r BBC os bydd y BBC yn cynyddu neu'n gwella

[245] Cawsom nodyn gan y BBC ar gam 1 ym mis Chwefror 2024 ac roeddem yn cytuno â'r BBC bod y newidiadau'n 'fusnes fel arfer' ac nad oedd angen asesiad perthnasedd.

ei gynnig, ond mae'n anodd iawn i ni asesu i ba raddau y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar gystadleuaeth heb wybod beth allai'r rhain fod.

c) Ar gyfer newyddion lleol ar-lein, roeddem wedi ymrwymo i fonitro effaith allbwn ehangach y BBC o straeon newyddion lleol, a'i fynegeion newyddion lleol newydd. Ers i'r BBC gynyddu ei allbwn newyddion ar-lein lleol yn ystod 2023, rydym wedi canfod bod ei ymweliadau â thudalennau wedi cynyddu. Fe wnaethom hefyd ganfod bod lefelau gwylio newyddion ar-lein lleol (a heb fod yn lleol) wedi gostwng ers 2022. Fodd bynnag, nid yw ein dadansoddiad wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol bod cysylltiad achosol rhwng y ddau. Mae'n ymddangos bod y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â thudalennau masnachol yn rhan o duedd tymor hwy a oedd yn bodoli cyn newidiadau'r BBC, er ein bod yn cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn cyfrannu i ryw raddau.

d) Gan edrych ymlaen, rydym yn cydnabod bod mwy o newyddion lleol ar-lein y BBC yn rhan o'r heriau sy'n wynebu cyhoeddwyr lleol ac efallai y bydd rhai ardaloedd lleol lle mae lefelau gwylio'r BBC yn disodli lefelau gwylio masnachol. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd newidiadau'r BBC yn y dyfodol yn cael effaith wahanol ar gyhoeddwyr masnachol. Er enghraifft, roedd ein hymchwil ansoddol yn nodi petai'r BBC yn darparu cynnwys ar-lein mwy lleol y gallai pobl ei ddewis ar draul ffynonellau ar-lein eraill, sy'n awgrymu mwy o botensial ar gyfer amnewid. Felly, efallai y bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried rhai newidiadau i'r BBC yn y dyfodol ymhellach.

Mae ein canfyddiadau'n fan cychwyn ar gyfer unrhyw asesiad cystadleuaeth yn y dyfodol a bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried effaith newidiadau sylweddol y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud ar gystadleuaeth, ac ystyried sut gallai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad yn ofalus, gan gynnwys drwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

# Asesu'r farchnad

## Fe wnaethom asesu safle'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gystadleuaeth yn 2022, rydym hefyd yn nodi ein safbwyntiau lefel uchel ar yr amodau cystadleuol yn y sectorau clyweledol a sain, gan gynnwys sut gallai newidiadau posibl gan y BBC gael effaith ar gystadleuaeth ym mhob un o'r sectorau hyn.[246] Roeddem hefyd wedi ymrwymo i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amodau cystadleuol hyn yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC a chafodd hyn ei groesawu yn Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Felly, rydym wedi nodi ein hamcangyfrifon diweddaraf ar gyfran y gwylio a'r gwrando ar y BBC a gweithredwyr masnachol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn dangos darlun gweddol debyg i'r rhai o'r flwyddyn flaenorol. Yn benodol:

- Mae'r cyfrannau gwylio yn dangos bod gan y BBC gyfran gymharol fawr o wylio o hyd (o'i gymharu â darlledwyr domestig eraill) ac mae lefelau gwylio BBC iPlayer wedi aros yn

[246] Ofcom, Datganiad: Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth: Newidiadau i ganllawiau a gofynion, 2023.

gymharol fach ar tua 4% (er ei fod hefyd wedi parhau i fod y gwasanaeth fideo-ar-alw (BVoD) mwyaf); ac
- Mae'r cyfrannau gwrando yn dangos bod cynnwys sain ar-lein y BBC yn dal i gyfrif am gyfran fach o'r gwrando (tua 4%) ac mae portffolio radio'r BBC yn dal i gyfrif am gyfran sylweddol o'r gwrando, er bod ei gyfran o'r holl wrando ar y radio wedi bod yn gostwng.

Ar sail ein dadansoddiad o'r data diweddar, mae ein barn lefel uchel ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain fel y nodwyd gennym y llynedd.

- Mae newidiadau i BBC iPlayer yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran gwylio – ac felly refeniw – cystadleuwyr domestig. Felly, nid oes disgwyl iddynt fod â risg sylweddol o wthio gwylwyr allan.[247] Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r risg fod yn uwch petai disgwyl i effaith newid penodol ddisgyn ar gronfa ddwys o ddarparwyr masnachol domestig. Byddai newid o'r fath yn fwy tebygol o fod angen craffu'n fanylach.
- Mae'n bosibl y gallai newidiadau i wasanaethau teledu darlledu'r BBC gael mwy o effaith ar gystadleuwyr domestig, ac felly gallent beri mwy o risg o wthio i ffwrdd na newidiadau i BBC iPlayer.
- Mae newidiadau sy'n effeithio ar BBC Sounds yn unig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gyfran y bobl sy'n gwrando – ac felly ar refeniw – cystadleuwyr domestig, ac nid ydym yn disgwyl risg sylweddol iddynt gael eu gwthio i ffwrdd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'n barn ar BBC iPlayer uchod, rydym o'r farn y bydd angen craffu ymhellach ar newidiadau a allai gael mwy o effaith ar gronfa lai o gystadleuwyr domestig. Tynnir sylw at hyn yn ein hadolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o ffrydiau newydd ar BBC Sounds lle roeddem o'r farn, fel y trafodwyd uchod, y gallai ffrwd estyniad arfaethedig BBC Radio 2 gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- Gallai newidiadau i wasanaethau radio'r BBC, sy'n arwain at gynnydd sylweddol mewn gwrando, gael mwy o effaith ar ddarparwyr radio masnachol domestig. O'r herwydd, rydym o'r farn bod mwy o risg iddynt gael eu gwthio i ffwrdd o ganlyniad i newidiadau o'r fath, o'i gymharu â newidiadau sydd wedi'u cyfyngu i BBC Sounds.

# Ein gwaith yn 2023/24 i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

Mae'r adran hon yn amlinellu ein gwaith o ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ei waith comisiynu a dosbarthu a'i weithgareddau masnachol.

## Ein hadolygiad o newidiadau arfaethedig y BBC i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

[247] Os bydd y BBC yn newid ei wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n arwain cynulleidfaoedd i symud oddi wrth wasanaethau masnachol at wasanaethau'r BBC, gall refeniw darparwyr masnachol leihau. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar allu darparwyr masnachol i fuddsoddi yn eu gwasanaethau, gan leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU. Rydym yn cyfeirio at yr effaith hon fel 'gwthio i ffwrdd'. Nid gwthio i ffwrdd yw'r unig ffordd y gall y BBC niweidio cystadleuaeth – er enghraifft, mae perygl y gallai gweithgarwch y BBC gael effeithiau niweidiol ar wasanaethau mewn rhannau eraill o gadwyn gyflenwi cyfryngau'r DU.

### Fe wnaethom gymeradwyo lansio BBC Radio Cymru 2 fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU

Ym mis Medi 2023, cwblhaodd y BBC ei brawf budd y cyhoedd ar ei gynnig i ymestyn nifer yr oriau gwreiddiol Cymraeg a ddarlledir ar BBC Radio Cymru 2. Gan fod hwn yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, fe wnaethom gynnal asesiad cystadleuaeth o'r cynnig. Fe wnaethom ymgynghori ar gynnal asesiad byrrach oherwydd (i) roeddem yn fodlon bod y BBC wedi rhoi cyfle priodol i'r partïon y gallai hyn effeithio arnynt roi sylwadau; a (ii) bod yr asesiad cystadleuaeth yr oedd y BBC wedi'i gynnal o'r effaith bosibl yn briodol ac yn gymesur. Daeth ein hasesiad i'r casgliad bod gwerth cyhoeddus ychwanegol y cynnig yn cyfiawnhau'r effaith debygol ar gystadleuaeth.

Ym mis Mawrth 2024, roeddem wedi rhoi amodau Trwydded Weithredu[248] newydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth newydd i sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru; cerddoriaeth sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru; a bwletinau newyddion rheolaidd a dyddiol. Roedd yn rhaid i'r BBC hefyd roi gwybod i Ofcom pa mor aml roedd yn bwriadu darlledu bwletinau newyddion ar y gwasanaeth ac mae wedi gwneud hynny, gyda'r bwletinau newyddion yn cael eu darlledu ar yr un pryd â Radio Cymru.




## Nid oedd unrhyw newidiadau i'w hystyried i weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau cyhoeddus

Mae'r BBC yn ymwneud â rhai gweithgareddau nad ydynt yn Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, ond sy'n dal i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn cynnwys bod yn rhan o wasanaethau fel Freeview. Pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau i weithgaredd nad yw'n wasanaeth, bydd angen iddo ystyried a yw'r newid yn newid 'perthnasol' yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid iddo ystyried newidiadau i'w weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU.

Nid ydym wedi ystyried unrhyw newidiadau i weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn ystod y flwyddyn adrodd.

## Cystadleuaeth mewn comisiynu

[248] Fframwaith Gweithredu'r BBC - Ofcom

## Bu cynnydd amlwg yng ngallu'r BBC i gystadlu am oriau teledu perthnasol

Mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd mewn perthynas â chynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Fe wnaethom fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau ac rydym yn fodlon â'i berfformiad, yn benodol ei fod wedi cyrraedd ei darged ar gyfer oriau sain a oedd yn destun cystadleuaeth.

**Ffigur 4: Tabl yn amlinellu'r gallu i gystadlu ar gyfer cynnwys teledu, radio ac ar-lein**

| Llwyfan | Cystadleuaeth hyd yma 18/19 | Cystadleuaeth hyd yma 19/20 | Cystadleuaeth hyd yma 20/21 | Cystadleuaeth hyd yma 21/22 | Cystadleuaeth hyd yma 22/23 | Cystadleuaeth hyd yma 23/24 | Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teledu** | 56% | 62% | 64% | 62% | 63% | 77% | 100% erbyn 31 Rhagfyr 2027 |
| **Radio** | 35% | 48% | 53% | 55% | 62% | 61% | 60% erbyn 31 Rhagfyr 2022 (cyrhaeddwyd) |
| **Ar-lein** | 44% | 62% | 59% | 72% | 80% | 82% | 100% erbyn 31 Rhagfyr 2027 |

*Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.136.*

Fe wnaeth y BBC gynnydd sylweddol tuag at ei dargedau i sicrhau bod modd cystadlu am 100% o oriau perthnasol teledu ac ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2027. Yn 2023/24, gofynnodd y BBC am dendrau i gynhyrchu rhaglenni fel darllediad y DU o rowndiau cynderfynol a therfynol yr *Eurovision Song Contest, DIY SOS, Blue Peter* a *Sports Personality of the Year*.[249]

Roedd y BBC yn dal yn uwch na'r targed o 60% gyda'r oriau radio perthnasol i fod yn destun cystadleuaeth erbyn 31 Rhagfyr 2022.[250] Cyhoeddodd y BBC gytundeb Telerau Masnach newydd gyda'r sector sain ar gyfer comisiynau sain. Mae'r cytundeb hwn yn cynyddu'r cyllid i gwmnïau cynhyrchu ac yn rhoi mwy o gyfle iddynt fanteisio ar eu heiddo deallusol a dosbarthu'n fasnachol. Cyhoeddodd y BBC hefyd y byddai ei Gronfa Datblygu Radio Annibynnol yn dychwelyd yn 2024/25 a'i fod yn bwriadu buddsoddi yn rhaglen hyfforddi Audio UK.

Rydym yn siarad â chynhyrchwyr teledu a chyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant radio fel rhan o'n rhaglen barhaus i ymgysylltu â'r sector a'i fonitro. Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys ynghylch cystadleuaeth yn y broses gomisiynu.

# Nid ydym wedi cael unrhyw gwynion ynghylch dosbarthiad y BBC

Mae Ofcom wedi pennu gofynion ynghylch y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. Gallwn hefyd ystyried cwynion am ddosbarthiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC os nad

[249] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.6.
[250] BBC, Commissioning Supply Report 2023/24, t.6.

yw'r sawl sy'n cwyno wedi gallu datrys y mater drwy broses gwyno'r BBC. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, nid ydym wedi cael unrhyw gwynion ynghylch dosbarthiad y BBC.

## Ni chafwyd unrhyw faterion yn codi o'n gwaith yn monitro gweithgareddau masnachol y BBC

Rydym yn monitro'n barhaus y berthynas rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i weithgareddau masnachol, gan gynnwys asesi'r wybodaeth adrodd flynyddol a roddir gan y BBC er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â'n rheolau. Dywedodd y BBC fod ei ganghennau masnachol wedi darparu £1.9b o werthiannau ac EBITDA o £199m yn 2023/24.[251] Nid oedd unrhyw bryderon yn codi o'n hadolygiad o'i gydymffurfiad â'n gofynion adrodd ar weithgareddau masnachol a masnachu yn 2023/24.[252]

Ers cyhoeddi ein hadolygiad o BBC Studios, rydym wedi gofyn am sicrwydd yn y ddau faes nad oeddem yn fodlon bod gan y BBC reolaethau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'n rheoliadau. Rydym yn fodlon bod y materion hyn wedi cael eu datrys ac rydym wedi cyhoeddi llythyr gan y BBC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei ddull o werthu cynnwys eilaidd.

Nid oedd gennym unrhyw gwynion ynghylch sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'n gofynion o ran gweithgareddau masnachol a masnachu.

## Roeddem yn cytuno ag asesiad perthnasedd y BBC am drosglwyddo rhai gweithgareddau cynhyrchu sain i BBC Studios

Cynigiodd y BBC drosglwyddo gweithgarwch cynhyrchu sain yn rhannol o wasanaeth Cyhoeddus y DU i BBC Studios ym mis Tachwedd 2023. Roeddem yn cytuno â'r BBC na fydd y newid arfaethedig yn arwain at risg sylweddol o ystumio'r farchnad na mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i berthynas BBC Studios â Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC.

[251] BBC, A year of investment in growth for BBC Commercial, 2024.
[252] Ofcom, Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC, 2023

# 6. Safonau cynnwys

**Crynodeb**

- Fel rhan o'n rôl yn monitro prosesau delio â chwynion y BBC, heddiw mae Ofcom wedi cyhoeddi canfyddiadau ymarfer siopwr dirgel ar raddfa fawr i lunio barn gychwynnol ynghylch pa mor effeithiol yw'r newidiadau diweddar a wnaeth y BBC. Rydym yn falch o weld bod y BBC wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes.
- Yn 2023/24, cynyddodd nifer cyffredinol cwynion y BBC i Ofcom, yn rhannol oherwydd cwynion am ddidueddrwydd dyladwy yn ymwneud â'r sylw i wrthdaro Israel-Gaza.
- Ni chafodd ymchwiliadau safonau cynnwys y BBC eu lansio yn ystod 2023/24, ond cynhaliwyd wyth ymchwiliad Tegwch a Phreifatrwydd y BBC, a chadarnhawyd dau ohonynt. Roedd gan Ofcom bryderon am ymgysylltiad y BBC ag Ofcom yn un o'r achosion a gadarnhawyd.
- Ni wnaeth Ofcom gyhoeddi unrhyw Farn ynghylch a oedd y BBC wedi glynu wrth ei Ganllawiau Golygyddol yng nghynnwys ei ddeunydd ar-lein yn ystod 2023/24.
- Mae Ofcom yn paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd yn deillio o Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024.

## Ein dull gweithredu wrth orfodi safonau cynnwys y BBC yn 2023/24

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio pob agwedd ar safonau cynnwys y BBC.[253] Mae ein Cod Darlledu ("y Cod") yn nodi'r safonau rydym yn mynnu bod pob darlledwr (gan gynnwys y BBC) yn eu bodloni.[254] Mae gan y BBC ei Ganllawiau Golygyddol ei hun ("y Canllawiau") hefyd.[255] Mae gan Ofcom a'r BBC drefniant ar wahân sy'n ymwneud â deunydd ar-lein.

Yn yr adran hon, rydym yn trafod:


- system BBC yn Gyntaf ar waith yn 2023/2024 a'n hasesiad o'r cynnydd mae'r BBC wedi'i wneud o ran delio â chwynion drwy ein hymchwil Siopa Dirgel;
- goruchwyliaeth Ofcom o'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys (gan gynnwys didueddrwydd dyladwy); a
- pharatoadau Ofcom ar gyfer dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â safonau golygyddol y BBC.

### Roedd y BBC wedi methu ei dargedau ymateb i gwynion yn 2023/24 o drwch blewyn

[253] Mae Ofcom wedi gosod gweithdrefnau i drin cwynion am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC sydd wedi cael eu cyfeirio atom ni, yn ogystal â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC.
[254] Mae'n rhaid i'r BBC hefyd gydymffurfio â gofynion y Cod ar 'degwch a phreifatrwydd'. Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael eu trin o dan weithdrefnau gwahanol.
[255] Mae'r Canllawiau'n ymgorffori gofynion y Cod, gyda rhai gwahaniaethau sy'n golygu bod y Canllawiau'n mynd ymhellach mewn rhai meysydd.

Yn wahanol i ddarlledwyr eraill, gall y BBC ddatrys cwynion gan gynulleidfaoedd cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio at Ofcom drwy eu system BBC yn Gyntaf.[256] Mae ffigur 5 isod yn dangos camau'r broses hon.

**Ffigur 5: Y broses i gynulleidfaoedd sydd wedi cwyno am y BBC**




Yn ôl ystadegau cwynion y BBC ei hun, cafodd 179,743 o gwynion yn 2023/2024, 49,380 yn llai o gwynion nag yn y flwyddyn flaenorol.[257] Eleni, cafodd 92% o gwynion Cam 1 eu hateb o fewn y targedau dangosyddion perfformiad allweddol a osodwyd gan Ofcom yn erbyn targed o 93%.[258] Mae hyn yn cymharu â 97% a atebwyd o fewn y targedau dangosyddion perfformiad allweddol yn y flwyddyn flaenorol.

Rhan allweddol o system BBC yn Gyntaf yw'r ymchwiliadau a wneir yng Ngham 2 proses gwynion y BBC. Fel arfer, mae'r ymchwiliadau hyn yn cael eu cynnal gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC sy'n ceisio cwblhau 80% o'i ymchwiliadau o fewn 20 diwrnod gwaith gyda chwynion safonol Cam 2 a 35 diwrnod gwaith gyda chwynion Cam 2 mwy cymhleth.[259] Yn 2023/24, daeth 78% o gwynion i ben ar y cam hwn yn y targedau hyn.[260]

---

[256] Cafodd y system hon, a elwir yn 'BBC yn Gyntaf', ei rhoi ar waith gan y Senedd Brydeinig ac mae'n adlewyrchu Siarter a Chytundeb y BBC. Ac eithrio cwynion Tegwch a Phreifatrwydd y gellir eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom, fel rheol mae'n rhaid i gŵyn fod wedi cwblhau proses gwynion y BBC cyn y gall y sawl sy'n cwyno gyflwyno ei gŵyn i Ofcom.

[257] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.123.

[258] Yn ei Adroddiad Blynyddol (t.123), eglurodd y BBC nad oedd y dangosydd perfformiad allweddol yng Ngham 1A wedi'i fodloni'n bennaf oherwydd cynnydd mawr yn nifer y cwynion ym mis Mawrth 2023 ynghylch defnydd cyflwynydd o gyfryngau cymdeithasol ac oherwydd cymhlethdod y cwynion a gafwyd yn ymwneud â'r sylw i wrthdaro Israel-Gaza. Dywedodd y BBC fod yr amseroedd cwblhau wedi codi'n ôl i 95% yn ystod chwarter olaf y flwyddyn (Ionawr-Mawrth 2024).

[259] Mae gan yr Uned Cwynion Gweithredol gyfrifoldeb i ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni a darparwyr cynnwys y BBC.

[260] Yn ei Adroddiad Blynyddol (t.123), dywedodd y BBC fod ei fethiant i fodloni dangosyddion perfformiad allweddol yng Ngham 2 yn 2023/24 yn bennaf oherwydd un achos cymhleth yn ymwneud ag adroddiad newyddion ar brotest yn erbyn y cynllun arfaethedig i ymestyn Parth Allyriadau Isel Iawn Llundain (ULEZ), a ddenodd 44 o gwynion, ac roedd pob un ohonynt wedi cael ymateb ar ôl dyddiad targed.

Roedd yr Uned Cwynion Gweithredol wedi delio â 594 o gwynion yng Ngham 2 proses gwynion y BBC yn 2023/2024. O'r rhain, canfu'r Uned Cwynion Gweithredol 35 achos o dorri safonau golygyddol, lle nad oedd ei Ganllawiau Golygyddol wedi cael eu bodloni.[261] Rydym yn cydnabod bod un achos cymhleth wedi ennyn nifer o gwynion a oedd yn effeithio ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Cam 2 ar gyfer 2023/24. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei ddangosyddion perfformiad allweddol Cam 2 yn y dyfodol.

## Mae ein hymchwil siopwr dirgel newydd yn dangos bod y BBC wedi gwella'r ffordd mae'n delio â chwynion

Rydym yn monitro sut mae BBC yn Gyntaf yn perfformio ac yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd mewn sawl ffordd.

Yn ei Adroddiad Blynyddol, amlinellodd y BBC newidiadau mae wedi'u cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r ffordd mae'n delio â chwynion. Er enghraifft, mae wedi gwella rôl y Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol o ran goruchwylio ei gwynion ac mae'n parhau i chwilio am ffyrdd newydd o symleiddio ei broses a'i gwneud yn fwy ymatebol i gynulleidfaoedd.[262] Eleni, rydym wedi cynnal ymarfer siopwr dirgel ar BBC yn Gyntaf i ddeall pa mor effeithiol yw'r newidiadau diweddar y mae'r BBC wedi'u gwneud i'w brosesau delio â chwynion.

**Ymchwil Ofcom i siopa dirgel – Proses Gwynion y BBC**

Yn 2022 fel rhan o'n hadolygiad o Reoleiddio'r BBC yn y Dyfodol, fe wnaethom gynnal ein hymarfer siopwr dirgel cyntaf gyda 50 o gwynion y BBC. Yn dilyn hyn, rhoddodd y BBC nifer o newidiadau ar waith i'w brosesau delio â chwynion. Roeddem wedi ymrwymo i gynnal adolygiad pellach o broses BBC yn Gyntaf cyn diwedd cyfnod presennol y Siarter yn 2027, er mwyn asesu effaith y newidiadau hyn. Fodd bynnag, cyn yr adolygiad hwnnw, rydym wedi comisiynu ymchwil siopwr dirgel ar raddfa lawer mwy, gan brofi dros 500 o gwynion y BBC, er mwyn dod i farn gychwynnol.[263]

Rydym wedi cyhoeddi adroddiad Ymarfer Siopwr Dirgel ar y Broses Gwyno BBC yn Gyntaf heddiw ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn ar y BBC. Yn gyffredinol, mae'r ymchwil hwn yn rhoi darlun cadarnhaol ac yn dangos bod newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud i'w broses gwyno yn dilyn ein hadolygiad yn 2022 yn cyflawni'n dda ar gyfer cynulleidfaoedd. Er enghraifft, dywedodd achwynwyr fod gwefan cwynion y BBC yn hawdd ei defnyddio a'u bod yn gallu cysylltu â'r BBC yn hawdd i ddechrau. Canfu'r ymchwil hwn hefyd fod y rhan fwyaf o'r ymatebion i gwynion yn amserol, bod yr ymatebion yn glir, bod yr esboniad/rhesymeg yn hawdd ei ddeall a bod gwybodaeth am sut i uwchgyfeirio cwyn yn cael ei darparu.

Roedd yr ymchwil hefyd yn nodi rhai meysydd lle gallai gwelliannau fynd ymhellach ac rydym wedi annog y BBC i fynd i'r afael â'r rhain.

### Penderfyniadau Ofcom ar gwynion

[261] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.123.
[262] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.123.
[263] Cynhaliodd Ofcom 506 o lwybrau siop dirgel yn profi system gwyno tri cham y BBC ar draws gwahanol ddulliau gan gynnwys dros y ffôn, ar-lein (ffurflen ar y we), llythyr a ffôn testun. Creodd Ofcom 465 o gwynion unigryw, a defnyddiwyd rhai ohonynt i brofi dau ddull (er enghraifft, dros y ffôn ac yna ar-lein).

Yn ein hadolygiad yn 2022 roeddem wedi diwygio ein gofyniad i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros benderfyniadau 'heb eu cadarnhau' yng Ngham 2.[264] Yn 2023/24, roedd y BBC wedi gwella ei dryloywder yn y maes hwn:

- rhwng 4 Gorffennaf 2022 a 31 Mawrth 2023, cyhoeddodd y BBC ei resymau mewn 188 achos heb eu cadarnhau; a
- rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cyhoeddodd y BBC ei resymau mewn 186 o achosion heb eu cadarnhau.[265]

Rydym yn croesawu mwy o dryloywder gan y BBC, oherwydd drwy egluro pam nad oedd y BBC wedi cadarnhau'r cwynion hyn, mae cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn cael mwy o hyder yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Rydym yn disgwyl gweld y lefel hon o adrodd yn parhau.

## Mae Ofcom yn parhau i oruchwylio'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys (gan gynnwys didueddrwydd dyladwy)

### Torri rheolau golygyddol difrifol

Ers ein hadolygiad ym mis Mehefin 2022, mae'r BBC wedi bod yn rhoi gwybod i Ofcom am achosion difrifol posibl o dorri rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys.[266] Drwy roi gwybod i Ofcom am yr achosion hyn yn gynnar, gallwn asesu a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n ein perswadio ni i ymyrryd yn y gŵyn. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn ac yn disgwyl iddo barhau.

Dros gyfnod 2023/24, cafodd Ofcom ei hysbysu gan y BBC am ddau achos difrifol o dorri'r rheolau golygyddol[267] a oedd yn ymwneud â BBC North East and Cumbria ac erthygl BBC News.[268] Nid oedd Ofcom yn credu bod angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach gyda'r achosion hyn, o ystyried y camau roedd y BBC eisoes wedi'u cymryd.

### Cwynion a gyfeiriwyd at Ofcom


Os bydd y sawl sydd wedi cwyno'n dal yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC, gall gyfeirio'r mater at Ofcom.[269] Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 daeth 2,709 o gwynion i law am gynnwys y BBC. O'r rhain, dim ond 153 oedd wedi cwblhau proses gwynion y BBC yn gyntaf ac fe wnaethom

---

[264] Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi ei resymau dros (i) pob penderfyniad sy'n ymwneud â chŵyn am gywirdeb dyladwy neu ddidueddrwydd dyladwy sy'n cyrraedd cam terfynol ei broses gwyno a (ii) pob penderfyniad sy'n ymwneud ag achos lle mae'r BBC wedi cael dros 100 o gwynion am yr eitem yng Ngham 1a.
[265] Negeseuon e-bost y BBC i Ofcom ar 16 Gorffennaf 2024 ac 12 Tachwedd 2024.
[266] Rydym wedi sefydlu protocol ar gyfer cyfathrebu rhwng y BBC ac Ofcom pan fydd achosion yn dod o dan weithdrefnau'r BBC ar gyfer ymchwiliadau a ysgogir gan y BBC ei hun, i achosion posibl o dorri safonau golygyddol ac achosion llwybr carlam.
[267] Yn ogystal â'r achosion difrifol o dorri rheolau golygyddol, dywedodd y BBC ei fod wedi cyfeirio dwy gŵyn at yr Uned Cwynion Gweithredol gan Fwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain a gan yr Ymgyrch yn erbyn Gwrthsemitiaeth (CAA) ynghylch y sylw i wrthdaro Israel-Gaza o dan y Weithdrefn ar gyfer cwynion golygyddol llwybr carlam y cytunwyd arni gydag Ofcom. Roedd y rhain yn ymwneud ag achos o dorri'r rheolau golygyddol a ddarlledwyd ar sianel BBC News. Nid oedd yr un o'r achwynwyr hyn wedi uwchgyfeirio eu cwynion i Ofcom.
[268] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.124.
[269] Mae achwynwyr hefyd yn gallu dod at Ofcom os ydynt yn meddwl, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn, y gallai sancsiwn fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu datrys cwyn yn y cyfnod a nodir yn ei weithdrefnau.

gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC. Mae Ffigur 6 isod yn rhoi trosolwg o'r cwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan System BBC yn Gyntaf ar gyfer cyfnod 2023/24.

**Ffigur 6: Trosolwg o gwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan system BBC yn Gyntaf yn 2023/24**




Eleni, mae Ofcom wedi dechrau cyhoeddi manylion cwynion mae'r BBC eisoes wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol o dan y system BBC yn Gyntaf ac rydym ninnau wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt. Yn yr achosion hyn, rydym yn ystyried yn ofalus y camau a gymerwyd a'r safbwynt terfynol y mae'r BBC wedi'i gyrraedd, a phan fyddwn yn penderfynu na fyddwn yn agor ymchwiliad, rydym yn datgan yn glir ein rhesymeg dros beidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn ein Bwletin Darlledu ac Ar-alw.[270] Cafodd hyn ei roi ar waith yn dilyn argymhelliad yn Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler isod).[271]

## Cwynion didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy

Cynyddodd nifer y cwynion a gafodd Ofcom am ddidueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC dros 2023/24, ac roedd hyn wedi'i sbarduno'n rhannol gan y sylw i wrthdaro Israel-Gaza. Roedd Ofcom wedi asesu 1,785 o gwynion o'r fath (57% o holl gwynion y BBC i Ofcom), o'i gymharu â 918 o

[270] Bwletin Broadcast and On Demand Ofcom, *Cwynion am Safonau'r BBC sydd wedi'u hasesu ond na aethpwyd ar eu trywydd, t. 4.*

[271] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024, Atodiad C, Argymhelliad 3.18.

gwynion yn y flwyddyn flaenorol (39%) a 594 o gwynion yn 2021/22 (19%). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion am Safonau'r BBC a Deunydd Ar-lein y BBC.

O'r 1,785 o gwynion (618 o achosion):

- Ni ddilynwyd/ni dderbyniwyd 99 o gwynion (88 o achosion) gan nad oeddem o'r farn eu bod wedi codi materion yr oedd angen ymchwilio iddynt;
- cyfeiriwyd y 1,686 (530 o achosion) a oedd yn weddill at y BBC i gwblhau proses gwynion y BBC; ac
- ni chyfeiriwyd unrhyw achosion i'w hymchwilio.

Yn ogystal â gwaith Ofcom yn monitro didueddrwydd dyladwy'r BBC, mae'r BBC yn cynnal ei ymchwiliadau ei hun i sicrhau bod safonau didueddrwydd dyladwy yn cael eu cynnal. Yn ystod 2023/24, o'r 13 achos a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC, roedd tri yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.[272] Ers dechrau cyfnod y Siarter yn 2017, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau 32 achos yn llwyr neu'n rhannol (allan o gyfanswm o 160), lle canfu nad oedd y safon briodol ar gyfer didueddrwydd dyladwy wedi cael ei bodloni.[273]

**Cwynion y BBC yn ymwneud â gwrthdaro Israel-Gaza**

Ers 7 Hydref 2023 rydym wedi cael nifer uchel o gwynion sy'n ymwneud â sylw'r BBC i wrthdaro Israel-Gaza (sy'n cynrychioli bron i 50% o gyfanswm y cwynion i Ofcom am ddidueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC yn 2023/4). Rhwng 7 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2024:

i) roedd Ofcom wedi asesu a chau 931 o gwynion o'r fath;

ii) roedd 821 o'r rhain yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy; a

iii) o'r rhain, roedd 11 wedi cwblhau proses gwynion y BBC yn gyntaf ac felly fe wnaethom gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC.

Gan ystyried unrhyw gamau a gymerwyd gan y BBC mewn achosion unigol, nid oeddem yn credu bod unrhyw un o'r cwynion hyn yn codi materion i gyfiawnhau ymchwiliad o dan ein Cod nac yn ymwneud ag amgylchiadau eithriadol a fyddai'n ein perswadio ni i ymyrryd yn y gŵyn cyn iddi fynd drwy'r broses BBC yn Gyntaf.

Drwy gydol y gwrthdaro, mae Ofcom wedi ymgysylltu â seneddwyr a chynrychiolwyr o gymunedau Iddewig a Mwslimaidd am sylw'r BBC.

## Etholiad Cyffredinol y DU

Roeddem hefyd wedi asesu cwynion am sylw'r BBC ar raglenni newyddion a materion cyfoes yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol (30 Mai - 4 Gorffennaf 2024), ond nid oeddem yn ystyried bod unrhyw gwynion yn cyfiawnhau ymchwilio iddynt o dan y Cod. Byddwn yn rhoi diweddariad llawn ar hyn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf gan ei fod y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn.[274]

[272] Ymateb y BBC i hysbysiad adran 135 dyddiedig 2 Gorffennaf 2024.
[273] Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys achosion y tu allan i gylch gwaith Ofcom.
[274] Y rheswm am hyn yw bod Etholiad Cyffredinol y DU yn dod o fewn cyfnod adrodd 2024-2025.

## Adolygiadau thematig a mewnol y BBC

Yn ogystal â'i ymchwiliadau, mae'r BBC hefyd yn cynnal adolygiadau thematig i sicrhau ei fod yn dal ei hun yn atebol yn gyhoeddus am gyrraedd y safonau uchaf o ddidueddrwydd ar draws ei allbwn. Mae'r adolygiadau'n cael eu cynnal yn annibynnol ar y BBC ac yn cynnwys asesiad o holl gwynion cynulleidfaoedd ar bwnc penodol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigwyr allweddol yn y maes. Fel y soniwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, cafodd yr adolygiad ar drethiant, gwariant cyhoeddus, benthyca gan y llywodraeth a dyled cyntaf ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y BBC ei adolygiad o ddidueddrwydd cynnwys y BBC ar Ymfudo, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau yn y maes hwn. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar ei drydydd adolygiad didueddrwydd, a fydd yn edrych ar ba mor gywir a dilys mae'r BBC yn portreadu ac yn cynrychioli gwahanol grwpiau a chymunedau ar draws y DU. Cyhoeddir canlyniadau'r adolygiad hwn flwyddyn nesaf.[275] Rydym yn croesawu'r adolygiadau thematig hyn a'r ffaith bod y BBC wedi bod yn mynd ati i fynd ar drywydd goblygiadau canfyddiadau'r adolygiadau gyda gwneuthurwyr rhaglenni.

Yn ogystal â'r adolygiadau thematig hyn, mae'r BBC yn cynnal adolygiadau cynnwys mewnol sy'n asesu i ba raddau mae'r BBC yn bodloni safonau golygyddol mewn cynnwys newyddion, materion cyfoes a materion allweddol eraill. Yn ei Adroddiad Blynyddol, dywedodd y BBC fod yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau hyn yn cynnwys pwysigrwydd trafodaethau golygyddol amserol a chadarn, gwella'r ystod o safbwyntiau a chyfranwyr yng nghynnwys y BBC, a chynnal safonau golygyddol mewn cyfnod o newid a phan fo cyfyngiadau ar adnoddau. Mae chwe maes cynnwys yn cael eu hadolygu eleni sy'n ymwneud â rhaglenni ar draws adrannau Newyddion, Gwledydd a Chynnwys y BBC.[276]

## Cwynion am degwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod darlledwyr yn osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg, neu darfu'n ddiangen ar breifatrwydd unigolion neu sefydliadau sy'n ymddangos mewn rhaglenni neu y mae rhaglenni sy'n cael eu darlledu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn syth (neu yn achos preifatrwydd, mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gynnwys ynddynt). Mae cwynion o'r fath am Degwch a Phreifatrwydd yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.[277] Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, fe wnaethom asesu 40 o gwynion am honiadau o driniaeth anghyfiawn neu annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad yn rhaglenni'r BBC, o'i gymharu â 24 yn y flwyddyn flaenorol.

Fe wnaethom hefyd gwblhau wyth ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd i raglenni'r BBC. Cafodd dau o'r rhain eu cadarnhau a cheir manylion llawn yn y Bwletin Broadcast and On Demand Rhifyn 497 a Rhifyn 496. Yn un o'r achosion hyn (*The Detectives: Fighting Organized Crime*) roedd gan Ofcom bryderon sylweddol ynghylch cydweithrediad gwael y BBC yn ystod ymchwiliad Ofcom. Yn benodol, nid oedd ymatebion cychwynnol y BBC i geisiadau Ofcom am wybodaeth am ei brosesau cydymffurfio wrth gynhyrchu'r rhaglen yn gynhwysfawr. Ar ben hynny, roedd ei sylwadau ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom a'r Safbwynt Rhagarweiniol diwygiedig yn wahanol iawn i'w safbwynt gwreiddiol ac yn ychwanegu at yr amser a gymerwyd gan Ofcom i ddyfarnu ar yr achos

[275] BBC Media Centre, Thematic review of portrayal and representation in BBC output confirmed, 29 Mai 2024.
[276] BBC, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2023/24, t.123.
[277] Nid yw'r system BBC yn Gyntaf yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd, ac yn wahanol i gwynion am safonau cynnwys y BBC, mae modd cyfeirio'r rhain at Ofcom yn y lle cyntaf.

hwn. O ystyried ein pryderon am ymgysylltiad y BBC yn yr achos hwn a'r effaith o ganlyniad i hynny ar ystyriaeth Ofcom o'r gŵyn, ac yn dilyn ein dyfarniad terfynol, cynhaliodd Ofcom gyfarfod cydymffurfio â'r BBC ym mis Mehefin 2024 i drafod dull y BBC o gydymffurfio â gofynion tegwch a phreifatrwydd y Cod.

### Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a'r BBC i drefniant ar wahân yn ymwneud â deunydd ar-lein, lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC. Bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC, ac rydym yn egluro hyn ymhellach isod.

Eleni, fe wnaethom asesu a chau cyfanswm o 45 o gwynion (42 o achosion) am ddeunydd ar-lein y BBC, o'i gymharu â 297 o gwynion (55 o achosion) y llynedd.[278] Roedd 355 o gwynion eraill (183 o achosion) am ddeunydd ar-lein y BBC wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y broses 'BBC yn Gyntaf', neu y tu allan i'n cylch gwaith. O'r 42 o achosion a aseswyd yn 2023/24, cawsant i gyd eu cau fel rhai 'heb eu derbyn' ar ôl i ni gynnal asesiad. Golyga hyn nad oeddem o'r farn eu bod yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC sy'n haeddu ystyriaeth gan Ofcom.

## Mae Ofcom yn paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio newydd sy'n ymwneud â safonau cynnwys y BBC

### Camau gweithredu sy'n deillio o Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth bryd hynny Adolygiad Canol Tymor y BBC. Roedd hyn yn edrych ar effeithiolrwydd a rheoleiddio safonau golygyddol a didueddrwydd y BBC a'i broses gwyno, ymhlith pethau eraill. Fel rhan o'r Adolygiad Canol Tymor, gwnaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon argymhellion i Ofcom a'r BBC a fydd yn cael eu pennu mewn Cytundeb Fframwaith diwygiedig sydd ar y gweill.

Bydd y Cytundeb Fframwaith diwygiedig yn rhoi pwerau newydd i Ofcom roi rhai o'r argymhellion ar waith. Yn ogystal â gwella'r ffordd rydym yn egluro'n gyhoeddus sut rydym yn delio â chwynion y mae'r BBC eisoes wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol o dan system BBC yn Gyntaf (gweler uchod), rydym hefyd yn gweithio mewn meysydd eraill a drafodir yn yr Adolygiad Canol Tymor:

#### Cod Deunydd Ar-lein y BBC

Bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC yn yr un ffordd ag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda chynnwys darlledu a chynnwys ar-alw y BBC. Bydd hyn yn cynnwys gwefannau Newyddion a Chwaraeon y BBC, cynnwys wedi'i frandio gan y BBC ar gyfrifon a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, adnoddau addysgol a dysgu, ac ar lwyfannau rhannu fideos trydydd parti. Ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith, bydd Ofcom yn gallu cyflwyno Cod Deunydd

[278] Mae'r rheswm dros y gostyngiad sylweddol yn deillio o un erthygl ar-lein benodol yn y flwyddyn flaenorol (2022/23) a arweiniodd at nifer uchel o gwynion. Hon oedd yr erthygl ar-lein: *'We're being pressured into sex by some trans women'* (teitl gwreiddiol), a'r teitl newydd: '*The Lesbians who feel pressured to have sex and relationships with trans women'*, gwefan BBC News, 26 Hydref 2021.

Ar-lein y BBC sy'n adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail i'r Cod Darlledu. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ddrafft o God Deunydd Ar-lein y BBC ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith ar ei newydd wedd.

### Adolygiad Ofcom o benderfyniadau'r Uned Cwynion Gweithredol

Rydym yn gweithio gyda'r BBC i roi proses ar waith i gynnal adolygiadau rheolaidd o sampl o benderfyniadau'r Uned Cwynion Gweithredol na fyddai fel rheol yn dod i sylw Ofcom.[279] Byddwn yn cyhoeddi canlyniad ein hadolygiad cyntaf yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf ar y BBC.

## Rydym yn gweithio gyda'r BBC i godi ymwybyddiaeth o BBC yn Gyntaf

Mae Ofcom a'r BBC wedi bod yn cydweithio i adnabod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o BBC yn Gyntaf ac i roi gwybod yn well beth yw ein rolau yn y broses gwyno i'r rheini sy'n gwneud cwyn.

Yn ogystal â'n paratoadau ar gyfer ein dyletswyddau newydd, ac yn dilyn yr ymrwymiadau a wnaed yn ein Hadolygiad o Reoleiddio'r BBC yn 2022, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad pellach o'r system BBC yn Gyntaf. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil newydd i ddiweddaru ein dealltwriaeth o ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC.

[279] Er enghraifft, achosion lle nad yw'r sawl sy'n cwyno yn cyfeirio nac yn uwchgyfeirio ei gŵyn at Ofcom.